



DRAINAGE &
WASTEWATER
MANAGEMENT PLAN

Dŵr Cymru Welsh Water

Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff 2024

Datganiad o Ymateb

Tachwedd 2023



IN PARTNERSHIP WITH



ATKINS
Member of the SNC-Lavalin Group



CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol.....	i
1 CYFLWYNIAD.....	1
1.1 Cefndir a Chyd-destun.....	1
1.2 Sut i Ddarllen y Ddogfen Hon.....	2
2 CRYNODEB YMGYNGHORI.....	3
2.1 Trosolwg o Ymgynghoriadau'r DWMP a'r SEA/HRA	3
2.2 Deunyddiau a Hyrwyddo Ymgynghoriad y DWMP	3
2.3 Deunyddiau a Hyrwyddo Ymgynghoriad yr SEA a'r HRA.....	4
2.4 Sicrhau'r Bwrdd.....	4
3 TROSOLWG O YMATEBION YMGYNGHORI'R DWMP.....	6
3.1 Crynodeb o Adborth a Dderbyniwyd	6
4 DADANSODDIAD O YMATEBION I'R HOLIADUR	7
4.1 Gwybodaeth am DWMP Dŵr Cymru.....	7
4.2 Cyfathrebiad DWMP Dŵr Cymru	9
4.3 Gweithredu gan Gwsmeriaid	11
4.4 Ymateb i Reoli Dŵr Gwastraff.....	12
4.5 Ymdrin â Llifogydd.....	13
4.6 Blaenoriaethu	15
4.7 Ymgysylltu Cymunedol	16
4.8 Cynnig ar gyfer Cylchred 2.....	17
5 DADANSODDIAD O YMATEBION NAD OEDDENT I'R HOLIADUR.....	19
5.1 Cyd-destun Strategol.....	19
5.2 Blaenoriaethu	20
5.3 Datblygu Opsiynau	20
5.4 Cydweithredu/Ymgysylltu	22
5.5 Effaith Amgylcheddol (gan gynnwys Gorlifoedd).....	25
5.6 Bioamrywiaeth.....	25
5.7 Deddfwriaeth a Pholisïau Cenedlaethol	26
5.8 Integreiddio	28
5.9 Termau/Geiriad/Iaith	30
5.10 Canmoliaeth.....	31
6 DADANSODDIAD O WAITH YMCHWIL CWSMERIAID	32
6.1 Pa waith ymchwil cwsmeriaid gafodd ei wneud?	32



6.2	Amcanion ymchwil	32
6.3	Cyflwyno cwsmeriaid i'r DWMP.....	33
6.4	Gwerthusiad manwl o'r DWMP	41
6.5	Pwysigrwydd cymharol meysydd ar gyfer buddsoddiad DWMP	45
6.6	Ymgysylltu â'r DWMP yn y dyfodol	46
6.7	Pwysigrwydd ymchwil parhaus gan gwsmeriaid.....	47
7	SEA (ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL) A HRA (ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD).....	48
7.1	Cyflwyniad	48
7.2	Crynodeb o'r ymgynghoriad SEA a HRA	48
7.3	Dadansoddi'r Ymatebion.....	49
7.4	Casgliad SEA HRA	51
8	DADANSODDIAD O ARGYMHELLION Y RHEOLEIDDWYR.....	52
8.1	Rhanddeiliaid ac Ymgysylltu	52
8.2	Atebion seiliedig ar natur	55
8.3	Capasiti'r rhwydwaith	56
8.4	Atebion.....	57
8.5	Dull cynllunio	59
8.6	Fforddiadwyedd a gwerth gorau	61
8.7	Dŵr ymdrochi	65
8.8	Cyflenwadau dŵr preifat.....	65
8.9	Risg.....	66
8.10	Sgrinio Dalgylch yn Seiliedig ar Risg	67
8.11	Opsiynau.....	68
8.12	Effaith Amgylcheddol	68
8.13	Trwydded a rhwymedigaethau cyfreithiol ac Egwyddorion Arweiniol	69
8.14	Ansawdd y Cynllun	72
8.15	Cynllunio Addasol.....	74
8.16	SEA	75
8.17	Dadansoddi'r Argymhellion	75
8.18	Camau gweithredu i'w cymryd o argymhellion ein rheoleiddwyr.....	77
9	CRYNODEB O'R ARGYMHELLION	78
10	Y CAMAU NESAF.....	85
11	GEIRFA.....	86

Ffigurau

Ffigur 1 – Proses sicrwydd y Bwrdd	5
Ffigur 2 – Ffynonellau o ymwybyddiaeth	8
Ffigur 3 – Dulliau gwybodaeth.....	10
Ffigur 4 – Ymwybyddiaeth o'r DWMP ymhlith cwsmeriaid aelod a'r rhai nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd.....	33
Ffigur 5 – Diddordeb yn y DWMP ymhlith cwsmeriaid aelwyd a'r rhai nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd.....	34
Ffigur 6 – Tebygolrwydd o ddarllen y Cynllun.....	36
Ffigur 7 – Diddordeb mewn meysydd o'r DWMP	37
Ffigur 8 - Tebygolrwydd o ddarllen y Cynllun yn ôl maes a drafodir.....	38
Ffigur 9 – Map o risgiau ar draws ardal gwasanaeth Dŵr Cymru.....	39
Ffigur 10 - Paratoad a ffefrir yn erbyn stormydd ymhlith cwsmeriaid aelwyd	41
Ffigur 11 - Gollyngiadau derbynol i gwsmeriaid	42
Ffigur 12 - Gollyngiadau carthion derbynol ymhlith cwsmeriaid aelwyd	43
Ffigur 13 - Gollyngiadau carthion derbynol ymhlith cwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd... ..	43
Ffigur 14 - Tabl yn dangos safbwyntiau cwsmeriaid ar yr amserlen ar gyfer cynllunio	44
Ffigur 15 - Pwysigrwydd perthnasol pob maes i gwsmeriaid	45
Ffigur 16 - Pwysigrwydd cymharol pob maes i gwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd.....	46

Rhestr o Dablau

Tabl 1 – Dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad ffurfiol y DWMP	6
Tabl 2 – Dadansoddiad o ymatebion yn ystod gwaith ymchwil cwsmeriaid	6

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad o Ymateb hwn yn cynnig trosolwg o ymatebion o weithgarwch ymgynghori ac ymchwil cwsmeriaid a gyflawnwyd i gefnogi datblygiad Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) Dŵr Cymru.

Cyflawnwyd gweithgarwch ymgynghori rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022. Ategwyd y prif weithgarwch ymgynghori gan waith ymchwil cwsmeriaid annibynnol ac fe'i cynhaliwyd dros gyfnod o bedair wythnos rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o ymatebion o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymchwil cwsmeriaid, a throsolwg o sut y rhoddwyd sylw i sylwadau yn ein Cynllun terfynol, ein Hasesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'n Hasesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r ddogfen hefyd yn crynhoi sut mae gwaith ymgynghori ac ymchwil cwsmeriaid wedi dylanwadu ar ein Cynllun presennol a'n dull o gynllunio yn y dyfodol.

Nodwyd rhai sylwadau fel argymhellion i'w rhoi ar waith yn ystod y fersiwn nesaf a'r broses gynllunio y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi erbyn 2029; nod y rhain yn y ddogfen.

Crynodeb Ymgynghori

Roedd gweithgarwch ymgynghori yn chwilio am adborth a mewnbwn ar y DWMP drafft, a'r SEA a'r HRA. Roedd deunyddiau ymgynghori ar gael ar-lein yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd tri dull o ymateb:

1. 'Rhith-ystafell' ar-lein;
2. Tudalen we DWMP; ac
3. Yn uniongyrchol drwy e-bost.

Datblygwyd amrywiaeth o ddeunyddiau ymgynghori a hyrwyddo. Roedd y rhain yn cynnwys dogfen a deunyddiau drafft y DWMP, negeseuon e-bost rhanddeiliaid, rhith-ystafell ar-lein, cynnwys gwefan a'r dogfennau SEA a HRA drafft.

Cymerodd gyfanswm o 15 o unigolion rhan yn y prif holiadur ymgynghori gan gynhyrchu 248 o sylwadau unigryw a safbwyntiau gwerthfawr. Ategwyd hyn gan weithgarwch ymchwil cwsmeriaid ychwanegol yn cynnwys 500 o gwsmeriaid a 100 o gwsmeriaid masnachol.

Rydym wedi ymgysylltu â rheoleiddwyr, rhanddeiliaid, a chwsmeriaid yn ystod datblygiad ein DWMP cyntaf i sicrhau gwell dealltwriaeth o'u dyheadau. Rydym wedi ymgysylltu yn agored ac yn onest i gyfathrebu bod fforddiadwyedd yn rhwystr i wireddu'r dyheadau hyn. Mae hyn wedi ein helpu i gynnal ymddiriedaeth ac ennill eu cefnogaeth.

Ymatebion ymgynghori

Mae'r pwyntiau isod yn cynnwys detholiad o adborth allweddol o'r prif weithgarwch ymgynghori a'n hymateb. Mae manylion llawn ar gael ym mhrif ran y ddogfen hon:

- Roedd y mwyafrif o ymatebion yn ymwneud â chynigion penodol neu'r Cynllun ei hun. Roedd mwyafrif llethol y sylwadau a dderbyniwyd yn adeiladol ac yn cadarnhau lefel gadarnhaol o ddiddordeb yn y DWMP:
 - Mae ein DWMP terfynol yn cymryd sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad a'r adolygiad rheoleiddio i ystyriaeth.
- Dywedodd llawer o ymatebwyr yr hoffent ymgysylltu a gweithio gyda ni mwy fyth:
 - Rydym yn croesawu'r agwedd hon a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid a'r diwydiant, ar gyflymder y gallant ei hwyluso, i ddatblygu arferion gorau a sefydlu Fforymau Rheoli Strategol a Byrddau Rhaglen i helpu i gydgyssylltu atebion hirdymor.
- Datgelodd adborth rhanddeiliaid rai rhwystrau rheoleiddio i gynllunio a newid ymddygiad hirdymor:
 - Rydym yn gobeithio, trwy dreialu dulliau newydd, y bydd gan y Llywodraeth y dystiolaeth sydd ei hangen arni i ystyried deddfwriaeth newydd i alluogi pawb i weithio yn unol â dull 'Tîm Cymru' i gyflawni ein huchelgeisiau.
- Cododd rhai rhanddeiliaid fater Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru:
 - Rydym wedi ymrwymo i leihau gollyngfeydd gorlif carthffosydd a gall y DWMP gynorthwyo hyn. Ar ôl i'r Tasglu gyhoeddi canllawiau ar y diffiniad o 'niwed ecolegol', byddwn yn cynnwys manylion o'n hymrwymiad yn y Cynllun nesaf, ond rydym wedi cymryd adborth o'r ymgynghoriad hwn i barhau i fesur ein cynnydd yn erbyn y gyrchfan amgylcheddol.
- Mynegodd cwsmeriaid ffafriaeth at ddatrys llifogydd mewnol cyn gollyngiadau gorlif storm:
 - Fodd bynnag, maent yn dal i ddisgwyl gweld dim gollyngiadau fel y nod terfynol: ein cyrchfan cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn deall bod gan hyn oblygiadau o ran cost, ac o'r herwydd mae ganddynt barodrwydd i gyfaddawdu i sicrhau y gellir rheoli costau.
- Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r egwyddor o reoli glawiad ar wahân i garthion:
 - Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a chwsmeriaid i archwilio'r manteision a'r dulliau o reoli glawiad ar wahân i garthion, gan y gellir dosbarthu'r rhain fel gwahanol wreiddiau i'r broblem i'w datrys. Fel cymdeithas, rydym eisoes wedi dewis sicrhau pan fo'n ymarferol yn dechnegol y byddwn yn gwahanu glawiad o'n carthffosydd. Fodd bynnag, rydym yn nodi y gallai fod angen blynyddoedd lawer i wrthdroi penderfyniadau peirianeg o'r gorffennol, a buddsoddiad sylweddol.

Ymgynghoriad SEA a HRA

Rydym wedi cynnal SEA a HRA i hysbysu'r DWMP. Cyhoeddwyd y rhain ar gyfer ymgynghori ynghyd â'r DWMP drafft ac mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn. Ymgorfforwyd yr ymatebion yn y fersiynau terfynol ag argymhellion ar gyfer DWMP29.

Croesawodd ymatebwyr y defnydd o'r SEA a'r HRA i nodi sgil-ffeithiau posib effeithiau DWMP, yn enwedig o ran mesurau i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol, neu i gynyddu manteision trwy'r detholiad o opsiynau ar gyfer datblygiad arfaethedig.

Mae ymgynghoriadau wedi cydnabod canfyddiadau'r SEA a'r HRA. Maent hefyd yn amlygu'r angen am ystyriaeth bellach o ganlyniadau asesu lle dewisir opsiynau ar gyfer datblygiad arfaethedig, yn enwedig o ran mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau niweidiol, a chyfleoedd i wella effeithiau neu asedau buddiol.

Ymchwil cwsmeriaid

Ochr yn ochr â'r prif ymgynghoriad, cynhaliodd asiantaeth ymchwil i'r farchnad annibynnol i'n helpu i gael gwell dealltwriaeth o safbwyntiau cwsmeriaid. Roedd hyn yn cynnwys 500 o gwsmeriaid aelwyd a 100 o gwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd. Ystyriodd y gwaith ymchwil safbwyntiau cyffredinol ar y DWMP, manylion y DWMP a'r pwysigrwydd a neilltuir i wahanol feysydd a dymuniadau cwsmeriaid ynghylch diweddariadau i'r Cynllun.

Roedd cwsmeriaid yn eglur mai llifogydd cwsmeriaid ac 'atal llifogydd' sydd bwysicaf iddyn nhw, ac roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r egwyddor o reoli glawiad ar wahân i garthion a thrin ffynhonnell problemau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr, rhanddeiliaid, a chwsmeriaid i archwilio sut y gellir cyflawni hyn.

Mae cwsmeriaid aelwyd hefyd wedi dynodi ei ffafriaeth i dull hybrid o wneud gwelliannau fesul cam, gydag elfen o barthau bach wedi'u targedu. Roeddent yn teimlo y byddai hyn o fudd i nifer eang o gymunedau yn gyflymach ac roeddent yn ffafrio'r dull hwn gan ei fod yn ymddangos yn fwy rhagweithiol a thymor hwy, yn hytrach na dull safonol yr oeddent o'r farn oedd yn adweithiol ac yn ddrytach.

Mae lefelau ymwybyddiaeth o'r DWMP ymhlith cwsmeriaid aelwyd a'r rhai nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd yn isel. Er gwaethaf hyn, roedd gan gwsmeriaid aelwyd deimladau cryf tuag at y DWMP, gyda'r mwyafrif yn hawlio y byddent yn debygol o ddarllen y Cynllun.

Themâu allweddol

Yn dilyn proses ddadansoddi drylwyr o ddata o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymchwil cwsmeriaid, nodwyd amrywiaeth o gategoriâu a themâu:

- Cydweithredu ac ymgysylltu;
- Materion rheoleiddio a'r rhai yn ymwneud â'r amgylchedd a chynefinoedd;
- Ymholiadau a phroblemau cwsmeriaid;
- Atebion seiliedig ar natur;
- Bylchau deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol;
- Geiriad ac iaith DWMP;

- Aseidiadau amgylcheddol strategol a rheoliadau cynefinoedd; a'r
- Angen am integreiddiad â chynlluniau a rhaglenni eraill.

**Sylwer na nodwyd carbon fel pwnc o ddi-ddordeb gan ein rhanddeiliaid yn y gylchred hon.*

Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu cofnodi, eu dadansoddi, a'u crynhoi yn categorïau ac yn themâu. Mae'r categorïau a'r themâu hyn wedi'u cyfansoddi o fewnbwn gan gwsmeriaid, rhanddeiliaid, a rheoleiddwyr. Ceir manylion o'r categorïau yn yr adroddiad, ac mae ymatebion unigol wedi cael eu ffurfio o'r rhain.

Gwerthoedd cwsmeriaid allweddol

Arweiniodd dadansoddiad cyffredinol o'r safbwyntiau a gasglwyd at y gydnabyddiaeth o'n pedwar gwerth cwsmeriaid allweddol. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnig casgliad defnyddiol i gylchred gyntaf DWMP a bydd yn gweithredu fel y sylfaen ar gyfer ein hymdrechion ymgynghori yn y dyfodol yn yr ail gylchred a thu hwnt. Gwerthoedd y cwsmeriaid yw:



Cynaliadwyedd

Gweithredu ein dull i flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy




Eglurder

Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio sut i gyfathrebu ein bwriad a gweithredu'r dull yn dryloyw



Gwerth am arian

Creu cynlluniau fesul cam fforddiadwy â chynnydd a gytunwyd yn seiliedig ar y dewisiadau DWMP24



Cyd-greu

Ymchwilio i feysydd ar gyfer gweithio ar y cyd er budd cymunedau lleol

Er ein bod yn cydnabod bod y gwerthoedd hyn yn bwysig ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod nad yw'r gwerthoedd hyn yn cyd-fynd â phob sefyllfa, yn enwedig lle mae angen cyflawni yn unol â therfynau amser. Er enghraifft, ni fydd gofyniad newydd neu newid sydyn i reoliadau ag amserlen gyflawni o 2-5 mlynedd yn rhoi digon o amser ar gyfer cynllunio i sicrhau pwyslais ar gynaliadwyedd a gwerth am arian. Mae'r gwerthoedd hyn yn troi'n werthoedd sy'n cystadlu wedyn. Byddwn yn gwneud gwaith cynllunio senarios 'beth os' i sicrhau y gallwn fod wedi paratoi'n well ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath a lleihau eu heffaith niweidiol ar gymdeithas a biliau.

Rheoleiddio

Fe wnaethom dderbyn adborth gan OFWAT, ein rheoleiddiwr ariannol, ac ymateb ar y cyd gan ein rheoleiddwyr amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Wrth ddarparu'r cynllun cyntaf, mae swyddogaethau ein rheoleiddwyr a'r adeg i ymgysylltu'n uniongyrchol â phob un wedi bod yn dod i'r amlwg. Mae'r cyfnod cyn-ymgynghori o gynllunio gyda'n rheoleiddwyr wedi dod i ben o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w hychwanegu at gamau'r rhaglen gyffredinol a bydd angen eu hadlwyrchu mewn canllawiau yn y dyfodol.

Adolygwyd yr adborth a dderbyniwyd i ddeall y cwestiynau ychwanegol sy'n cael eu gofyn a pham. Caiff y pwntiau allweddol eu crynhoi yn y bwledi isod.

- Ceir gwahanol gynulleidfaoedd o fewn y sefydliadau rheoleiddio ac mae angen ymgysylltu â phob un:
 - Prif swyddfa yn erbyn cynrychiolwyr lleol neu arweinydd penodol i bwnc.
- Mae angen i'r ffordd y mae'r dogfennau yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno gynnwys fersiwn rheoleiddwyr:
 - Mae hyn oherwydd y byddai gwybodaeth yn ymwneud ag arddangosiad manwl o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer rheoleiddiwr yn rhy fanwl i ddiwallu anghenion cynulleidfa arall.
- Ceir gwahaniaeth hefyd rhwng datblygu Cynllun a datblygu rhaglen o atebion. Darparwyd y sylwadau a dderbyniwyd gan ein rheoleiddwyr gan fod ein cynllun yn trafod y ddau faes hyn drwyddi draw.

Casgliad

Yn dilyn y gweithgarwch ymgynghori, dadansoddi a nodi themâu allweddol a gwerthoedd cwsmeriaid, rydym wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf wrth lunio'r Cynllun Terfynol ac rydym wedi amlinellu cyfres o argymhellion i'w hystyried yn y gylchred gynllunio nesaf. Rydym hefyd wedi nodi manylion camau nesaf yn esbonio sut y bydd y gwerthoedd cwsmeriaid yn dylanwadu ar y broses gynllunio, a sut rydym yn bwriadu lliniaru rhag unrhyw heriau cydweddoldeb.

Mae'r Cynllun wedi argymhell strategaethau a pholisïau i'w rhoi ar waith i ysgogi newid drwy'r DWMP. Mae'r ymatebion ymgynghori wedi cadarnhau mai'r argymhellion a'r rhaglenni gwaith yn y cynllun yw'r dull cywir i ysgogi perfformiad hirdymor ac i ysgogi newid i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid.

Mae ein cwsmeriaid wedi amlinellu lle mae angen i ni fynd ac wedi dynodi bod cyflymder y newid yn gysylltiedig â:

- Fforddiadwyedd cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol;
- Darparu cymaint o ymyriadau fforddiadwy llai yn cwmpasu cymaint o leoliadau â phosibl i ddarparu rhaglen wella deg a chyfiawn;
- Gwella'r gallu i ddarparu ymyriadau fel nad yw'r un cwsmeriaid yn cael ymweliadau dro ar ôl tro â'u hardaloedd; ac
- Ariannu newid a nodi llwybrau i gynnydd a fydd yn arwain at effeithlonrwydd ychwanegol o gyd-greu.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y gylchred hon gan sicrhau eglurder strategol gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid, a gwell dealltwriaeth o'r meysydd pwyslais allweddol ar gyfer rhaglenni gwaith.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i egluro swyddogaeth DWMP yn y diwydiant dŵr gwastraff. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a Lloegr i roi cynlluniau rheoli ar waith, gan sicrhau ein bod yn

darparu mwy o fanylion ym mhob fersiwn i fireinio rhaglenni gwaith, gan ddangos y 5 mlynedd gyntaf ond hefyd y rhaglenni gwaith lleol i ddilyn.

Mae'n hanfodol ein bod yn dod â'n cwsmeriaid gyda ni ar y daith hon; nid yn unig oherwydd bod yn rhaid iddynt fforddio unrhyw effaith ar filiau o'r newidiadau seilwaith a amlygir, ond hefyd i helpu i bennu'r cyflymder ar gyfer rhoi newidiadau ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod newidiadau yn fforddiadwy a bod modd eu cyflawni a'u hariannu.

1 CYFLWYNIAD

Lluniwyd ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) drafft cyntaf ym mis Gorffennaf 2022. I gynorthwyo datblygiad y Cynllun, fe wnaethom gyflawni gwaith ymchwil cwsmeriaid annibynnol am bedair wythnos rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022 a chynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym wedi ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, cyngor rheoleiddio, ac ymchwil cwsmeriaid.

Ochr yn ochr â'r Cynllun, cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gennym o'r opsiynau a ddatblygwyd hyd yn hyn. Cyhoeddwyd y dogfennau hyn ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r DWMP.

Mae'r Datganiad hwn yn cynnig crynodeb o ymatebion o'n gwaith ymchwil cwsmeriaid, a'r ddau ymgynghoriad, ac yn dangos sut y rhoddwyd sylw i sylwadau yn ein Cynllun terfynol, yr SEA a'r HRA. Nodwyd rhai sylwadau fel argymhellion ar gyfer y fersiwn nesaf o'r broses gynllunio y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi erbyn 2029; nodir y rhain yn y Datganiad hwn.

Mae'r datganiad hwn hefyd yn crynhoi sut mae'r broses o ymgynghori ac ymchwilio wedi dylanwadu ar ein cynllun presennol, a'n dull o gynllunio yn y dyfodol.

1.1 Cefndir a Chyd-destun

Comisiynwyd y Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) neu'r 'Cynllun' gan Water UK yn 2018 fel sail ar gyfer cynllunio a rheoli mwy cydweithredol ac integredig ar gyfer draenio, dŵr gwastraff a diogelu'r amgylchedd.

Mae'r dull a fabwysiadwyd i lunio'r Cynllun wedi ystyried amcanion, risg, ac opsiynau fel astudiaeth gynllunio hirdymor yn ystyried anghenion draenio a charthffosiaeth dros y 25 mlynedd nesaf o leiaf, gan edrych ar dueddiadau'r dyfodol ac ymwreiddio dull o gydweithio â rhanddeiliaid eraill i ymchwilio a nodi opsiynau ar gyfer rheoli ein gwasanaethau draenio a dŵr gwastraff yn gynaliadwy.

Mae'r Cynllun presennol, a adnabyddir hefyd fel 'Cynllun Cylchred 1' neu 'DWMP24', yn dangos sut rydym wedi datblygu methodolegau a dulliau, ac wedi cynhyrchu atebion i'r blaenoriaethau a'r heriau mwy dybryd rhwng 2025 a 2050.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chwsmeriaid, rhanddeiliaid, a rheoleiddwyr ers 2019 i lunio'r DWMP cyntaf, gan baratoi dulliau a threialu ffyrdd newydd o gynllunio i lunio cynlluniau hirdymor sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy i gwsmeriaid, ac yn cefnogi prosesau cynllunio busnes.

1.2 Sut i Ddarllen y Ddogfen Hon

Rydym wedi rhannu'r holl ymatebion o'r ymgynghoriad a gwaith ymchwil cwsmeriaid, a'r rhai gan reoleiddwyr a Llywodraeth, yn wahanol adrannau yn y ddogfen hon. Mae hyn i sicrhau y gellir trafod y camau sy'n deillio o gwestiynau neu sylwadau penodol gan randdeiliaid a rheoleiddwyr o ran newidiadau i'r dogfennau DWMP terfynol, neu argymhellion ar gyfer newid i'r dull yn y dyfodol. Rhestrir yr adrannau isod:

Adran o'r Adroddiad	Adran o'r Adroddiad
Crynodeb gweithredol	
Cyflwyniad	Adran 1
Y broses ymgynghori	Adran 2
Y trosolwg a'r crynodeb o ymatebion, adborth a dderbyniwyd a sut yr ymdriniwyd â hyn.	Adran 3
Y dadansoddiad o ymatebion a dderbyniwyd drwy'r holiadur. Mae hwn yn cynnig manylion sut yr atebodd ymatebwyr bob cwestiwn a sut rydym wedi ystyried a chyflawni newidiadau.	Adran 4
Y dadansoddiad o ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan randdeiliaid statudol neu dechnegol, yn ogystal ag unrhyw ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd drwy sianeli ac eithrio'r holiadur. Rhoddwyd categori a thema i'r ymatebion hyn a cheir ymateb i bob thema.	Adran 5
Dadansoddiad o'n gwaith ymchwil cwsmeriaid annibynnol, sy'n nodi manylion ymatebion gan ein cwsmeriaid.	Adran 6
Trosolwg o ymgynghoriad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), a gynhaliwyd ochr yn ochr ag ymgynghoriad y DWMP.	Adran 7
Argymhellion Rheoleiddio, yn nodi manylion sut rydym wedi rhoi sylw i sylwadau gan reoleiddwyr yn gofyn am ddiwygiadau i'n dull.	Adran 8
Ein hargymhellion yn seiliedig ar ymatebion ymgynghori i'w cyflwyno yn y gylchred nesaf	Adran 9
Y Camau Nesaf	Adran 10

2 CRYNODEB YMGYNGHORI

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y DWMP drafft, a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

2.1 Trosolwg o Ymgynghoriadau'r DWMP a'r SEA/HRA

Fe wnaeth yr ymgynghoriad ar y DWMP drafft bara 10 wythnos o ddydd Mercher 27 Gorffennaf 2022 tan ddydd Gwener 7 Hydref 2022. Roedd y deunyddiau ymgynghorai a'r holiadur ar gael ar-lein yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd tair ffordd o ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

1. Rhith-ystafell;
2. Y wefan; ac
3. Yn uniongyrchol drwy e-bost.

Dyluniwyd deunyddiau ymgynghori i alluogi rhanddeiliaid a chwsmeriaid i ddarparu ymateb cytbwys, â gwybodaeth ategol ar gael mewn modiwl e-ddysgu. Caniataodd hyn i ni esbonio'r cysyniad sydd weithiau'n gymhleth o reoli dŵr gwastraff mewn ffordd symlach i'r rhai oedd ei angen.

Ceisiodd yr ymgynghoriad sicrhau bod gan rhanddeiliaid a'r cyhoedd ddigon o wybodaeth ac amser i ddarparu eu hadborth i hysbysu datblygiad y DWMP.

Gan mai hwn yw'r DWMP cyntaf, disgwyliwyd y byddai ymateb isel gan y cyhoedd i'r ymgynghoriad ffurfiol, a disgwyliwyd hyn oherwydd, yn yr un modd â phwnc dŵr gwastraff, bod cwsmeriaid yn dibynnu ar eu cwmni i wneud y peth iawn ac yn tueddu i ddatgysylltu. Mae barn cwsmeriaid yn bwysig iawn a phan yr ymgysylltir â nhw mae ganddynt safbwyntiau manwl ar yr hyn yr hoffent ei weld ac nad ydynt yn ei hoffi a pha mor gyflym y maen nhw eisiau i newid ddigwydd. O'r herwydd, cynhaliwyd ymarfer ymchwil cwsmeriaid annibynnol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ffurfiol i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol. Mae'r wybodaeth sydd ar goll yn dod â'r cydbwysedd ychwanegol i sicrhau bod dyheadau rhanddeiliaid yn cael eu cyflawni ac arian cwsmeriaid yn cael ei wario lle mae'r ddau yn cefnogi cyfeiriad. Caiff y gwaith ymchwil cwsmeriaid annibynnol hwn ei grynhoi yn Adran 6.




2.2 Deunyddiau a Hyrwyddo Ymgynghoriad y DWMP

Datblygwyd amrywiaeth o ddeunyddiau ac fe'u gwnaed ar gael drwy'r cyfnod ymgynghori cyfan ar y wefan a'r porth.

Dogfennau a deunyddiau drafft



- Rhagair;
- Crynodeb annhechnegol;
- Crynodeb technegol;
- Y Cynllun;
- Crynodebau ardaloedd Lefel 2, gan gynnwys crynodebau Lefel 3;
- Llyfryn a Holiadur y DWMP; ac
- E-Ddysgu.

<p>E-bost i randdeiliaid</p> 	<p>Anfonwyd e-bost i 467 o randdeiliaid ar 27 Gorffennaf 2022 yn eu hysbysu am lansiad yr ymgynghoriad. Roedd y rhestr hon yn seiliedig ar y rhestr ymgynghoriadau rheoleiddio ac yn deillio o'r broses Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.</p> <p>Anfonwyd yr e-bost yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Casglwyd y rhanddeiliaid hyn dros gyfnod datblygiad y DWMP ac maent i gyd wedi cymryd rhan yn o leiaf un cam ac wedi gofyn i barhau i gymryd rhan yn y broses.</p>
<p>Rhith-ystafell</p> 	<p>Crëwyd rhith-ystafell ryngweithiol i arddangos y deunyddiau ymgynghori ac i ddarparu mynediad at yr holiadur.</p> <p>Mae'r rhith-ystafell hon ar gael ar-lein yn https://dwmp.consultation.ai/ Bydd yr ystafell hon yn parhau i fod ar gael i'w gweld tan fis Rhagfyr 2024</p>
<p>Gwefan</p> 	<p>Diweddarwyd tudalen we DWMP ar gyfer yr ymgynghoriad, gan gynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Trosolwg o'r DWMP;</i> • <i>Dolenni i'r holiadur;</i> • <i>Dolenni i'r rhith-ystafell;</i> • <i>Dolenni i'r wefan e-ddysgu; a</i> • <i>Dolenni i'r holl ddogfennau ymgynghori.</i> <p>Mae'r dudalen we ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Mae'r dudalen we ar gael yn: https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/wastewater/drainage-and-wastewater-management-plan</p>

2.3 Deunyddiau a Hyrwyddo Ymgynghoriad yr SEA a'r HRA

Hyrwyddwyd ymgynghoriad yr SEA a'r HRA ynghyd ag ymgynghoriad y DWMP ac roedd yn cynnwys y deunyddiau canlynol:

Dogfennau drafft



- *Asesiad Amgylcheddol Strategol; ac*
- *Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd*

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan DWMP Dŵr Cymru.

2.4 Sicrhau'r Bwrdd


Cymeradwywyd yr holl ddeunyddiau ymgynghori trwy broses llywodraethu a sicrhwydd fewnol y DWMP a ddangosir yn Ffigur 1. Mae'r broses hon yn dilyn cyfres o gamau adolygu a chadarnhau drwy'r canlynol:

- Tîm technegol y DWMP;
- Timau Gwasanaeth Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru;
- Dau grŵp her annibynnol;

- Grŵp Polisi Draenio (DPG);
- Gweithrediaeth Dŵr Cymru (DCE); a
- Phwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd Dŵr Cymru (QEC) a Bwrdd Glas Cymru.

Mae grwpiau her Dŵr Cymru wedi'u cyfansoddi o arbenigwyr o Dŵr Cymru ei hun ac o sefydliadau allanol. Mae hyn yn caniatáu i ni gael safbwyntiau gan gwsmeriaid a'r rhai sy'n cynllunio ac yn rheoli seilwaith, perygl llifogydd a'r amgylchedd dŵr. Mae'r grwpiau hyn yn fforymau cynghori a gwneud penderfyniadau sydd eisoes yn bodoli ac yn rhan o lywodraethu ehangach y Cwmni.

Cymeradwywyd yr holl ddogfennau ar bob cam, â chadarnhad terfynol gan Fwrdd Glas Cymru.



Ffigur 1 – Proses sicrwydd y Bwrdd

3 TROSOLWG O YMATEBION YMGYNGHORI'R DWMP

3.1 Crynodeb o Adborth a Dderbyniwyd

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar SmartSurvey.TM Proseswyd ymatebion ar-lein yn uniongyrchol drwy'r porth ar-lein ynghyd â data ymatebion o gopiâu papur. Gwahanwyd a dadansodwyd y sylwadau ychwanegol i gwestiynau agored ynghyd â llythyrau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan rai rhanddeiliaid a rheoleiddwyr. Mae Tabl 1 yn dangos ffynhonnell ymatebion rhanddeiliaid.

Tabl 1 – Dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad ffurfiol y DWMP

Math	Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebion
Rheoleiddwyr	Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyd), y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, OFWAT	3
Rhanddeiliaid	Afonydd Cymru 4 Awdurdod Lleol Yr Awdurdod Glo Water Resources West	7
Cwsmeriaid		3
Pwyslais ar yr SEA/HRA yn ymgynghoriad y DWMP	Historic England Cangen Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (CADW)	2

Derbyniwyd cyfanswm o 248 o sylwadau ar wahân, gan gynhyrchu cyfoeth o safbwyntiau gwerthfawr, gyda'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwneud sylwadau ar y Cynllun a'i gynigion, a'n rheoleiddwyr yn gwneud sylwadau ar weithrediad y fframwaith.

Casglwyd ymchwil cwsmeriaid yn ffurfiol i gyd-fynd â'r ymgynghoriad. Sicrhodd hyn bod gan gwsmeriaid lais yn y broses hon. Dilynwyd y dull hwn gennym i sicrhau bod dymuniadau a dewisiadau cwsmeriaid yn cael eu rhoi yn eu cyd-destun â rhai ein rhanddeiliaid. Mae Tabl 2 yn dangos dadansoddiad o ymatebion yn ystod y gwaith ymchwil cwsmeriaid.

Tabl 2 – Dadansoddiad o ymatebion yn ystod y gwaith ymchwil cwsmeriaid

Math	Ymatebwyr	Cyfanswm y Cyfranogwyr
Ymchwil cwsmeriaid	Cwsmeriaid cartref	500
	Cwsmeriaid busnes	100
	Trochi dwys ym manylion y Cynllun	30

4 DADANSODDIAD O YMATEBION I'R HOLIADUR

Dadansoddwyd wyth o ymatebion yn yr adran hon. Mae'r cwestiynau llawn wedi'u cynnwys at ddiben cyd-destun.

4.1 Gwybodaeth am DWMP Dŵr Cymru

C1. O dan ddeddfwriaeth GDPR, ni allwn dderbyn ymatebion ymgynghori gan bobl iau na 13 oed. Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn 13 oed neu hŷn.

Ticiwyd y blwch hwn gan yr holl ymatebwyr i gadarnhau eu bod yn 13 oed neu hŷn.

C2. A ydych chi'n ymateb fel rhanddeiliad, grŵp cynrychioli lleol, cwsmer neu reoleiddiwr?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac ymatebodd tri fel cwsmer a phump fel rhanddeiliad ar ran sefydliad.

C3 Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu grŵp buddiant, ysgrifennwch yr enw isod.

Cadarnhaodd pump o randdeiliaid enwau eu sefydliadau.

C4. A ydych chi wedi clywed am DWMP Dŵr Cymru o'r blaen?

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (saith o'r wyth) eu bod yn ymwybodol o'r DWMP.

Ymateb


Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y DWMP wedi cyrraedd croestoriad o randdeiliaid. Byddwn yn parhau i ddatblygu perthynas agosach gyda'n rhanddeiliaid wrth i gynlluniau ddatblygu. Byddwn yn mynd i'r afael â blwch y rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r DWMP trwy weithio gyda chwsmeriaid mewn lleoliadau wedi'u targedu yn ystod DWMP29 (2023-2028). Gellir gweld y cam hwn yn ein strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun, Pennod 3 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C5. Os felly, sut wnaethoch chi glywed amdano?

Rhoddwyd yr opsiynau canlynol:

- *Presennol mewn cyflwyniad;*
- *Derbyn e-bost;*
- *Ymweld â'r wefan;*
- *Cwblhau'r cwrs e-ddysgu; ac*
- *Arall (nodwch).*

Fel y dangosir yn Ffigur 2, dewisodd bob un o'r wyth ymatebwr o leiaf un o'r opsiynau a phrin oedd yr amrywiad yr oedd eu dewisiadau lluosog yn ei ddangos rhwng cyflwyniadau, negeseuon e-bost, a'r wefan. Dewiswyd 'Arall' bum gwaith ac roedd yr atebion yn cynnwys 'edrych ar ddeddfwriaeth', 'gohebiaeth uniongyrchol â Dŵr Cymru', 'trwy gynghorwyr lleol', 'cyfryngau cymdeithasol' neu 'trwy OFWAT'.



Ffigur 2 – Ffynonellau o ymwybyddiaeth

Sail: yr holl ymatebion a dderbyniwyd (n:17)

Ymateb

Fe wnaeth ymatebwyr glywed am y DWMP trwy 'gyfryngau cymdeithasol' a 'cynghorwyr lleol'. O'r herwydd, byddwn yn buddsoddi mwy mewn cyfryngau cymdeithasol fel sianel effeithiol ar gyfer cyrraedd rhanddeiliaid a pharhau i drafod a chynghorau i archwilio cyfleoedd i gydweithio. Byddwn hefyd yn parhau ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid drwy'r sianelau presennol o negeseuon e-bost, cyflwyniadau, a gweithdai, sydd wedi'u nodi yn ein strategaeth ymgysylltu.

Gan na ddywedodd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu, byddwn yn ymchwilio i ddulliau ychwanegol i hyrwyddo ein gwefan e-ddysgu ac yn sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio. Byddwn hefyd yn parhau i gadw gwefan y DWMP yn gyfredol gyda gwybodaeth berthnasol ar bob cam o ddatblygiad y DWMP yn rhan o'n strategaeth ymgysylltu, sydd i'w gweld ym Mhennod 3 o'r Cynllun, Pennod 3 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

4.2 Cyfathrebiad DWMP Dŵr Cymru

C6. Pa mor aml hoffech chi i ni ymgysylltu â chi am y DWMP yng nghylchredau'r dyfodol?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, a dywedodd y mwyafrif (chwech) yr hoffent gymryd rhan ar gerrig milltir allweddol y Cynllun. Dewisodd yn ymatebwr 'yn flynyddol (pum diweddariad bob pum mlynedd)' a dewisodd un 'unwaith ym mhob cylchred (bob pum mlynedd).

Ymateb

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ac yn ymgysylltu â nhw trwy gyfranogiad ar gerrig milltir allweddol trwy gydol pob Cynllun. Byddwn yn annog rhanddeiliaid i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y gwaith o ddatblygu agweddau penodol i gymunedau ar y Cynllun.

Pwysleisiodd un rhanddeiliad y byddai ymgysylltiad ar gerrig milltir allweddol yn sicrhau cysondeb rhwng strategaethau a chynlluniau. Rydym yn cytuno ac yn annog cyd-greu i ganiatáu i ni lunio cynlluniau sy'n cyd-fynd â'i gilydd, â negeseuon cyson, ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Nodir hyn eisoes yn ein strategaeth ymgysylltu.

Rydym wedi diwygio'r Cynllun ym Mhennod 3.19, y Crynodeb Technegol ym Mhennod 2.2 a'r Crynodeb Annhechnegol gyda phennawd 9.4.

C7. Os gwnaethoch chi ddarllen y dogfennau hyn, a oedden nhw'n ddefnyddiol i chi?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (chwech) 'Oedden' gan ddangos bod y dogfennau yn ddefnyddiol iddynt. Dewisodd un ymatebwr 'Nac oedden' gan ddynodi nad oedd y dogfennau yn ddefnyddiol iddo, a dewisodd un ymatebwr 'Ddim yn gwybod'.

Ymateb

Roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd o'r farn bod y dogfennau yn ddefnyddiol. Byddwn yn parhau i gynhyrchu dogfennau trwy gydol pob cynllun, ac ar ddiwedd pob cylchred. Byddwn yn parhau i ddatblygu arddull a chynnwys deunyddiau yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn eglur ac yn gryno, ac wedi'u mireinio ymhellach i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd targed.

C8. A hoffech i ni barhau i ddefnyddio'r dogfennau hyn, a gyhoeddir ar ein gwefan, fel ffordd o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein DWMP?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, a dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (saith) yr hoffent i'r dogfennau barhau i gael eu defnyddio, a dim ond un ymatebwr atebodd na fyddai'n hoffi hyn.

Ymateb

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi ein dull o gynnal llif o ddogfennau trwy gydol y broses. Mae hyn yn debyg i adborth o'r gwaith ymchwil cwsmeriaid annibynnol. Hoffai'r mwyafrif o bobl i ni barhau i ddefnyddio dogfennau penodol i'r DWMP fel ffordd o roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynydd. Rydym wedi cynnwys y dogfennau hyn yn ein strategaeth ymgysylltu sydd ar gael ym Mhennod 3 o'r Cynllun, Pennod 3 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.


C9. Pan fyddwn yn gwneud diweddariadau i'n dogfen neu ein gwefan, sut hoffech chi gael eich hysbysu?

Rhoddwyd yr opsiynau canlynol, a gallai'r ymatebwyr ddewis ymatebion lluosog:

- *Twitter;*
- *Facebook;*
- *Bil dŵr;*
- *Posterï mewn llyfrgelloedd neu archfarchnadoedd;*
- *Sioeau teithiol mewn meysydd parcio archfarchnadoedd neu neuaddau tref; ac*
- *Arall.*

Rhoddodd pob un o'r wyth ymatebwr o leiaf un ymateb, ac 11 oedd cyfanswm yr ymatebion. Fel y dangosir yn Ffigur 3, awgrymid yr un gyfran uchaf o ymatebwyr (tri) yr hoffent gael eu hysbysu drwy'r bil dŵr. Derbyniodd 'posterï', 'sioeau teithiol' a 'Facebook' ddau ymateb yr un, a derbyniodd 'Twitter' ac 'arall' (e-bost) un ymateb yr un.

Mae hyn yn dangos y byddai'n well gan ymatebwyr i ni gysylltu â nhw trwy amrywiaeth o sianelau. Er bod rhai ymatebwyr yn ateb yr holiadur hwn ar ran eu sefydliadau, fe wnaeth y cwestiwn hwn eu herio i feddwl fel cwsmer, ac mae'r ymatebion yn adlewyrchu proses feddwl yr unigolyn yn hytrach na'r sefydliad ehangach y mae'n ei gynrychioli.



Ffigur 3 – Dulliau gwybodaeth.

Sail: yr holl ymatebion a dderbyniwyd (n:11)

Ymateb

Ceir rhaniad cyfartal ar draws y sianelau yr hoffai rhanddeiliaid a chwsmeriaid i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwyddynt.

Er y byddwn yn parhau i anfon negeseuon e-bost at randdeiliaid sydd wedi dynodi y byddai'n well ganddynt i ni ymgysylltu â nhw yn y ffordd hon, byddwn yn buddsoddi mwy mewn cyfryngau cymdeithasol fel sianel effeithiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid a chwsmeriaid. Byddwn yn gweithio'n fwy uniongyrchol gyda rhanddeiliaid a chwsmeriaid mewn lleoliadau wedi'u targedu trwy bosteri, digwyddiadau, arddangosfeydd, a sioeau teithiol, ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn ein strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun, ym Mhennod 3 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

Byddwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o gyfathrebu gyda chwsmeriaid trwy ddeunyddiau a gynhyrchir gan DCWW (fel biliau dŵr). Byddwn yn defnyddio crynodebau diwedd pwnc i gefnogi cyfathrebiad â Rhanddeiliaid.

C10. O ran camau'r DWMP, pryd fyddai'r adeg fwyaf ystyrlon i'ch sefydliad gyfrannu?

Cafwyd cyfanswm o bedwar o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd yr holl ymatebwyr yr hoffent gyfrannu ar bob cam.

Ymateb

Mae angen i ni sicrhau, wrth i ni ddatblygu ein cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid, ein bod yn darparu fforymau ar gyfer ymgysylltu ar bob cam. Cyflwynir y dull hwn yn ein strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun.

4.3 Gweithredu gan Gwsmeriaid

C11. A fydddech chi'n fodlon ein helpu ni i leihau faint o lawiad sy'n llifo i'n garthffosydd trwy gyflwyno'r mesurau canlynol yn eich cartref, a fydd hefyd yn helpu'r gymuned leol?

Rhoddwyd yr opsiynau canlynol:

- *Arwynebau hydraidd ar gyfer tramwyfeydd;*
- *Gosod casgenni dŵr i gasglu ac aildefnyddio dŵr glaw; a*
- *Gosod systemau draenio cynaliadwy o gwmpas eich cartref i reoli dŵr glaw a draenio naturiol yn lleol.*

Rhoddodd saith o ymatebwyr atebion i'r cwestiwn hwn, â chyfanswm o 10 o atebion. Cadarnhaodd pedwar ymateb barodrwydd i helpu i leihau faint o ddŵr glaw sy'n llifo i garthffosydd; cadarnhaodd ddau ymateb barodrwydd i ystyried arwynebau hydraidd ar gyfer tramwyfeydd; cadarnhaodd pedwar o ymatebion barodrwydd i osod SDCau o gwmpas eu cartrefi a chadarnhaodd pedwar o ymatebion barodrwydd i osod casgenni dŵr.

Anfonodd un rhanddeiliad ymateb drwy e-bost yn esbonio bod ei sefydliad yn ceisio gosod SDCau lle bynnag y mae ganddynt bwerau rheoleiddio i wneud hynny, a chyn belled ag y bo amodau daear yn addas.

Ymateb

Byddwn yn gweithio gyda'n tîm cyfathrebu i ymchwilio i'r ffordd orau o gyfeirio cwsmeriaid at gyfarwyddyd ar sut i osod a defnyddio atebion sy'n lleihau faint o ddŵr glaw sydd yn y system garthffosydd, a'r ffordd orau o hysbysu cwsmeriaid am y manteision.

Ychwanegwyd hyn at ein strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun, Pennod 3 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

Bwriad gwreiddiol y cwestiwn hwn oedd pennu amcanion ar gyfer dewisiadau lefel cwsmer yn eu heiddo. Atebwyd y cwestiwn gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae ein rheoleiddiwr wedi gofyn i ni ail-ddylunio'r cwestiwn hwn ac ychwanegu seilwaith gwyrdd ac atebion seiliedig ar natur. Byddwn yn archwilio'r opsiynau hyn ac yn ymgorffori'r egwyddorion yn strategaethau'r DWMP a chynlluniau taith yn y broses o ddatblygu DWMP29.

C12. A ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu ymgyrchoedd addysg cwsmeriaid i roi cyngor mewn ardaloedd lleol sy'n agored i rwystrau a achosir gan eitemau o'r rhestr?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn cytuno y dylid darparu ymgyrchoedd addysg cwsmeriaid.

Ymateb

Byddwn yn gweithio gyda'n tîm cyfathrebu i ymgymryd â mentrau i atal rhwystrau ar lefel cwmni, ac yna i ysgogi mesurau atal wedi'u targedu mwy ar lefel fwy lleol. Byddwn hefyd yn diweddarau ein pecyn e-ddysgu i nodi sut i atal rhwystrau.

Yn rhan o'r strategaeth ymgysylltu, rydym wedi cynnwys mentrau fel ymgyrchoedd 'atal rhwystrau' ym mhennod ymgysylltu'r Cynllun, Pennod 3.19, ym Mhennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol. Hefyd, gellir ystyried atal wedi'i dargedu mwy fel ateb uniongyrchol i ddatrys risg leol, felly rydym wedi cynnwys hyn yn adran datblygu opsiynau'r Cynllun, ym Mhennod 5.2.8.

4.4 Ymateb i Reoli Dŵr Gwastraff

C13. A ydych chi'n cefnogi'r egwyddor o reoli glawiad ar wahân i garthion?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Dewisodd mwyafrif yr ymatebwyr (chwech) 'Ydw' gan amlygu eu cefnogaeth i'r egwyddor o reoli glawiad ar wahân i garthion. Aeth un ymatebwr a atebodd 'Ydw' ymlaen i ddweud ei fod yn ymwybodol iawn y byddai cyflawni hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol dros flynyddoedd lawer gan fod llawer o systemau cyfunol yn weithredol yn y wlad. Dewisodd un ymatebwr 'Nac ydw', a dewisodd un 'Ddim yn gwybod'.

Ymateb

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a chwsmeriaid i archwilio manteision a dulliau o reoli glawiad ar wahân i garthion. Fel cymdeithas, rydym eisoes wedi dewis sicrhau, pan fo'n ymarferol yn dechnegol, y byddwn yn gwahanu glawiad o'n carthffosydd. Cefnogir yr egwyddor o wahanu dŵr glaw o garthffosydd a byddwn yn parhau i edrych ar wahanu ôl-weithredol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hyn gymryd blynyddoedd lawer a buddsoddiad sylweddol gan gymdeithas yn ogystal â chan y cwmni dŵr. I fod yn fwy effeithlon gyda'r arian prin sydd gennym, gyda'n gilydd mae angen i ni gyflawni'r newid rheoleiddio sy'n ofynnol sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ac yn darparu cynllunio integredig sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol cyn gynted â phosibl.

Rydym wedi cynnwys y gwahaniaeth rhwng datblygiadau newydd a gwahanu ôl-weithredol yn ein trafodaethau ym Mhennod 1.1 o'r Cynllun, ym Mhennod 1.3 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 1.4 o'r Cynllun Annhechnegol.

C.14 A ydych chi'n cytuno â gosod targedau ar gyfer rheoli carthion a glawiad?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn cytuno â gosod targedau ar gyfer rheoli carthion a glawiad.

Ymateb

Rydym yn cynnig parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i osod targedau ar wahân ar gyfer rheoli carthion a glawiad.

Mae trafodaeth o hyn ar gael ym Mhenodau 4.10.1 o'r Cynllun ac ym Mhennod 4.7.3, ym Mhennod 2.9 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 3.4 o'r Crynodeb Annechnegol.

C15. Os hoffech ychwanegu unrhyw sylwadau pellach, mae croeso i chi eu hychwanegu yn y blwch isod.

Darparodd pedwar o ymatebwyr sylwadau ychwanegol.

Ymateb

Mae pob ymateb (pedwar) wedi cael eu rhestru o dan y categorïau canlynol a rhoddir sylw iddynt yn Adran 5:

- 'Deddfwriaeth a Pholisïau Cenedlaethol' (o dan y themâu 'Rhoi cyllid i gwmnïau dŵr'; 'Gofynion polisi cenedlaethol diwygiedig' a 'Twf');
- 'Cydweithredu ac Ymgysylltu' (o dan y thema 'Cydweithredu'); a
- 'Datblygu Opsiynau' (o dan y thema 'Atebion Seiliedig ar Natur').

4.5 Ymdrin â Llifogydd

C16. A ddylem ni fod yn buddsoddi mewn capasiti ychwanegol i roi amser i ymateb pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Dewisodd mwyafrif yr ymatebwyr (saith) 'Dylem' gan amlygu eu cefnogaeth i'r egwyddor o fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol i roi amser i ymateb pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dewisodd un ymatebwr 'Ddim yn gwybod'.

Ymateb

Rydym yn cynnig parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio ffyrdd o fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol i gynnal gwasanaeth pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Mae gwybodaeth am hyn ar gael ym Mhennod 5.2 o'r Cynllun, ym Mhennod 9.3.5 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 3.3 o'r Crynodeb Annechnegol.

Byddwn yn cynnwys dull yn ein cynllun nesaf, DWMP29, i ymchwilio i opsiynau buddiol i wella ein hamseroedd ymateb pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le – gan ddechrau gydag 'ymatebion i lifogydd cwsmeriaid yn ystod tywydd sych' ac yna 'glawiad a ystyrir yn debyg i law mân'.

Aeth yr ymatebwr a atebodd 'ddim yn gwybod' ymlaen i ddweud y byddai'n cefnogi buddsoddi mewn capasiti ychwanegol ond roedd yn cydnabod y byddai cost gysylltiedig. Rydym wedi dehongli hyn fel cefnogaeth i'r dull, yn amodol ar ystyried costau a buddion i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

C.17 A ydych chi'n cytuno y dylem flaenoriaethu cwsmeriaid sy'n dioddef y llifogydd carthffosydd mwyaf aml?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn cytuno â blaenoriaethu cwsmeriaid sy'n dioddef y llifogydd carthffosydd mwyaf aml. Aeth un ymatebwr ymlaen i ddweud yr hoffai i ni edrych ar leihau'r achosion o lifogydd carthffosydd priffordd.

Ymateb

Hoffai rhanddeiliaid i ni sicrhau ein hopsiynau i flaenoriaethu cwsmeriaid sy'n dioddef y llifogydd carthffosydd mwyaf aml, ond peidio ag eithrio mathau eraill o lifogydd carthffosydd, fel priffyrdd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr i archwilio hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol tra'n sicrhau bod pob math o lifogydd yn cael eu cynnwys yn ein dull cynllunio, fel y nodir ym Mhennod 1.1.3 o'r Cynllun, Pennod 1.3 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 3.4 o'r Crynodeb Annechnegol.

C18. A ydych chi'n cytuno y dylem flaenoriaethu'r ardaloedd mwyaf sensitif yn amgylcheddol?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn cytuno â blaenoriaethu'r ardaloedd mwyaf sensitif yn amgylcheddol. Defnyddiodd dau ymatebwr y lle gwag i gynnig sylwadau ychwanegol ar y pwnc hwn, a gwahanwyd y sylwadau hyn yn ôl thema yn bedwar sylw. Rhoddir sylw i ddau o'r sylwadau hyn yn yr ymateb isod, a chrynowyd dau o sylwadau yn Adran 5 o dan y categorïau:

- *'Cydweithredu ac Ymgysylltu' (o dan y thema 'Cydweithredu');* a
- *'Blaenoriaethu' (o dan y thema 'Risg').*

Hefyd, defnyddiodd un ymatebwr y lle gwag yn C20 i gynnig sylwadau pellach ar C18 ac i argymhell dolenni i'w waith ymchwil.

Mae rhagor o wybodaeth am flaenoriaeth cwsmeriaid ar gael ym Mhennod 1.16 o'r Cynllun, Pennod 2.8 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 5.2 o'r Crynodeb Annechnegol.

Ymateb

Hoffai rhanddeiliaid i ni ystyried opsiynau i flaenoriaethu'r ardaloedd mwyaf sensitif yn amgylcheddol fel blaenoriaeth, a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio hyn. Cyflwynir ein dull o gynllunio trwy sensitifrwydd amgylcheddol ym Mhennod 1.16 o'r Cynllun, Pennod 2.8 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 5.2 o'r Crynodeb Annechnegol.

C19. Pan un ddylem ni ei flaenoriaethu yn eich barn chi?

- *Diogelu ardal eang rhag effaith stormydd mewn blwyddyn gyffredin;* a
- *Diogelu nifer lai o ardaloedd rhag effaith stormydd llai aml, ond mwy difrifol.*

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, a dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (saith) y dylid blaenoriaethu diogelu ardal eang rhag effaith stormydd mewn blwyddyn gyffredin. Dim ond un ymatebwr ddywedodd ei fod yn ffafrio diogelu nifer lai o ardaloedd rhag effaith stormydd llai aml, ond mwy difrifol.

Ymateb

Hoffai rhanddeiliaid i ni ystyried ein hopsiwn i ddiogelu ardal eang rhag effaith stormydd mewn blwyddyn gyffredin. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r dull hwn yn ein cynllun nesaf, DWMP29. Cyflwynir hyn yn y Cynllun ym Mhennod 5.2.2.3, Tabl 47. Cyflwynir hyn hefyd ym Mhennod 8.1.1 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 8.2.1 o'r Crynodeb Annechnegol.

4.6 Blaenoriaethu

C20. A ydych chi'n cytuno â'n dull o flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy oni bai fod y costau yn ormodol?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr (pump) yn cytuno â'r dull o flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy oni bai fod y costau yn ormodol. Dewisodd tri ymatebwr 'Arall', ac roedd dau ohonynt yn cytuno â'r dull gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol, a defnyddiodd un y lle i ychwanegu testun ychwanegol i ateb Cwestiwn 18, y rhoddir sylw iddo yng Nghwestiwn 18, uchod.

Ymateb

Hoffai rhanddeiliaid i ni weithredu ein dull o flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy, oni bai fod y costau'n atal hyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio sut i weithredu'r dull hwn yn dryloyw. Byddwn yn edrych ar ddulliau cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill ac yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu arferion gorau yn y maes hwn ar gyfer y cynllun nesaf, DWMP29.

Fodd bynnag, gwnaeth Cyfoeth Naturiol sylw ar y cwestiwn hwn yn eu llythyr rheoleiddio gan ymateb fel a ganlyn: *'Nac ydym. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i'r arbedion hirdymor a'r manteision ehangach sy'n deillio o opsiynau, a pha mor effeithiol y gellir addasu mesurau i fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol'*.

Cynhyrchwyd atebion gennym yn y cam Datblygu Opsiynau a ddarparodd y gost a'r budd ar gyfer y presennol a'r tymor hwy. Wrth benderfynu pa flaenoriaeth i'r rhoi ar waith, defnyddiwyd y rhesymeg ddilysol; 'dewis yr opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy, neu'r gost leiaf'.

Fe wnaethom ddewis gofyn y cwestiwn hwn i ennill cefnogaeth yn y dull o ddewis atebion a oedd yn fuddiol pa un a oeddent yn atebion ar gyfer y presennol neu'r hirdymor. Fe wnaethom sylweddoli drwy'r drefn reoleiddio bresennol ei bod yn anodd mynd i'r afael â digwyddiadau nad ydynt wedi digwydd eto gan fod cyllid trwy wahanol lwybrau wedi'u gwyro i fynd i'r afael â digwyddiadau a welwyd yn y gorffennol yn hytrach na rhai a ragwelir. Nid yw'n amhosibl cael ateb i hyn, dim ond yn fwy anodd cael cytundeb mewn egwyddor. Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru: *'pa mor effeithiol y gellir addasu mesurau i fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol?'*, a'r hyn yr ydym yn ei wybod yw ei bod yn anodd mynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol heb y mesur llywodraeth ychwanegol. Rydym yn argymhell cyflwyno rhaglen ddraenio genedlaethol ochr yn ochr â'r rhaglen amgylcheddol genedlaethol fel y gellir rhoi cymeradwyaeth gyfartal i faint ac ansawdd ac y gellir cefnogi mesur ar gyfer digwyddiadau a ragwelir yn fwy tryloyw. Gweler Pennod 5.4 o'r Cynllun, Pennod 13.5 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 3.3 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C21. Rydym wedi dewis ein cynlluniau sy'n cynnig y gwerth gorau ac wedi rhoi'r cynlluniau yn nhrefn eu budd amgylcheddol. A ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (chwech) yn cytuno gyda rhoi'r cynlluniau yn nhrefn eu budd amgylcheddol. Dewisodd un ymatebwr 'anghytuno, a dewisodd un arall 'ddim yn gwybod'.

Ymateb

Roedd yr ymatebion yn dynodi yr hoffai rhanddeiliaid i ni weithredu ein dull o roi'r cynlluniau sy'n cynnig y gwerth gorau yn nhrefn eu budd amgylcheddol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull budd amgylcheddol gyda'n rheoleiddwyr. Byddwn yn edrych ar dulliau cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill ac yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu arferion gorau yn y maes hwn ar gyfer y cynllun nesaf, DWMP29. Yn y cynllun hwn, rydym wedi cyflawni ein trefn derfynol gan ddefnyddio'r budd amgylcheddol, a dangosir hyn yn ein gwerthusiad o'r rhaglen, ym Mhennod 7.5 o'r Cynllun, Pennod 8 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 6.3.1 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C22. Os ydych chi'n anghytuno, sut fyddai'n well gennyh i ni greu'r rhaglen, e.e., cost leiaf?

Nid oedd unrhyw ymatebion i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, defnyddiodd un ymatebwr y lle hwn i ofyn cwestiwn nad oedd yn gysylltiedig â chreu'r rhaglen. O'r herwydd, rhoddwyd sylw i'r cwestiwn hwn yn Adran 5, o dan y Categori 'Effaith Amgylcheddol' (gweler thema 'Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru').

4.7 Ymgysylltu Cymunedol

C23. Mae gennym ddiddordeb mewn siarad â'r gymuned am lifogydd a llygredd. Os oes gennyh ddiddordeb yn un o'n tîm yn dod i siarad yn eich grŵp cymunedol, rhowch enw a manylion cyswllt y grŵp yn y gofod isod.

Fe wnaeth pump o ymatebwyr roi manylion a mynegi diddordeb mewn siarad â'r tîm. Rydym wedi cyfarfod pob un o'r sefydliadau i drafod y ffordd orau o'u cynnwys. Byddwn yn cynnwys eu sefydliadau yn ein cynlluniau ymgysylltu ac yn diweddarau ein Cynllun i gynnwys cyfleoedd tebyg yn y dyfodol. Rydym wedi diweddarau ein Cynllun ym Mhennod 3.25 i gynnwys y grwpiau sy'n cynrychioli'r unigolion a ymatebodd orau. Cyflwynir hyn hefyd ym Mhennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C24. Pa rai o'r mentrau canlynol yr hoffech i ni eu treialu yng Nghylchred 2?

Rhoddwyd yr opsiynau canlynol, a gallai'r ymatebwyr ddewis ymatebion lluosog:

- Prosiect cymunedol;
- Sgyrsiau â grwpiau cymunedol;
- Grŵp Rheoli Prosiect Cymunedol;
- Prosiect Gwyddoniaeth Dinasyddion;
- Dim o'r uchod; ac
- Arall (nodwch).

Rhoddodd yr holl ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, a chyflwynwyd cyfanswm o 22 o ymatebion gyda'r nifer uchaf o ymatebion yn mynd i: sgysiau â grwpiau cymunedol (wyth); grwpiau rheoli prosiectau cymunedol (pump), prosiectau cymunedol (pump), prosiectau Gwyddoniaeth Dinasyddion (tri). Cawsom un ymateb i 'arall' hefyd, yn nodi Ymgysylltu ag Ysgolion.

Ymateb

Byddwn yn parhau i weithio'n agosach gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i feysydd ar gyfer cydweithio er budd cymunedau lleol ac i archwilio'r ffyrdd gorau o'u cynorthwyo i reoli prosiectau cymunedol. Byddwn yn gweithio gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid i dargedu meysydd gan gynnwys grwpiau cymunedol lleol, ysgolion, busnesau, ac awdurdodau lleol. Byddwn yn dechrau gyda grwpiau cymunedol sydd eisoes yn weithredol i ddysgu o'u gweithrediad. Dangosir hyn yn ein strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun, ym Mhennod 3 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C25. A ydych chi'n cytuno a'n hargymhelliad i sefydlu Bwrdd cymunedol yn nalgylch pob afon?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â sefydlu bwrdd cymunedol yn nalgylch pob afon.

Ymateb

Er bod yr holl ymatebwyr yn cytuno â sefydlu byrddau cymunedol yn nalgylch pob afon, dywedodd un ymatebwr y gallai disgwyliaidau gael eu codi yn yr ardaloedd hynny lle mae cymunedau'n cynnal y byrddau, ac y gallai'r ardaloedd hyn gael eu blaenoriaethu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd drwy ein dalgylchoedd cyfan ac i archwilio'r ffyrdd gorau o gynnwys cymunedau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, tra'n dal i gynnig disgwyliaid realistig o ran darpariaeth. Trafodir cynnydd hyd yn hyn ym Mhennod 3 o'r Cynllun, ym Mhennod 3 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C26. Os ydych chi'n anghytuno, sut ydych chi'n credu y dylai Byrddau cymunedol gael eu sefydlu?

Dywedodd un ymatebwr ei fod yn cytuno â'r defnydd o fyrddau cymunedol, ac fe wnaeth hefyd ddefnyddio'r lle i wneud sylw ychwanegol nad oedd yn gysylltiedig â byrddau cymunedau sydd wedi cael cydnabyddiaeth a sylw yn Adran 5, o dan y Categori Effaith Amgylcheddol (o dan thema 'Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru').

4.8 Cynnig ar gyfer Cylchred 2

C27. A ydych chi'n cytuno a'r dull fesul cam hwn o wneud gwelliannau?

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn cytuno â'r dull fesul cam o wneud gwelliannau.

Ymateb

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r dull. Byddwn yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid i archwilio sut i greu cynlluniau fforddiadwy â chynyddrannau wedi'u cytuno yn seiliedig ar DWMP24. Cyflwynir y dull ar gyfer DWMP29 ym Mhennod 11 o'r Cynllun, Pennod 13 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 11 o'r Crynodeb Annhechnegol.

Byddwn yn darparu enghreifftiau mwy manwl gan ddefnyddio treialon ar y cyd i gynnig enghreifftiau bywyd go iawn i gynorthwyo dealltwriaeth.

C28. Pa un o'r ddau ddewis a restrir uchod ydych chi'n ei ffafrio?

Dyma'r dewisiadau ar gyfer y cwestiwn hwn:

- *Fesul Cam (y dull a ffefrir); a*
- *Dull Safonol.*

Rhoddodd cyfanswm o wyth o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr holl ymatebwyr (wyth) yn ffafrio dull fesul cam.

Ymateb

Yn seiliedig ar yr ymateb, roedd rhanddeiliaid yn ffafrio gwella pob maes yn raddol ac yn araf dros amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r opsiwn hwn yn DWMP 29. Cyflwynir yr argymhelliad ym Mhennod 11 o'r Cynllun, ym Mhennod 13 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 11 o'r Crynodeb Annhechnegol.

C29. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar ein cynigion yr hoffech eu rhannu?

Gwnaeth pump o ymatebwyr 18 o sylwadau yn yr adran hon. Crynhowyd yr holl sylwadau yn Adran 5 o dan y categorïau:

- *'Cydweithredu ac Ymgysylltu' (o dan y thema 'Cydweithredu');*
- *'Canmoliaeth' (o dan y thema 'Canmol Ymgysylltiad');*
- *'Effaith Amgylcheddol' (o dan y thema 'Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru');*
- *'Integreiddio' (o dan y themâu 'Targedau Strategaeth y Cwmni'; 'Aroglau' a 'PR24 a rhaglenni buddsoddi eraill');*
- *'Deddfwriaeth a Pholisïau Cenedlaethol' (o dan y thema 'gofyniad polisi cenedlaethol diwygiedig');*
- *'Datblygu Opsiynau (o dan y themâu 'Cynllunio Addasol – newid targedau'r dyfodol' a 'Cynllunio Addasol – llifau ansicr yn y dyfodol');* a
- *'Termau a Geiriad (o dan y thema 'Confensiwn Enwi Dalgylchoedd').*

C30. Os ydych yn ymateb o sefydliad, rhowch wybod i ni pa sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli.

Ymatebodd cyfanswm o bump o sefydliadau i'r arolwg. Cwsmeriaid oedd y tri ymatebwr arall.

5 DADANSODDIAD O YMATEBION NAD OEDDENT I'R HOLIADUR

Rydym wedi dadansoddi ymatebion ansoddol ac wedi neilltuo categori i bob sylw. Ymrannwyd y sylwadau ym mhob categori i themâu wedyn.

Rydym wedi mynd i'r afael â phob sylw, wedi ysgrifennu ymateb, ac wedi cyflwyno unrhyw gamau gweithredu dilynol ar gyfer pob thema, ac wedi gwneud diwygiadau i ddogfennau drafft yn rhan o'r broses hon.

Nodir yr ymatebion a'r camau gweithredu ar gyfer pob categori a thema isod.

5.1 Cyd-destun Strategol

5.1.1 Thema: Diweddariadau i destun neu eiriad

Gwnaeth tri ymatebwr bedwar sylw ar ddiweddariadau i eiriad yn y Cyd-destun Strategol.

Ein hymateb: Rydym wedi adolygu deddfwriaeth a chynlluniau perthnasol yn rhan o'n hadolygiad Cyd-destun Strategol, sy'n trafod hyn a deddfwriaeth a phrosesau cynllunio perthnasol eraill.

Camau gweithredu: Rydym wedi diweddarau'r Cynllun i adlewyrchu sylwadau yn ymwneud â deddfwriaeth a phrosesau cynllunio, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhain ym Mhennod 2.7.2 o'r Cynllun, ym Mhennod 2.5 o'r Crynodeb Technegol, ac ym Mhennod 1.2 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.1.2 Thema: Cydweithredu - uniongyrchol

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar gydweithredu o ran y Cyd-destun Strategol.

Ein hymateb: Rydym wedi edrych ar y budd o gymryd ymdreiddiad allan o'r carthffosydd, a byddwn yn myfyrio ar sut y'i cyflwynir yn DWMP29.

Camau gweithredu: Gweler Pennod 5.2.5 o'r Cynllun, Pennod 8.2.5 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 5.5 o'r Crynodeb Annhechnegol am fanylion cael gwared ar ymdreiddiad.

5.1.3 Thema: Amgylcheddau Hanesyddol

Gwnaeth un ymatebwr ddau sylw ar y mater o amgylcheddau hanesyddol.

Ein hymateb: Rydym yn nodi'r argymhelliad bod asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth (HIAs) yn cael eu cynnal ar gyfer cynllunio ar lefel prosiect ar gamau cynnar i hysbysu eu dyluniad, ac mewn rhai achosion gallant hefyd hysbysu unrhyw asesiad o'r effaith amgylcheddol pan fo hyn yn angenrheidiol.

Camau gweithredu: Bydd y DWMP, a chylchredau dilynol, yn ystyried y defnydd o ddulliau asesu priodol i sicrhau bod effeithiau ar dreftadaeth yn cael eu hosgoi, eu lleihau, cyn lleied â phosibl, eu lliniaru a/neu eu hunioni. Mae angen i ddulliau o'r fath fod yn gymesur â lefel yr wybodaeth sydd ar gael, a gallu hwyluso beirniadaeth ansoddol a meintiol ac ansicrwydd. Mae angen hefyd iddynt ragweld asesiadau penodol i gynlluniau yn y dyfodol sy'n angenrheidiol i gefnogi cydsyniad cynllunio, pan fo'n ofynnol.

Rydym hefyd wedi diweddarau ein dogfennau i sicrhau cyfeiriad at yr holl ganllawiau. Gweler Pennod 8.3 y Cynllun, Pennod 10.3 y Crynodeb Technegol, a Phennod 7 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.2 Blaenoriaethu

5.2.1 Thema: Risg

Gwnaeth dau ymatebwr sylwadau ar y matrices blaenoriaethu.

Ein hymateb: Lluniwyd y matrices blaenoriaethu fel dull risg i sicrhau bod gennym broses i fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol a chwsmeriaid gwaethaf gyntaf. Profwyd ein dull gyda chwsmeriaid ac fe'i cyflwynwyd mewn fforymau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O ran lleoliadau dŵr ymdrochi penodol, bydd ein Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol (NEP) hefyd yn nodi ac yn cynnig atebion yn ôl yr angen.

Rydym yn cydnabod nad yw'n hawdd deall y matrices. Fodd bynnag, dylid nodi mai dull cynllunio yw hwn ac nad yw'n dynodi faint o amser y bydd yn ei gymryd i sicrhau bod yr ardal weithredu wedi'u chwmpasu'n llawn.

Camau gweithredu: Rydym wedi ychwanegu esboniad yn y Cynllun ar y matrices blaenoriaethu a byddwn yn parhau i adolygu'r categorïau yn y matrices yn ein fforymau datblygu. Gweler Pennod 2.5 y Cynllun, Pennod 2.8 y Crynodeb Technegol, a Phennod 5.2 y Crynodeb Annhechnegol.

5.3 Datblygu Opsiynau

5.3.1 Thema: Atebion seiliedig ar natur

Gwnaeth pum ymatebwr chwe sylw yn ymwneud ag atebion seiliedig ar natur.

Ein hymateb: Gallwn gadarnhau bod ein proses yn cynnwys dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny o ddatblygu opsiynau sy'n cymharu'r cynlluniau llwyd traddodiadol gyda chynlluniau gwyrdd mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, y dybiaeth graidd yw mynd i'r afael â chyfyngiadau fforddiadwyedd a gallu i gyflawni ar adeg creu opsiynau.

Camau gweithredu: Byddwn yn cynhyrchu mwy o enghreifftiau o'r dalgylchoedd a flaenoriaethwyd eisoes i ddangos sut mae ein hatebion yn datrys gwraidd y broblem, yn bodloni'r her fforddiadwyedd, ac yn sicrhau y gellir cyflawni cynlluniau a'u bod yn hybu atebion gwyrdd pan fo amser ar gael i'w darparu. Mae'r enghreifftiau hyn ym Mhennod 11.3.2 o'r Cynllun, Pennod 8.1.2 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 6.6 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.3.2 Thema: Cynllunio Addasol – Monitro newid

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar yr angen i fonitro newid.

Ein hymateb: Mae natur gylchol y DWMP yn caniatáu i ni fonitro newid ac asesu a yw'r llwybr presennol yn gywir. Yn ystod pob cylchred gynllunio o bum mlynedd y DWMP, byddwn yn diweddarau ein hasesiadau risg (cam BRAVA) i benderfynu a oes angen i'r llwybr presennol newid.

Camau gweithredu: Rydym wedi ychwanegu esboniad at y Cynllun ym Mhennod 4.9.3, y Crynodeb Technegol ym Mhennod 6.1, a'r Crynodeb Annhechnegol ym Mhennod 1.1 ar y broses a ddilynwyd ar gyfer monitro newid.

5.3.3 Thema: Cynllunio Addasol – Newid targedau'r dyfodol

Gwnaeth dau ymatebwr ddau sylw ar newidiadau tebygol i ofynion ansawdd dŵr amgylcheddol.

Ein hymateb: Fel cwmni, rydym yn gweithio'n agos iawn ac yn gydweithredol â'n Rheoleiddwyr i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol cyfredol. Yn rhan o'r ddeialog hon, sydd ar ffurf Grwpiau Cyswllt Strategol a Gweithgorau Technegol sy'n canolbwyntio ar feysydd fel ansawdd dŵr afon, bydd ein Rheoleiddwyr yn cynghori ac yn esbonio unrhyw newidiadau polisi yn y dyfodol a allai effeithio ar ein rhaglenni buddsoddi ein hunain yn y dyfodol a'u llunio. Rydym yn treulio amser yn crynhoi'r risgiau yn y dyfodol hyn ym maes cyd-destun strategol y Cynllun.

Ochr yn ochr â'n Rheoleiddwyr, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid lleol allweddol eraill. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau posibl i gynorthwyo ein cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd.

Caniataodd ein 'hopsiwn cyfeirio' i ni archwilio effaith gwahanol safonau amgylcheddol yn y dyfodol ar gyfer gorlifoedd, gan gynnwys y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer dyfodol 'dim gollyngiadau', dyfroedd ymdrochi mewndirol, a chynnal perfformiad presennol beth bynnag y bo effeithiau twf, ymgripiad trefol a'r newid yn yr hinsawdd.

Fe wnaeth yr opsiwn cyfeirio hefyd ganiatáu i ni amcangyfrif sut y gallai gwahanol dargedau llifogydd yn y dyfodol effeithio ar y lefelau o fuddsoddiad sydd eu hangen. Caniataodd i ni brofi derbynadwyedd gwahanol dargedau'r dyfodol gyda'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliad hefyd. Bydd y broses ymgynghori hon yn cael ei hailadrodd yn ystod pob cylchred DWMP, i sicrhau bod ein hamcanion hirdymor yn parhau i fod yn briodol, a bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu bolisi yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac yn cael eu cynnwys yn ein gwaith cynllunio senarios.

Camau gweithredu: Rydym yn casglu gwybodaeth am bolisi a chanllawiau yn y dyfodol yn ystod yr ymarfer cyd-destun strategol, ac mae gwybodaeth am hyn ar gael ym Mhennod 2 o'r Cynllun, ym Mhennod 2 o'r Crynodeb Technegol, ac ym Mhennod 1 o'r Crynodeb Annhechnegol. Mae trosolwg o'r opsiwn cyfeirio ar gael ym Mhennod 5.2.2 o'r Cynllun, Pennod 8.1.1 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 8.2.1 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.3.4 Thema: Cynllunio Addasol – Llifau ansicr yn y dyfodol

Nododd un ymatebwr bod ansicrwydd ynghylch llifau yn y dyfodol yn ei ardal.

Ein hymateb: Mae'r sylw hwn yn berthnasol i'n rhanbarth cyfan. Mae'n anodd rhagweld yn gywir pryd a ble y bydd twf ac ymgripiad trefol yn digwydd, ac i ba raddau y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein rhwydwaith.

Rydym wedi profi senarios twf ac ymgripiad trefol +/-30%, a senarios allyriadau uchel ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, yn rhan o droi'r DWMP cyntaf o fersiwn ddrafft i fersiwn derfynol. Mae'r amrywiaeth hon o senarios yn y dyfodol yn cyd-fynd â Fframwaith y DWMP. Bydd y senarios yn caniatáu i ni ddiffinio pwyntiau sbarduno, os yw'n briodol, ac i gadarnhau y bydd ein hopsiynau arfaethedig yn arwain at 'edifeirwch isel'. Mae'n bwysig nodi bod Fframwaith y DWMP yn awgrymu cynllunio addasol ar gyfer dalgylchoedd estynedig a chymhleth yn unig, a dim ond 44 o'r rhain oedd yn bodoli.

Mae ein dull cydbwysedd cyflenwad-galw yn cynnig awgrym o sut y bydd gwahanol lefelau o dwf yn effeithio ar berfformiad dalgylch.

Camau gweithredu: Byddwn yn cynnal treialon cynllunio addasol i asesi effaith mwy o dwf yn y dyfodol. Mae'r manylion hyn ym Mhennod 10 o'r Cynllun, Pennod 11 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 8 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.3.5 Thema: Datblygu cyfleoedd ac atebion lleol

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar ddatblygu cyfleoedd ac atebion lleol.

Ein hymateb: Lluniwyd ein Cynllun trwy grynhai anghenion strategol ar draws y cwmni. Ein nod nesaf yw cymryd yr wybodaeth hon a grynhwyd ac yna llunio cynlluniau lleol.

Camau gweithredu: Rydym yn parhau i ddatblygu'r crynodebau a byddwn yn ychwanegu manylion ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael at y crynodebau L2 ac L3.

5.3.6 Thema: Gwahanu dŵr wyneb

Gwnaeth dau ymatebwr dri sylw yn ymwneud â gwahanu dŵr wyneb.

Ein hymateb: Rydym yn falch o nodi eich bod yn cytuno y gall gwahanu dŵr wyneb gynnig manteision lluosog o ran lleihau gollyngiadau gorlif storm a llifogydd carthffosydd. Rydym yn cytuno mai cwsmeriaid sy'n penderfynu ar gyflymder newid a bod nifer yr atebion wedi'u cyfyngu gan faint y gall cwsmeriaid ei dalu.

Rydym yn nodi eich bod yn cefnogi ein hagwedd y bydd gwahanu dŵr wyneb yn rheoli'r newid yn yr hinsawdd ac yn cynnig y budd ychwanegol o leihau digwyddiadau llygredd a mwy o berfformiad cyson yn ein safleoedd trin.

Ceir mwy o fudd i gwsmeriaid trwy ddarparu cynlluniau ar y cyd â sefydliadau eraill. Rydym yn deall bod rhwystrau, fel polisiâu ar y cyd, deddfwriaeth ac ysgogiadau i gyd i'w goresgyn i greu rhaglenni gwaith partneriaeth effeithlon ar wahanu dŵr wyneb.

Arweiniodd y fframwaith cyfrifoldeb cymysg sydd ar waith ar hyn o bryd at amwysedd a rhwystrau i gyd-greu. Bydd newid i'r fframwaith rheoleiddio o ran symleiddio perchnogaeth a chyfrifoldeb yn gwella effeithlonrwydd newidiadau y gallwn eu gwneud gyda'r cyllid ar y cyd sydd gennym ar gael.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau i wneud gwaith ymchwil cwsmeriaid o ran safbwyntiau ar fathau o atebion a'r cyflymder gofynnol. Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cyn i gynllun partneriaeth gael ei ddarparu, a byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol, fel y nodir ym Mhennod 3.25 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.4 Cydweithredu/Ymgysylltu

5.4.1 Thema: Cefnogaeth

Gwnaeth pedwar rhanddeiliad chwe sylw yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu'r Cynllun a gweithio gyda ni yn y dyfodol.

Ein hymateb: Rydym yn cydnabod yr angen am ymgysylltu a chydweithredu parhaus. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid sydd wedi cynnig eu cefnogaeth i ddatblygu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag ymgysylltu â nhw a rhanddeiliaid eraill ar greu cyfleoedd penodol yn ymwneud â phynciau gan gynnwys yr amgylchedd, effeithlonrwydd dŵr a rheoli defnydd o ddŵr.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid hyn ar y pynciau lle mae eu harbenigedd yn cynnig y gefnogaeth orau. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n strategaethau ymgysylltu ac ymgynghori trwy gydol oes y Cynllun, fel y nodir ym

Mhennod 3.25 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.4.2 Thema: Cydweithredu

Gwnaeth wyth o ymatebwyr 25 o sylwadau am gydweithredu.

Ein hymateb: Mewn ymateb i sylwadau gan lawer o randdeiliaid yr hoffent ymgysylltu â ni yn fwy uniongyrchol a chydweithredol, gallwn gadarnhau y byddwn yn cynnal ymgysylltiad ar ôl pob cam o'r Cynllun. Rydym yn ymgysylltu yn uniongyrchol â rheoleiddwyr (Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd) ac awdurdodau rheoli risg (awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol) i nodi meysydd lle gallwn gydweithio i gyd-greu atebion yn effeithlon i fynd i'r afael â phroblemau draenio ac ansawdd dŵr.

Rydym wedi addasu ein dull i sicrhau y byddwn yn cael sgysiau mwy uniongyrchol gyda rhanddeiliaid sydd wedi gofyn am ymgysylltu mwy uniongyrchol ynghylch cyfleoedd penodol. Rydym wedi cymryd y cam hwn i gyrraedd cam cydweithredol yn gynharach, ac rydym yn dal i geisio symud i ddull a arweinir mwy gan y gymuned dros amser. Ein bwriad nawr yw gweithio ar lefel fwy lleol, ac yna crynhoi'r gwaith hwn yn ein Cynllun. Mae'n bwysig ein bod yn targedu'r rhanddeiliaid cywir, i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n chwarae rhan ar lefel gymuned.

Byddwn yn datblygu'r Byrddau Prosiect yn raddol dros amser. Bydd gofyniad i bob sefydliad ymrwymo adnodd, sy'n golygu y bydd angen rhywfaint o gyllid ar gyfer cynrychiolwyr medrus i alluogi'r canlyniad gorau. O'n gwaith ymchwil gyda grŵp bach o randdeiliaid, rydym wedi cydnabod bod nifer o rystrau i'w goresgyn cyn y gall y math hwn o waith ddod yn fusnes fel arfer ac yn hunangynhaliol. Canfuwyd mai un o'r prif rwystrau oedd y dull ariannu a bennwyd gan Lywodraeth a Rheoleiddwyr. Tynnodd un rhanddeiliad sylw at enghraifft lle nad oedd yn gallu cael cyllid ar gyfer senario 'risg yn y dyfodol', gan fod y cynigion dyfarniadau meini prawf ariannu wedi digwydd eisoes. Mae'n ymddangos bod hwn yn rhwystr i fwy nag un sefydliad yn unig. Bydd angen llinell eglur gan Lywodraeth i sicrhau bod Byrddau Prosiect yn gweithio ac yn gallu mabwysiadu dull 'Tîm Cymru'.

Nodwyd cyfyngiadau o ran etholiadau cyngor a chyfarwyddyd seneddol fel rhwystrau i gynllunio a newid ymddygiad hirdymor hefyd. Nodwyd y gofyniad i allu cydweithio yn fwy effeithiol hefyd, gydag angen i gynrychiolwyr ystyried yr amgylchedd ehangach y tu hwnt i'w sefydliadau eu hunain. Mae'r adborth hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio ar y cyd a chydweithredol, gan ein bod ni angen pobl â grŵp cymysg o sgiliau yn cydweithio i sicrhau'r canlyniad gorau i Dîm Cymru.

Mabwysiadwyd dull 'newid ymddygiad' gennym yn ein treial gyda Chyngor Sir Ynys Môn, lle gwnaethom y penderfyniad i gynnal ymchwiliadau mewn ardaloedd nad oeddent yn flaenoriaeth uchel i Dŵr Cymru ar y pryd, ond a oedd yn flaenoriaeth i gymunedau lleol. Fe wnaethom barhau i gefnogi a datblygu cynlluniau ac opsiynau i fynd i'r afael â risgiau, gyda'r wybodaeth y byddwn yn gallu cyflwyno cynlluniau ariannu ar y cyd i OFWAT pan fydd gennym raglen gyfunol, ac y bydd y Llywodraeth yn gallu dechrau gwneud newidiadau fel y nodir yn y DWMP, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno ymgyrchoedd cymunedol. Bydd y cydweithrediad hwn gyda'r rhanddeiliaid yn caniatáu i ni sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian ar draws ein hardal weithredu.

Camau gweithredu: Rydym wedi diweddarau adran Ymgysylltu'r Cynllun i gynnwys manylion y byddwn yn parhau i weithio mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid o ran y Cynllun yn ei gyfanrwydd, gan

ymgysylltu ar ôl pob cam o'r Cynllun, a hefyd i weithio'n fwy uniongyrchol gyda rhanddeiliaid a chymunedau i greu cyfleoedd penodol i'w troi'n opsiynau ar gyfer darparu. Mae'r manylion hyn ar gael ym Mhennod 3.25 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annechnegol.

Byddwn yn parhau i ffurfioli ein cynlluniau ac ennill cefnogaeth i Fyrddau Prosiect a Phrosiectau Cymunedol.

5.4.3 Thema: Blaenoriaeth Cwsmeriaid

Gwnaeth tri ymatebwr bedwar sylw ynghylch blaenoriaethau cwsmeriaid, gan gynnwys yr hyn y maent yn ei gredu yw blaenoriaethau cwsmeriaid, a phwysigwydd asesu'r blaenoriaethau hyn.

Ein hymateb: Rydym wedi bod yn datblygu ein dull i sicrhau fforddiadwyedd a gwelliant parhaus yn ein cynllun. Rydym wedi profi'r dull hwn gyda grwpiau ffocws cwsmeriaid a rhanddeiliaid ac mae gennym gytundeb cyffredinol gan y ddau i flaenoriaethu'r cwsmeriaid a wasanaethir gwaethaf, ac ardaloedd lle gallai fod niwed amgylcheddol. Rydym hefyd wedi trafod y gyrchfan cwsmeriaid ac amgylcheddol gyda'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Ein huchelgais yw gwneud y peth iawn i gwsmeriaid a'r amgylchedd tra'n cyflawni gwelliannau fesul cam i gyrraedd y gyrchfan derfynol. Rydym yn cydnabod bod angen cyfaddawd. Mae ein cwsmeriaid wedi bod yn eglur mai llifogydd cwsmeriaid sydd bwysicaf iddynt. Mae'r gyrchfan amgylcheddol yn dal i fod yn rhywbeth y mae cwsmeriaid ei eisiau, ond maent yn barod iddi gymryd mwy o amser i'w chyflawni a'i hystyried yn erbyn llifogydd carthffosydd mewnol i gartrefi a busnesau.

Camau gweithredu: Rydym wedi cymryd eich sylwadau i ystyriaeth ac wedi ychwanegu gwybodaeth at y Cynllun yn esbonio sut y gwnaeth adborth rhanddeiliaid hysbysu ein hamcanion cynllunio, a sut mae gwaith ymchwil yn canolbwyntio ein blaenoriaethau. Mae hyn ym Mhennod 2.4.4 o'r Cynllun, Pennod 3.3 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 1.8 o'r Crynodeb Annechnegol. Rydym hefyd wedi ychwanegu adran yn ymwneud â fforddiadwyedd lle'r ydym yn trafod canlyniad ein gwaith ymchwil cwsmeriaid ynghylch blaenoriaethau a chynnydd i filiau. Mae hyn ym Mhennod 1.19.2 o'r Cynllun, Pennod 1.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.4.4 Thema: Dull integredig o reoli dŵr

Gwnaeth un ymatebwr ddau sylw ar ddull integredig o reoli dŵr.

Ein hymateb: Rydym yn cydnabod yr angen am ddull integredig rhwng rheoli dŵr gwastraff a rheoli dŵr.

Camau gweithredu: Byddwn yn ceisio ymchwilio i weithrediad y dull integredig hwn cyn gynted â phosibl. Mae rheoli dŵr glaw yn faes a argymhellir yn yr ymgynghoriad. Nodir hyn ym Mhennod 3.2.5 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.4.5 Thema: Dylanwad

Gwnaeth dau ymatebwr ddau sylw yn ymwneud â sut y mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid wedi dylanwadau ar y Cynllun.

Ein hymateb: Mae ymgysylltiad â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn broses barhaus wedi'i chynllunio ac yn rhan allweddol o ddatblygiad ein Cynllun. Mae'r rhan fwyaf o rhanddeiliaid yn cefnogi dull gweithio ar y cyd hyblyg ac yn cytuno'n gryf bod angen cynllun ar y cyd wedi'i grynhoi i gydgyssylltu

camau gweithredu. Bwriwyd ymlaen â nifer o gamau gweithredu yn natblygiad y Cynllun o ganlyniad i'n hymgysylltiad hyd yma a byddwn yn parhau i weithio mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid allweddol, grwpiau buddiant a chwsmeriaid i sicrhau bod y DWMP yn ategu ac yn integreiddio â chynlluniau a strategaethau presennol eraill sy'n rheoli draenio ac ansawdd amgylcheddol.

Camau gweithredu: Rydym wedi dangos sut mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a chwsmeriaid wedi dylanwadu ar y Cynllun yn adran Ymgysylltu'r Cynllun ym Mhennod 3.24, Pennod 1.6 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 1.8 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.5 Effaith Amgylcheddol (gan gynnwys Gorlifoedd)

5.5.1 Thema: Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru

Gwnaeth tri ymatebwr bum sylw ar Dasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru.

Ein hymateb: Gall y DWMP gefnogi datblygiad llai o ollyngadau gorlif o garthffosydd i'n hafonydd. Ar ôl i'r Tasglu gyhoeddi canllawiau ar y diffiniad o niwed ecolegol, byddwn yn cynnwys diwygiad.

Camau gweithredu: Byddwn yn gweithio gyda Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru i ddatblygu'r dull. Diweddarwyd y Cynllun ym Mhennod 9.2.2, Pennod 12.3.1 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 6.5 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.6 Bioamrywiaeth

5.6.1 Thema: Egwyddorion Canllaw

Gwnaeth un ymatebwr gyfeiriad at egwyddorion canllaw Bioamrywiaeth.

Ein hymateb: Mae strategaeth bioamrywiaeth DCWW, a gyhoeddwyd yn 2022, yn cyflwyno ein cenhadaeth, ein nodau a'n hamcanion lefel uchel ar gyfer bioamrywiaeth. Yn rhan o'r strategaeth hon, mae gennym gynllun gweithredu manwl sy'n ymgorffori ein gweledigaeth ar gyfer 2050 a'n cynlluniau taith, gan gynnwys gwaith ymchwil a mapio'r gorwel.

Mae DCWW wedi cyhoeddi dau gynllun bioamrywiaeth ers 2017, sy'n cynnwys 30 o ymrwymadau i sut y bydd y busnes yn gweithio tuag at ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn 2023, byddwn yn cyhoeddi ein cynllun bioamrywiaeth diweddaraf, gan sicrhau ein bod yn bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru i rannu cynllun unwaith bob tair blynedd. Yn rhan o'n dyletswydd Adran 6, rydym hefyd yn llunio adroddiad yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau a gyflwynwyd yn rhan o'r cynllun bioamrywiaeth, a gyhoeddwyd diwethaf ym mis Rhagfyr 2022.

Er mwyn deall rhywogaethau a chynefinoedd o flaenoriaeth yn ein hasedau a'n daliadau tir, rydym wedi dechrau cynnal astudiaethau, a fydd yn darparu llinell sylfaen hanfodol i fesur yr holl waith gwella yn ei herbyn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, i adeiladu cronfeydd data ac i ddeall ymhellach sut y gallwn ddiogelu a gwella cyfleoedd ar gyfer safleoedd dynodedig, a rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir. Ysgogir rhywfaint o'r gwaith hwn drwy ein cynllunio busnes yng Nghynllun Rheoli Asedau Cylchred 7 y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (AMP 7 NEP), â chynlluniau i gynnwys gwaith pellach i AMP 8 a thu hwnt.

Camau gweithredu: Mae Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth yn cael ei ddatblygu gan Gyngorydd Ecoleg a Bioamrywiaeth DCWW a bydd yn cael ei integreiddio i'r DWMP ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

5.7 Deddfwriaeth a Pholisiau Cenedlaethol

5.7.1 Thema: Gofyniad am bolisi cenedlaethol diwygiedig

Gwnaeth tri ymatebwr bum sylw ar y gofyniad am bolisi cenedlaethol diwygiedig.

Ein hymateb: Yn y DWMP, rydym wedi dewis cyflwyno ein huchelgeisiau, gan ddangos y dylai'r ateb cywir gael ei ysgogi gan y newid yn yr hinsawdd a'r defnydd effeithlon o gyllid. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhywstrau i ddarpariaeth ac i gyflawni ein nodau. Trwy dreialu dulliau newydd, rydym yn gobeithio y bydd gan y Llywodraeth y dystiolaeth sydd ei hangen arni i ystyried deddfwriaeth newydd sy'n caniatáu i ni gyflawni ein huchelgeisiau.

Nid yw'r cwmni dŵr ar ei ben ei hun o ran rheoli draenio, er enghraifft soniodd un ymatebwr y byddai tynnu arwyneb lle mae draeniau priffordd wedi'u cysylltu â charthffos yn gofyn am newid deddfwriaethol i ganiatáu i gwmni dŵr wneud y gwaith gwahanu ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae'r angen am y gwaith cydweithredu ymlaen llaw a negodi lle i wario cyllid cyfyngedig lle nad oes unrhyw flaenoriaethau sy'n gorgyffwrdd yn achosi rhwystrau i ddarpariaeth effeithlon cynllun gwerth chweil. Fel yr argymhellir yn y Cynllun, yn y cyfamser byddwn yn datblygu ac yn meithrin cysylltiadau i gyflenwi ffrwd o gyfleoedd ar gyfer y dull Tîm Cymru, ond mae angen gosod y dull hwn mewn deddfwriaeth a pholisi i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid yr un ethos, gan arwain at y canlyniad terfynol o fyrddau prosiect sy'n cydweithio er budd cymdeithas yn ei chyfanrwydd ond a ariennir gan y sefydliadau ar y cyd i wneud cynllunio integredig yn realiti cyn gynted â phosibl.

Camau gweithredu: Rydym wedi ychwanegu adran newydd at y Cynllun o'r enw 'Polisi'. Gweler Pennod 1.17 o'r Cynllun, Pennod 1.7 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 1.7 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.7.2 Thema: Cyllid grant i gwmnïau dŵr

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar lwybrau ariannu amgen.

Ein hymateb: Rydym yn cytuno bod graddfa'r gwaith cael gwared ar ddŵr wyneb ar draws yr ardal weithredu yn her sylweddol ac y bydd yn gofyn am flynyddoedd lawer o fuddsoddiad. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl yn yr amgylchedd deddfwriaethol cyfredol i Lywodraeth Cymru ariannu cwmnïau dŵr yn uniongyrchol.

Mae'r cyfle i ddatblygu atebion gydag awdurdodau rheoli risg eraill a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn llwyr ychwanegol i gyllid a fydd yn cynyddu cyflymder y ddarpariaeth lle mae Awdurdod Rheoli Risg arall yn gyfrifol am reoli asedau sy'n rhyngweithio â'r garthffos.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau deialog agored i ddatblygu cyfleoedd partneriaeth gyda'r rhai a all ariannu cwmnïau dŵr yn uniongyrchol, fel y nodir ym Mhennod 3.19 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.7.3 Thema: Twf

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar dwf.

Ein hymateb: Rydym yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio yng Nghymru a Lloegr, gan ddarparu sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar allu ein hasedau i hwyluso datblygiadau arfaethedig. Darperir y sylwadau hyn ar sail ddiudedd ac fe'u hysbysir gan asesiad o gapasiti ein hasedau a fyddai'n gwasanaethu'r datblygiad a gynigir, gan gynnwys gwaith trin dŵr gwastraff. Er ein bod yn ceisio cefnogi datblygiad newydd lle bynnag y bo'n bosibl, ein blaenoriaeth yw diogelu ein cwsmeriaid a'r amgylchedd. Felly, ni fyddem yn cefnogi cyfathrebu llifau ychwanegol i'n system

garthffosiaeth drwy'r broses gynllunio oni bai ein bod yn fodlon bod capasiti hydrologig yn bodoli. Rydym yn asesu pob cynnig datblygu pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â ni, ac os bydd capasiti hydrologig annigonol ar gael, rydym yn cynghori y byddai angen rheoli gwaith atgyfnerthu trwy unrhyw gydsyniad cynllunio a'i gyflawni cyn i'r datblygiad gyfathrebu llifau.

O dan ddeddfwriaeth rheoliadau cynllunio ac adeiladu, mae'n ofynnol i ddatblygwyr ystyried egwyddorion rheoli dŵr wyneb yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y dylai cael gwared ar ddŵr wyneb ddigwydd drwy'r dull hierarchaidd fel y nodir yn Rhan H 'Rheoliadau Adeiladu 2000', ffafrio ymdreiddiad, a lle nad yw ymdreiddio yn bosibl, gwaredu i gyrsiau dŵr mewn cysylltiad â'r Awdurdod Draenio Tir a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylid gollwng dŵr wyneb i'r garthffos gyhoeddus fel dewis olaf yn unig ac rydym yn gwneud hyn yn eglur drwy ein hymatebion i ymgynghoriadau cynllunio.

Ym mis Ionawr 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd weithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgorfforai Systemau Draenio Cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd. Diben y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod cymunedau a'r amgylchedd yn cael eu diogelu rhag llifogydd a llygredd (yn enwedig o gofio heriau'r newid yn yr hinsawdd); mae hyn yn ein cynorthwyo i reoli ein seilwaith carthffosiaeth fel ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y budd mwyaf posibl. Rydym yn ymgynghori yn y broses hon ac yn gwrthod cysylltiad â'n system garthffosiaeth, gan ei ystyried fel dewis olaf yn unig ar ddatblygiadau tir llwyd pan fo pob ffordd arall o waredu wedi cael eu defnyddio.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau i gyflawni swyddogaeth ragweithiol ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol a'r broses Rheoli Datblygiad (Ceisiadau Cynllunio) i sicrhau bod ein hasedau yn cael eu diogelu rhag effaith datblygiad newydd a thwf, ac yn defnyddio'r wybodaeth am dwf yn y dyfodol i hysbysu ein rhaglen(ni) buddsoddi.

Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni swyddogaeth rhagweithiol o ran ymgysylltu â'r prosesau cydsynio perthnasol a chyda'r diwydiant datblygu ehangach i sicrhau bod egwyddorion draenio cynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith ar bob cyfle.

Cyfeirir at dwf trwy gydol dogfennau'r DWMP ac mae'n cael ei drin fel digwyddiad tybiannol. Ceir sylwadau ar y risg a'r cyfleoedd o dwf a phrif asesiad o dwf yn y DWMP ym Mhenodau 4 a 5 o'r Cynllun, Penodau 6 i 9 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 6 o'r Crynodeb Annhechnegol, ond nid yw'n nodi'r cysylltiadau â datblygiad gan fod y cynllun ei hun yn asesu rhagolygon twf amrywiol yn barhaus ar lefel cynllun. Byddwn yn dal i gynnal adolygiad manwl o risg datblygu pan ddaw'r datblygiad yn safle datblygu hysbys ac ymrwymedig.

5.7.4 Thema: Ein dull o ddatblygu atebion

Gwnaeth un ymatebwr ddau sylw ar ein dull o ddatblygu atebion.

Ein hymateb: Gallwn gadarnhau bod ein proses yn cynnwys dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny o ddatblygu opsiynau sy'n cymharu'r cynlluniau llwyd traddodiadol gyda chynlluniau gwyrdd mwy cynaliadwy. Mae ein Cynllun wedi cyflwyno senarios i reoli carthion ar wahân i ddraenio sy'n golygu y gallwn asesu ble mae angen i ni flaenoriaethu adeiladu cynlluniau pibellau o'i gymharu â lle y dylem flaenoriaethu draenio cynaliadwy. Mae ein dull fel y'i cyflwynir yn ein Cynllun Taith yn dangos ein bod yn darparu rhaglen addysgol yn ategol. Mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid wedi cymeradwyo'r dull hwn drwy'r ymgynghoriad ar gyfer darpariaeth yn DWMP29. Ni chefnogwyd rhai ymyriadau penodol gan ein cwsmeriaid ac ni fwriwyd ymlaen â nhw yn y cynllun hwn, er enghraifft cymhellion ariannol.

Camau gweithredu: I ddangos sur yr ydym wedi creu opsiynau yn y dull o'r gwaelod i fyny, rydym wedi darparu enghreifftiau i ddangos sut mae'r egwyddorion o'r brig i lawr yn dangos cynlluniau sydd i'w darparu dros amser.

Mae'r enghreifftiau ym Mhennod 5.7 o'r Cynllun, Pennod 8.2.5 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 5.5.1 o'r Crynodeb Annechnegol.

5.8 Integreiddio

5.8.1 Thema: PR24 a rhaglenni buddsoddi eraill

Gwnaeth pum ymatebwr ddeg o sylwadau, gan nodi bod angen i ni integreiddio'r DWMP gyda'n cynllun busnes PR24 a buddsoddiad arfaethedig arall DCWW, gan gynnwys (WI)NEP.

Ein hymateb: Mae'r adborth hwn yn cyd-fynd a'n nodau busnes a byddwn yn gweithio gyda'r busnes ehangach i integreiddio cynlluniau wrth i ni symud ein DWMP o'r fersiwn ddrafft i'r fersiwn derfynol. Roedd amseru a dulliau yn y cynllun DWMP cyntaf a'r cynllun PR24 drafft, gan gynnwys (WI)NEP, yn golygu nad oedd yn bosibl integreiddio ein cynlluniau buddsoddi byrdymor yn llawn yn y DWMP drafft. Ni fynegwyd hyn yn eglur yn y fersiynau cryno, sy'n amlygu'r angen am grynhoi gofalus.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein cynlluniau DWMP a PR24 yn cyd-fynd a'i gilydd. Mae ein DWMP cyntaf wedi hysbysu PR24, yn enwedig ar y meysydd o lifogydd mewnol i gwsmeriaid a gollyngiadau CSO. Fe wnaethom amcangyfrif y tebygolrwydd o bryd y byddai'n ofynnol i gynlluniau gael eu gweithredu ac wedi rhagweld hyn yn y DWMP. Bydd y dyddiadau gwirioneddol ar gyfer darpariaeth unrhyw gynllun yn ddibynnol ar y broses adolygu prisiau a ffrydiau gwaith eraill sy'n cystadlu am yr un cyllid.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i integreiddio dull y DWMP a'r dull adolygu prisiau.

Camau gweithredu: Yn ein drafft diwygiedig, byddwn yn ei gwneud yn eglur mai cyfran o gyfanswm buddsoddiad y cwmni yw'r Cynllun a'i fod wedi'i gyfyngu gan ddull y DWMP. Byddwn yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr trwy broses gwersi a ddysgwyd i integreiddio dulliau yn cwmpasu adolygiadau prisiau, cynllunio rheoli, y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol, a'r trywydd CSO i sicrhau mwy o gysylltedd rhwng dulliau rheoleiddwyr. Mae'r manylion hyn ym Mhennod 7.2.7 o'r Cynllun, Pennod 9.3 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 6.4.1 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.8.2 Thema: Cysoni ein cynlluniau

Gwnaeth dau ymatebwr wyth sylw ar gysoni'r DWMP â chynlluniau rhanddeiliaid.

Ein hymateb: Mae ein DWMP drafft wedi cael ei gysoni â Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) 2019 DCWW, sydd ar gael ar ein gwefan ac yn cynnwys targed o 100l/hd/d erbyn 2050.

Camau gweithredu: Bydd natur gylchol y DWMP yn caniatáu i ni ailystyried y targed 100 l/hd/y dydd ac asesu a yw'n berthnasol o hyd, gan ein bod yn ymwybodol y bydd targedau effeithlonrwydd dŵr yn newid. Nodir mesurau adolygu effeithlonrwydd dŵr ym Mhennod 5.2.8 o'r Cynllun, ac ym Mhennod 8.1.4 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 5.5 o'r Crynodeb Annhechnegol, ac yn y Cynllun Taith gan y tybir ei fod yn rhan o'r rhaglen addysgol.

5.8.3 Thema: Aroglau

Cododd un ymatebwr fater aroglau yn ymwneud ag asedau Dŵr Cymru.

Ein hymateb: Rydym wedi nodi sylw'r ymatebwr yn cyfeirio at aroglau a gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff.

Camau gweithredu: Rydym wedi rhoi sylw i aroglau yn adran 3 crynodeb ardal Dyfrdwy L2, ac wedi nodi ym Mhennod 4.9.3 o'r Cynllun, Pennod 6.1 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 11 o'r Crynodeb Annhechnegol y byddwn yn ceisio ehangu cwmpas risgiau yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â nhw yng nghylchredau'r dyfodol.

5.8.4 Thema: Cynnal a chadw a chydnerthedd

Gwnaeth dau ymatebwr bedwar sylw ar yr angen i ystyried cynnal a chadw a chydnerthedd asedau ymhellach yn rhan o'n DWMP.

Ein hymateb: Mae'r DWMP wedi cynhyrchu data newydd ar effeithiau tebygol rhwystrau a methiant asedau ar draws ein rhwydwaith dŵr gwastraff cyfan. Rydym wedi asesu:

- *Effeithiau tebygol cynnydd i lefel y môr;*
- *Canlyniad tebygol gorsafoedd pwmpio yn methu;*
- *Faint o amser y byddai'n ei gymryd i ni ymateb pe bai ased yn methu; a*
- *Faint o hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer gwaddodion neu weddillion yn casglu.*

Rydym wedi gweithio gyda thîm Cynllunio Asedau DCWW ar y prosiectau hyn, gan roi gwybodaeth iddynt ar gyfer prosiectau modelu dirywiad parhaus, a'u cynnwys wedi hynny yn PR24. Mae tîm Cydnerthedd DCWW hefyd yn asesu'r perygl o lifogydd o ffynonellau eraill.

Camau gweithredu: Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth ychwanegol am gynnal a chadw a chydnerthedd ym Mhennod 5.2.7 o'r Cynllun, Pennod 12.2.1 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 3.5 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.8.5 Thema: Ymgysylltiad y Bwrdd

Gwnaeth un ymatebwr bedwar sylw yn ymwneud ag ymgysylltiad y Bwrdd.

Ein hymateb: Mae Bwrdd DCWW, a adnabyddir fel Glas Cymru, wedi bod yn gwbl ymgysylltiedig â datblygiad ein DWMP cyntaf, a bydd hynny'n parhau. Mae'r Bwrdd wedi darparu cyfeiriad strategol ar ei gynnwys a bydd yn adolygu ac yn cymeradwyo ein DWMP Terfynol yn barod ar gyfer ei gyhoeddi. Mae aelodau'r Bwrdd wedi parhau i gefnogi datblygiad dulliau arloesol ynghyd â dulliau dŵr gwastraff mwy traddodiadol, gan amlygu eu cefnogaeth i greu cynlluniau sy'n darparu mwy na'r hyn a gyflawnwyd yn flaenorol.

Camau gweithredu: Nodir hyn ym Mhennod 1.3 o'r Cynllun, Pennod 2.3 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 1.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.8.6 Thema: Strategaeth/targedau'r cwmni

Gwnaeth tri ymatebwr dri sylw ar strategaeth a thargedau'r cwmni.

Ein hymateb: Datblygodd ein dull 'fesul parth' atebion i fynd i'r afael â risgiau 'cyfredol' (2025-2030), a newidiadau i risg, o 2030 i 2050. Pan fo ateb ar gyfer 2025-2030, wedi'i ddilyn gan ateb 'ychwanegyn' i fynd i'r afael â risg ar gyfer 2030-2050, yn fwy buddiol o ran cost, mae hwn wedi cael ei gynnwys yn

ein cynllun. Pan fo un ateb, wedi'i adeiladu nawr i fynd i'r afael â'r holl risg ar gyfer 2025-2050, yn fwy buddiol o ran cost, dewiswyd yr ateb hwn yn hytrach. Byddwn yn egluro hyn yn ein Cynllun terfynol.

Fe wnaeth un ymatebwr gwestiynu a yw ein dull fesul cam yn ddigon uchelgeisiol. Ein her yw cydbwysu fforddiadwyedd gyda thargedau mwy heriol. Mae ein cwsmeriaid yn cefnogi cyrchfan derfynol ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu targedau interim sy'n mynd i'r afael â materion fel disgwyliadau cwsmeriaid, heriau amgylcheddol a thwf economaidd a thai yn y dyfodol.

Camau gweithredu: Byddwn yn trafod targedau interim i gyrraedd y gyrchfan derfynol yn rhan o gam cyd-destun strategol y Cynllun, gan adeiladu ar ein dull o flaenoriaethu ardaloedd sensitif a gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym yn trafod cyfleoedd i weithio gyda chynghorau i leihau perygl llifogydd a llygredd mewn gweithdai rhanddeiliaid wrth i ni symud o fersiwn ddrafft y DWMP i'r fersiwn derfynol.

Yn ein Cynllun drafft, rydym wedi cynnal asesiadau ar gyfer cost leiaf, yn ogystal â buddion cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym hefyd wedi ystyried yr adeg briodol i ddarparu budd mwy am gost debyg. Rydym wedi egluro hyn ym Mhennod 7.5 ein Cynllun terfynol, Pennod 8.5 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 6.3.1 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.9 Termau/Geiriad/Iaith

5.9.1 Thema: Diweddariadau i destun neu eiriad

Gwnaeth pedwar ymatebwr 25 o sylwadau ar ddiweddariadau i eiriad neu eglurder testun.

Ein hymateb: Derbyniwyd nifer o ymatebion gennym yn gofyn i ragor o fanylion gael eu hychwanegu at y Cynllun a'i ddogfennau cysylltiedig, neu'n awgrymu y dylid defnyddio termau amgen i wella eglurder.

Dyma'r meysydd y gofynnwyd am ragor o fanylion ynddynt:

- *Adrannau Atebion ac Opsiynau y Cynllun, yn enwedig yn y disgrifiad o atebion (Pennod 6 y Cynllun);*
- *Y Newid yn yr Hinsawdd (Pennod 4 y Cynllun);*
- *Ymgysylltu â rhanddeiliaid (Pennod 3 y Cynllun);*
- *Risgiau dŵr gwastraff allweddol a sut y penderfynwyd arnynt (Pennod 4 y Cynllun);*
- *Yr adran Ansawdd Dŵr a chydnerthedd ecosystem (Pennod 8 y Cynllun a'r SEA); a*
- *Chrynodebau ardal: cydbwyseddau cyflenwad a galw, asesiadau ar gyfer twf, asesiadau risg, dalgylchoedd tactegol Lefel 3 (dogfennau Crynodeb Ardal).*

Camau gweithredu: Rydym wedi cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, wedi adolygu dogfennau terfynol y DWMP ac wedi gwneud diweddariadau pan fo'n briodol i sicrhau bod gwybodaeth allweddol wedi'i harddangos yn gywir i roi eglurder i'r darllenwr.

5.9.2 Thema: Cysoni ein cynlluniau

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar yr angen i gysoni ein cynlluniau â ffigurau rhanddeiliaid.

Ein hymateb: Mae ein DWMP wedi cael ei gysoni â'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP 2019), fel y nodir ym Mhennod 1.11 o'r Cynllun, Pennod 1.4 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 3.1 o'r Crynodeb Annhechnegol. Mae copi o'r WRMP ar gael ar ein gwefan.

5.9.3 Thema: Cydweithredu ag arbenigwyr a rheoleiddwyr

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar bwysigrwydd cydweithredu ag arbenigwyr a rheoleiddwyr.

Ein hymateb: Rydym yn nodi eich sylwadau y dylai Dŵr Cymru weithio ar y cyd-â sefydliadau eraill a rhanddeiliaid i sicrhau y gall elwa o gyngor a chyfarwyddyd gan arbenigwyr a rheoleiddwyr perthnasol, yn ogystal â gweithio gyda defnyddwyr a chymunedau lleol i ddeall eu blaenoriaethau a chynnal ymddiriedaeth.

Camau gweithredu: Rydym wedi diweddarau ein DWMP i adlewyrchu ein cydweithrediad ag arbenigwyr a rheoleiddwyr perthnasol, a'n gwaith gyda chymunedau lleol. Gweler Pennod 3 o'r Cynllun, Pennod 3 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.9.4 Thema: Confensiwn Enwi Dalgylchoedd

Gwnaeth dau ymatebwr dri sylw ar ffiniau gwahanol ffiniau cynllunio a'r confensiwn enwi dalgylchoedd.

Ein hymateb: Wrth ddrafftio'r DWMP, rydym wedi gwneud ymdrech i greu enwau a ffiniau eglur, tryloyw a rhesymegol i unedau.

Rydym yn sylweddoli bod llawer o wahanol ranbarthau rheoli draenio ac amgylcheddol ledled Cymru, ac nad yw ffiniau'r rhanbarthau hyn bob amser yn gyson. Rydym wedi cynllunio ar lefel basn afon fel y gallwn asesu'n well ein heffaith ar yr amgylchedd dŵr yn ei gyfanrwydd.

Camau gweithredu: Byddwn yn ceisio gwella'n barhaus y ffordd yr ydym yn enwi ein ffiniau cynllunio. Byddwn yn gwneud cynnig ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'r ail gylchred, fel y nodir ym Mhennod 3.25 o'r Cynllun, Pennod 3.6 o'r Crynodeb Technegol, a Phennod 9.4 o'r Crynodeb Annhechnegol.

5.10 Canmoliaeth

5.10.1 Thema: Canmol Ymgysylltiad

Gwnaeth pum ymatebwr ddeg o sylwadau o ganmoliaeth ynghylch cydweithredu ac ymgysylltu.

Ein hymateb: Rydym yn dolch i'r ymgynghorion hynny a gymeradwyodd Cynllun o ran graddau a fformat y manylion a ddarparwyd, yn ogystal â'n parodrwydd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i godi ymwybyddiaeth o'r DWMP.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a rheoleiddwyr wrth ddatblygu a gwella ein cynlluniau yn y dyfodol. Nodir manylion ar ein dull o weithio'n gydweithredol yn adran Ymgysylltu ein Cynllun ym Mhennod 3, ym Mhennod 3 o'r Crynodeb Technegol ac ym Mhennod 9 o'r Crynodeb Annhechnegol.

6 DADANSODDIAD O WAITH YMCHWIL CWSMERIAID

Nodwyd gofyniad gennym i ymgynghori â chwsmeriaid ar y Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) cyn ei gyhoeddi.

Comisiynwyd yr asiantaeth ymchwil i'r farchnad, Relish, i wneud gwaith ymchwil cwsmeriaid annibynnol i'n helpu i ddeall safbwyntiau cwsmeriaid. 500 oedd maint y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer cwsmeriaid aelwyd, a 100 ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd.

Gofynnwyd y cwestiynau i roi cefnogaeth ar gyfer argymhelliad yn DWMP29. Yn gyffredinol, roedd cwsmeriaid yn cytuno â'r argymhellion ac mae eu hymatebion wedi dylanwadu ar y Cynllun terfynol trwy gynnwys y gydnabyddiaeth y dylid cyrraedd y gyrchfan derfynol erbyn 2075, â rhai yn cefnogi ei chyrraedd erbyn 2100. Hefyd, hoffai cwsmeriaid i ni ddarparu llifogydd carthffosydd cwsmeriaid mewnol yn gynharach, os yw'n bosibl, o'i gymharu â chyrraedd gyrchfan gorlif storm.

6.1 Pa waith ymchwil cwsmeriaid gafodd ei wneud?

6.1.1 Cymuned ar-lein pythefnos o hyd¹, wedi'i dilyn gan ddau grŵp ffocws ar-lein (90 munud yr un)

Cymerodd 30 o gwsmeriaid Dŵr Cymru ran mewn cymuned ar-lein pythefnos o hyd. Cwblhaodd hanner dasg e-ddysgu ar-lein y bwriadwyd iddi eu hysbysu am y DWMP. Roedd y cyfranogwyr yn gymysgedd o ryweddau, oedrannau, cyfnodau bywyd ac agoswydd at afonydd ACA.

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws 90 munud o hyd wedyn gyda 16 o gwsmeriaid ar ôl iddynt gwblhau'r gymuned ar-lein.

6.1.2 Arolwg ar-lein yn cynnwys cwsmeriaid aelwyd a chwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd

Cwblhaodd sampl o 500 o gwsmeriaid aelwyd, yn cynrychioli sail gwsmeriaid Dŵr Cymru, arolwg ar-lein gan gynnwys:

Ymarfer unedig (cyfnewid) i ddarganfod pwysigrwydd blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y DWMP; a

Chwestiynau ar ddiddordeb cwsmeriaid yn y Cynllun a lefel ymgysylltiad â diweddariadau.

Cwblhaodd sampl o 100 o gwsmeriaid busnes a gyflenwir gan Dŵr Cymru yr un arolwg.

6.2 Amcanion ymchwil

Safbwyntiau cyffredinol ar y DWMP – Sut mae cwsmeriaid yn teimlo am yr hyn sy'n cael ei gynnig yn ymgynghoriad y DWMP? Pa ddull hofften nhw i Dŵr Cymru ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio yn y dyfodol?


Manylion y DWMP; pwysigrwydd meysydd – A yw cwsmeriaid yn cytuno â chynigion yn yr ymgynghoriad? A oes meysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt mwy nag eraill?

¹ Cymuned y mae ei haelodau yn rhyngweithio â'i gilydd, drwy'r Rhyngrwyd yn bennaf, yw cymuned ar-lein, sydd hefyd yn cael ei galw'n gymuned rhyngrwyd neu we gymuned.

Diweddariadau i'r DWMP – Sut mae cwsmeriaid eisiau cael eu hymgysylltu gyda diweddariadau wrth i'r DWMP esblygu dros y 5 mlynedd nesaf?

6.3 Cyflwyno cwsmeriaid i'r DWMP

6.3.1 Ymwybyddiaeth o'r DWMP



O'r cwsmeriaid aelwyd, roedd 195 yn byw ger afon ACA

Ffigur 4 – Ymwybyddiaeth o'r DWMP ymhlith cwsmeriaid aelod a'r rhai nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd

Fel y dangosir yn Ffigur 4, roedd ymwybyddiaeth o'r DWMP ymhlith cwsmeriaid aelwyd yn isel. Fodd bynnag, roedd rhyw fymryn yn uwch ymhlith cwsmeriaid sy'n byw'n agos at afon sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Roedd ymwybyddiaeth rhyw fymryn yn uwch ymhlith cwsmeriaid busnes hefyd.

Ymateb:


Mae'r dadansoddiad yn dangos nad ydym wedi cyrraedd cyfan uchel o gwsmeriaid aelwyd na chwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd eto. Mae llawer o'n hymgysylltiad â chwsmeriaid hyd yma wedi bod trwy fforymau ymchwil, ac mae deunyddiau hefyd ar gael ar wefan Dŵr Cymru a'r rhith-ystafell a thrwy ein platfform e-ddysgu.

Ein pwyslais yn ystod cylchred gyntaf y DWMP oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y DWMP yn cyd-fynd â'u cynlluniau ar gyfer eu cymunedau.

Ein nod yn ystod cylchred nesaf y DWMP yw gweithio'n agosach ac yn uniongyrchol â chwsmeriaid trwy ymgyrchoedd gwybodaeth ac addysgol a thrwy brosiectau cymunedol. Dangosir hyn yn y strategaeth ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun.

6.3.2 Diddordeb yn y DWMP


Diddordeb yn y DWMP



Ffigur 5 – Diddordeb yn y DWMP ymhlith cwsmeriaid aelwyd a’r rhaf nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd
 O gwsmeriaid aelwyd, cofnododd 273 incwm o fwy na £30,000 a chofnododd 217 incwm o lai na £30,000

Mae'r siart a ddangosir yn

Diddordeb yn y DWMP



Ffigur 5 yn dangos lefel y diddordeb yn y DWMP ymhlith cwsmeriaid aelwyd a'r rhai nad ydynt yn gwsmeriaid aelwyd.


O ddarllen y cyd-destun o amgylch y Cynllun, ceir teimladau cryf tuag at ei bwysigrwydd:

- Ystyrir bod y newid yn yr hinsawdd a thwf poblogaeth yn achosi bygythiadau eglur a dealladwy i system carthffosydd a draenio sy'n heneiddio;
- Mae rhai yn gweld yn bersonol effaith draeniau storm sy'n methu ag ymdopi, ac mae'r holl ymatebwyr o'r farn y bydd yn gwaethygu heb gymryd camau ar unwaith;
- Ystyrir bod y Llywodraeth yn gwthio am dai newydd yn gwaethygu'r broblem; ac
- Mae'r iaith a ddefnyddir yn adlewyrchu pryder gwirioneddol am y canlyniad os na fyddwn yn gweithredu'n fuan – 'trychinebus', 'catastroffig', 'dinistriol', 'ofnadwy'.

Ymateb:

Rydym yn nodi bod gan gwsmeriaid sydd wedi darllen manylion y Cynllun deimladau cryf ynghylch pwysigrwydd yr hyn y mae'n ceisio mynd i'r afael ag ef. Byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda'n cwsmeriaid yn ystod cylchred nesaf y DWMP i fynd i'r afael â phryderon.


Tebygolrwydd o ddarllen y Cynllun



Ffigur 6 – Tebygolrwydd o ddarllen y Cynllun

Mae Ffigur 6 yn dangos y tebygolrwydd o ddarllen y cynllun ac mae Ffigur 7 yn dynodi'r meysydd o'r diddordeb mwyaf.

Diddordeb mewn meysydd o'r DWMP




Ffigur 7 – Diddordeb mewn meysydd o'r DWMP

Adlewyrchir y teimladau cryf tuag at bwysigrwydd y DWMP yn y ffaith fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid aelwyd yn hawlio eu bod yn debygol o ddarllen y Cynllun. Ymhlith y rheini, ceir yr un faint o ddiddordeb ym mhob adran.

Ymateb:

Rydym yn nodi bod gan gwsmeriaid lefel uchel o ddiddordeb yn yr holl ardaloedd a drafodir yn y DWMP. Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ardaloedd hyn i gwsmeriaid, ac yn gweithio â nhw i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried wrth i'r DWMP ddatblygu ymhellach. Byddwn yn ceisio sicrhau bod gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid lais cyfartal pan fo cynlluniau yn cael eu datblygu.

Tebygolrwydd o ddarllen yn ôl maes a drafodir



Ffigur 8 - Tebygolrwydd o ddarllen y Cynllun yn ôl maes a drafodir

O gwsmeriaid aelwyd (500), roedd 132 yn 55+ oed, roedd 202 yn 35-54 oed a 166 yn 18-34 oed

Dangosir y tebygolrwydd y bydd unigolion yn darllen y Cynllun yn seiliedig ar yr ardal a drafodir yn Ffigur 8.

Mae'r DWMP yn cyseinio, er y gellid gwneud rhai elfennau yn fwy penodol – ac mae diddordeb yn cynyddu pan fydd ardaloedd lleol yn cael eu trafod. Mae hyn yn dangos bod llawer o ymatebwyr yn teimlo cysylltiad agos â dŵr yng nghyd-destun eu hamgylchedd lleol.

Mae cwsmeriaid yn croesawu ein hymrwymiad i ddarparu Cynllun i ddiogelu'r amgylchedd a lleihau llifogydd mewn ffordd sy'n fforddiadwy i bawb. Roedd sawl sylw cadarnhaol ar y ffaith fod cwsmeriaid yn ganolog i'r weledigaeth hon.

Ceir croeso da i fabwysiadu dull cydweithredol hefyd, er bod rhai eisiau gweld mwy o fanylion ar bwy yw'r sefydliadau a'r asiantaethau eraill yn y fenter gydweithredol hon – prin iawn y mae'r gair 'rhanddeiliaid' yn ei olygu i gwsmeriaid ac efallai nad yw'n ddigon penodol.


Ceir tybiaeth o ddiffyg gwybodaeth sy'n seiliedig ar amser wedi'i hadlewyrchu yn y weledigaeth a allai ymddangos yn amwys ac yn amhenodol o ran pryd y bydd yn cael ei gyflawni. Ceir rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch cyfeiriadau at ansawdd dŵr, wrth i rai drysu ansawdd dŵr yfed gyda dŵr ymdrochi/afon; ceir lle i symleiddio'r iaith hon a gwneud y gwahaniaeth yn fwy eglur.

Mae creu Cynllun rhanbarthol sy'n trafod ardaloedd sy'n lleol i gwsmeriaid yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun yn cael ei ddarllen.

Ymateb:

Rydym yn nodi bod cwsmeriaid yn gyffredinol yn cymryd mwy o ddi-ddordeb mewn materion amgylcheddol a llifogydd yn eu hardal leol. Hoffai cwsmeriaid weld mwy o fanylion penodol ynghylch cynnydd gweithgareddau yn y Cynllun. Mae'r crynodebau penodol i ardaloedd yn cynnig trosolwg mwy lleol, a bydd y rhain yn cael ei diweddarau gyda manylion mwy manwl wrth i'n gwaith gyda rhanddeiliaid penodol i ardaloedd a chymunedau fynd rhagddo. Byddwn yn gwneud y crynodebau hyn ar gael i gwsmeriaid.

Rydym yn nodi sylwadau ynghylch y ffaith fod y term 'rhanddeiliaid' yn rhy eang a'r dryswch ynghylch cyfeiriadau at ansawdd dŵr. Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain mewn deunydd uniongyrchol i gwsmeriaid yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Her Cwsmeriaid (CCG) annibynnol i sicrhau bod yr holl ddeunydd uniongyrchol i gwsmeriaid yn eglur ac yn gryno.



Ffigur 9 – Map o risgiau ar draws ardal gwasanaeth Dŵr Cymru

Llwyddodd map yn Ffigur 9 yn nodi risgiau i 'ddeffro' cwsmeriaid ac mae'n rhoi cyfiawnhad dros fod â chynllun cynhwysfawr a hirdymor.

Rhestr o sylwadau a wnaed gan gwsmeriaid wrth gyflawni'r ymarfer gwaith cartref trylwyr yw'r canlynol.

"Mae'r ffaith bod yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a llygredd yn cynnwys bron i Gymru gyfan yn syfrdanol"

"Mae'n agoriad llygad go iawn"

"Mae'n syndod aruthrol i mi bod Cymru gyfan fwy neu lai mewn perygl o lifogydd. Mae hefyd yn syndod mawr mai dim ond ardal fach sydd ddim yn agored i lifogydd, ond ei fod yn agored i lygredd"

"Felly mae'r wlad gyfan mewn perygl?"

Mae hyn yn cyfleu darlun o anobaith a dweud y gwir, ac rwyf i'n sicr yn edrych ar hyn ac yn meddwl beth yw'r pwynt? Beth allwn ni ei wneud?"

"Mae'r map yn peri dychryn mawr. Mae'n dangos bod ardal enfawr o Gymru mewn perygl o lifogydd a llygredd, gan gynnwys lle'r wyf i'n byw"

"Mae'n hynod annymunol i mi weld nifer yr ardaloedd yr aseswyd eu bod mewn perygl o lygredd a llifogydd; mae hyn yn peri pryder enfawr i mi. Doeddwn i ddim yn disgwyl hynna"

"Mae'n ofid braidd pan fyddwch chi'n sylweddoli pa mor helaeth yw'r risgiau. Pan ddarllenais i'r dudalen gyntaf, roeddwn i'n meddwl y byddai ardal fach wedi cael ei hamlygu"

"Mae'n ymddangos ei fod yn cadarnhau'r angen i Dŵr Cymru a chyrrff llywodraethu eraill lunio cynllun eglur a chryno i fynd i'r afael â'r materion hyn yn gyflym"

"O edrych ar y map yna, mae'n rhaid cael gwelliant ym mhobman. Cefais sioc o weld bod bron yr ardal gyfan o dan fygythiad ac angen gwaith i gael ei wneud ar unwaith"

Ymateb:

Mae ymatebion y cwsmeriaid yn amlygu'r agen am gynllun hirdymor i fynd i'r afael â dŵr gwastraff a draenio yng Nghymru. Rydym yn nodi bod yn well gan gwsmeriaid i waith gael ei wneud yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion hyn.


Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi ardaloedd lle gallwn gydweithio i wella problemau draenio yn lleol. Ar ôl i'r ardaloedd hyn gael eu nodi, rydym yn bwriadu defnyddio Byrddau Rhaglen i weithio gyda rhanddeiliaid a byrddau cymunedol i weithio gyda chymunedau i ddatblygu a gweithredu atebion i broblemau llygredd a llifogydd lleol.

Fel y nodir yn y DWMP, bydd pa mor gyflym yr ydym yn cyflawni gwelliannau yn cael ei ddylanwadu gan gyflwyniad ein hadolygiad prisiau pum mlynedd, gyda'r angen i gydbwysu dyheadau wedi'i gyflwyno yn y DWMP o ran biliau, fforddiadwyedd cwsmeriaid a disgwyliadau OFWAT. Yr unig ffordd o sicrhau bod cwsmeriaid yn gweld gwelliant yn lleol cyn gynted â phosibl yw cyflwyno cerrig milltir 'lefel gwasanaeth' i gyflawni gwelliannau eang sy'n fforddiadwy. Gallwn wneud hyn yn y cynllun rheoli trwy greu asesiad risg ac opsiynau i ddylunio stormydd. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau atebion i reoli llif tywydd sych i fodloni lefel gwasanaeth gofynnol o 1 o bob 10 o stormydd haf o hyd cyfartalog yn cael eu ddylunio gyntaf i'r cwsmeriaid hynny sy'n wynebu peryglon oherwydd llif tywydd sych (nawr

ac yn y dyfodol). Ac yn y blaen, tan fod gennym gynlluniau sy'n mynd â lefel gwasanaeth o lefel ofynnol o 1 o bob 30 o'r stormydd gwaethaf posibl o hyd maith. Pan fyddwn wedi mapio'r cynlluniau, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i droi'r rhain yn gerrig milltir fforddiadwy a thryloyw y ceir tystiolaeth ohonynt. Mae cyflymder y newid a gyflawnir yn ymwneud â'r pris y mae cwsmeriaid yn ei dalu, ac ar hyn o bryd mae cwsmeriaid yn dymuno i ni wneud cynnydd bach oherwydd y costau byw cynyddol. Mae'r cyflymder hwn yn caniatáu i ni ddatblygu'r dull yn barod ar gyfer trafodaeth bellach ar gyflymder yn DWMP29.

6.4 Gwerthusiad manwl o'r DWMP

Paratoad ardaloedd yn erbyn stormydd ymhlith cwsmeriaid aelwyd



Ffigur 10 - Paratoad a ffefrir yn erbyn stormydd ymhlith cwsmeriaid aelwyd

O gwsmeriaid aelwyd (500), cofnododd 273 incwm o fwy na £30,000 a chofnododd 217 incwm o lai na £30,000

Fel y dangosir yn Ffigur 10, mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn ffafrio dull gweithredu sydd o fudd i'r nifer mwyaf o bobl a chymunedau, wrth ystyried risg stormydd.

Ymateb:

Nodwyd gennym fod cwsmeriaid yn ffafrio gwneud gwelliannau cynyddrannol er mwyn paratoi ardaloedd 'mewn perygl' yn well i ymdopi â stormydd cyffredin, llai difrifol.

Dull a ffefrif ymhlith cwsmeriaid preswyl

Credwn fod 'ymagwedd a ffefrir' DCWW o welliant cynyddol, gydag elfen o barthau bach wedi'u targedu, yn hybrid synhwyrol.

- Mae consensws cryf bod yn well gan ddull graddol gyda dull parth bach wedi'i dargedu lle bo'n briodol yn gyfeiriad teithio cadarnhaol;
- Budd i nifer ehangach o gymunedau yn gyflymach, gan ddarparu gwerth;

- *Yn cydnabod na ellir cael dull cyffredinol ac yn dangos hyblygrwydd drwy gymhwyso dull parth bach mewn rhai ardaloedd (risg uchel tybiedig).*


Mae'r dull a ffeirir yn teimlo fel dull rhagweithiol, hirdymor sy'n mynd i'r afael â materion yn y ffynhonnell – gan fodloni llawer o'r disgwyliadau a'r egwyddorion craidd a amlinellwyd mewn ymchwil cynharach. Mewn cyferbyniad, mae'r dull safonol yn teimlo'n adweithiol ac yn ddrutach yn y tymor hir.

Ymateb:

Nodwyd gennym yr hoffai cwsmeriaid i ni ystyried yr opsiwn a ffeirir ganddynt o wneud gwelliannau cynyddol, gan ymgorffori atebion unigol ar gyfer rhai 'parthau bach' lle na fyddai dull cynyddrannol yn synhwyrol.

Rydym yn cydnabod ei bod yn well gan gwsmeriaid ddull gweithredu a fyddai o fudd i nifer ehangach o gymunedau yn gyflymach, a'u bod yn ystyried hyn yn fwy rhagweithiol ac yn darparu gwerth.

Targed gollyngiadau ymhlith cwsmeriaid



Ffigur 11 - Gollyngiadau derbyniol i gwsmeriaid


O gwsmeriaid aelwyd (500), roedd 166 yn 18-34 oed

O ran gollyngiadau posibl o orlif storm, mae'n ymddangos bod dim gollyngiadau yn nod terfynol priodol. Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 11, mae llawer o gwsmeriaid yn fodlon cyfaddawdu oherwydd goblygiadau o ran cost. Fel y dangosir yn Ffigur 11, mae cwsmeriaid busnes yn llai parod i gyfaddawdu na chwsmeriaid aelwyd ym mhob math o dywydd.

Ymateb:

Nodwyd gennym fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid aelwyd, ac yn benodol cwsmeriaid iau, yn fodlon derbyn lefel o 10 o ollyngiadau'r flwyddyn o orlif storm. Mae'r cyfaddawd hwn oherwydd goblygiadau o ran cost cyrraedd targed dim gollyngiadau.

Gollyngiadau carthion derbyniol ymhlith cwsmeriaid aelwyd



Ffigur 12 - Gollyngiadau carthion derbyniol ymhlith cwsmeriaid aelwyd


o gwsmeriaid aelwyd (500), cwsmeriaid Dŵr Cymru nad ydynt yn rhai aelwyd (100), 55+ oed (132), 18-34 oed (166)

Mae'r siart a gyflwynir yn Ffigur 12, yn dangos y gollyngiadau carthion derbyniol mewn amodau tywydd amrywiol ymhlith cwsmeriaid aelwyd.

Ymateb:

Nodwyd gennym y byddai'n well gan gwsmeriaid busnes weld dim gollyngiadau o orlif storm, er gwaethaf y goblygiadau o ran cost.

Gollyngiadau carthion derbyniol ymhlith cwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd




Ffigur 13 - Gollyngiadau carthion derbyniol ymhlith cwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd

Mae Ffigur 13 yn dangos y gollyngiadau carthion derbyniol yn ystod amodau tywydd gwahanol, ymhlith cwsmeriaid sy'n cael eu dosbarthu'n gwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd.

Ymhlith cwsmeriaid cartref, nid oes ond lle i gyfaddawdu ar ollyngiadau sy'n effeithio ar gartrefi a busnesau yn ystod cawodydd parhaus, neu stormydd difrifol. Mae cwsmeriaid busnes yn llai parod i dderbyn colledion na chwsmeriaid aelwyd ym mhob math o dywydd.

Ymateb: Nodwyd gennym y bydd cwsmeriaid cartref a dibreswyl yn cyfaddawdu ar ollyngiadau yn ystod stormydd difrifol yn unig. Mae llai o dderbyniad ar gyfer gollyngiadau yn ystod cawodydd parhaus. Ychydig iawn o oddefgarwch sydd i ollyngiadau yn ystod diwrnodau o law mân a thywydd sych. Mae hyn yn dangos bod cwsmeriaid o blaid ein dull o dynnu dŵr wyneb o'n carthffosydd. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) i gytuno ar y ffyrdd y gallant ddarparu cymorth yn y fenter hon.

Mae Ffigur 14 yn dangos bod cwsmeriaid Gwybodus am gyrraedd dim colledion o fewn tua 50 mlynedd ar gyfartaledd



Ffigur 14 - Tabl yn dangos safbwyntiau cwsmeriaid ar yr amserlen ar gyfer cynllunio

Fodd bynnag, maent hefyd am weld tystiolaeth o welliannau yn gynt na hyn. Mae cwsmeriaid gwybodus yn derbyn y bydd biliau'n cynyddu er mwyn cadw'r amserlenni'n dderbyniol ond maent yn wylidwrus ynghylch dadlau o blaid unrhyw gynnydd sylweddol yn ystod argyfwng costau byw.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod y byddai cwsmeriaid gwybodus yn disgwyl gweld dim colledion o fewn 50 mlynedd ar gyfartaledd, a bod yn rhaid dangos tystiolaeth o welliannau yn gynt na hynny. Roedd ystyried fforddiadwyedd yn un o'r amcanion 'parodwydd i gefnogi' o'r cychwyn cyntaf ac mae'r gallu i filiau aros yn sefydlog wedi dylanwadu ar ddatblygu'r fethodoleg i ddarparu senarios gwahanol o fforddiadwyedd yn ein Cynllun. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wneud gwelliannau ar gyfer y tymor hwy. Bydd cwsmeriaid a'u gallu i ariannu buddsoddiad yn pennu cyflymder y newid, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod pawb yn deall y gofynnir i ni ar hyn o bryd newid lefel y gwasanaeth a gefnogwyd yn y gorffennol, i safon newydd. Rydym yn croesawu'r angen am newid ond mae cyflymder y newid wedi'i gyfyngu i fforddiadwyedd, a dyna pam mae'r DWMP yn argymhell cynllun gwella cynyddrannol, gyda mwy o dystiolaeth ar welliannau bach fel y gall cwsmeriaid benderfynu ble i wario eu harian a phryd i gyrraedd eu dyhead.

6.5 Pwysigrwydd cymharol meysydd ar gyfer buddsoddiad DWMP

Defnyddiwyd ymarfer ar y cyd oherwydd maint y wybodaeth. Roedd hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei chyflwyno ar sgriniau lluosog ac yn sicrhau na ofynnwyd i gwsmeriaid gymryd gormod o wybodaeth gymhleth ar unwaith.

Gofynnwyd i gwsmeriaid am wyth maes o'r DWMP, gyda phob un â thair 'lefel' fel y nodir isod.


Ein wyth maes oedd:

- *Cynyddu maint pibellau;*
- *Atal dŵr rhag gollwng i bibellau;*
- *Atal carthion wedi'u gwanhau rhag gollwng i afonydd a moroedd;*
- *Atal llifogydd carthion;*
- *Addysgu cwsmeriaid am rwystrau;*
- *Rheoli dŵr glaw;*
- *Ailgyfeirio dŵr glaw;*
- *Datblygu gweithfeydd trin cynaliadwy.*

Roedd y lefelau a ddangoswyd ar gyfer pob maes yn adlewyrchu:

- *Buddsoddi mawr – h.y., yr opsiwn drutaf / ymdrech fawr (ac yn aml yn cymryd llawer o amser);*
- *Buddsoddi canolig yn y maes hwn;*
- *Buddsoddi isel - h.y., yr opsiwn rhataf / gyda'r lleiaf o ymdrech (ac yn aml yn cymryd y lleiaf o amser).*

O'r ymatebion a gasglwyd, gellir sefydlu pwysigrwydd pob ardal, a dewis cwsmeriaid ar gyfer pob lefel fesul ardal.




Ffigur 15 - Pwysigrwydd perthnasol pob maes i gwsmeriaid

Cwsmeriaid aelwyd Dŵr Cymru (509)

Mae Ffigur 15 yn dangos mai atal dŵr rhag gollwng i bibellau oedd y pwysicaf o'r wyth maes dan sylw, a rheoli dŵr glaw ac addysgu cwsmeriaid oedd y lleiaf pwysig.

Ar draws meysydd (canfyddedig) pwysicach y Cynllun, mae cwsmeriaid aelwyd yn ffafrio lefelau uwch o fuddsoddiad. Byddai Cynllun a fyddai'n cynnwys opsiynau buddsoddi mawr yn bennaf, ynghyd ag ychydig o opsiynau canolig / isel, yn cyd-fynd â'r dewis hwn.

Mae'r holl feysydd hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun taith y cwmni. Mae angen y cynlluniau taith hyn bob amser ond gellir cynyddu neu arafu maint y cynnydd ym mhob un gan addasu i fforddiadwydd.



Ffigur 16 - Pwysigrwydd cymharol pob maes i gwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd
Welsh Water non-household customers (100)

Mae Ffigur 16 yn dangos mai cynyddu maint y bibell sydd bwysicaf i gwsmeriaid nad ydynt yn rhai aelwyd ac mai addysgu cwsmeriaid yw'r lleiaf pwysig.

Canfu ymchwil ansoddol fod trin ffynhonnell y broblem yn bwysig iawn, gan fod hyn yn adlewyrchu persbectif hirdymor. Roedd y ffocws ar 'atal llifogydd' hefyd yn thema gref.

6.6 Ymgysylltu â'r DWMP yn y dyfodol

Ymhlith ein cwsmeriaid gwybodus, bu lefel uchel o barodrwydd i ymgysylltu â'r DWMP ymhellach wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu a'u gweithredu ymhellach. Mae'r rhesymeg gan y cwsmeriaid gwybodus hyn ar gyfer eu cynnwys yn y dyfodol yn canolbwyntio ar dryloywder a chael dweud eu dweud am yr hyn sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt:

- Er mwyn gweld sut mae eu harian o gynnydd mewn biliau yn cael ei wario;
- Er mwyn deall sut mae'r rhaglen wedi esblygu dros amser;
- Er mwyn dwyn Dŵr Cymru i gyfrif drwy fewnbwn cwsmeriaid a chraffu;
- Er mwyn teimlo'n rhan o'r broses drwyddi draw ar rywbeth sy'n effeithio ar ble maent yn byw;
- Er mwyn deall unrhyw darfu posibl ar gwsmeriaid.

Hyd yn oed ymhlith cwsmeriaid llai gwybodus, mae diweddariadau blynyddol i'r DWMP yn cael eu ffafrio, ac mae llawer yn honni y byddant yn darllen rhannau allweddol o leiaf. Fodd bynnag, ymddengys bod y cwsmeriaid hynny nad ydynt yn cysylltu'n ddigidol neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny wedi'u wahanu'n fwy oddi wrth y DWMP ac efallai y byddant yn ystyried diweddariadau pum mlynedd yn dderbyniol.

6.7 Pwysigrwydd ymchwil parhaus gan gwsmeriaid

Roedd cyflwyno parodrwydd i gefnogi ar ddechrau'r Cynllun hwn yn ein galluogi i lywio cyfeiriad cyffredinol y cynllunio. Yna, gwnaethom ddilyn ymchwil yn gofyn i gwsmeriaid sut roeddent am ymgysylltu â ni ac a oeddent yn cefnogi ein polisiau a'n strategaethau. Roedd lefel yr awydd i ymgysylltu â'r Cynllun a pharhau i ymgysylltu yn uchel. Roedd cefnogaeth sylweddol i weithrediad parhaus y strategaethau a nodir yn y Cynllun.

Mae'r cyfeiriad a ysgogir gan gwsmeriaid yn cefnogi'r angen am fwy o ryngweithio â chwsmeriaid mewn cylchoedd yn y dyfodol, gyda gwyddoniaeth dinasyddion o bosibl yn chwarae rôl yn hytrach na'r ymchwil ffurfiol a ddefnyddiwyd y tro hwn. Mae'r dull parodrwydd i dalu yn ystod y cynllun rheoli yn ymddangos yn wrthredol wrth drafod dyheadau a chyfeiriad, ac yn fwy priodol ar gyfer cynllunio busnes ac adolygu prisiau. Rydym yn cydnabod bod penderfyniad rheoleiddiol yn dal i fodoli ynghylch ble y dylai'r DWMP ffitio yn y broses gynllunio ond mae adborth gan ein cwsmeriaid yn nodi ei bod yn bwysig cadw'r dull gweithredu cyfeiriadol a arweinir gan gwsmeriaid o ran polisiau a strategaethau, gan fod y dull hwn yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cyflawni'r lefel o wasanaeth y maent am dalu amdano ar y cyflymder y gallant ei fforddio.

7 SEA (ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL) A HRA (ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD)

7.1 Cyflwyniad

Nid yw creu DWMP yn ofyniad statudol ar hyn o bryd². Fel y cyfryw, nid ydynt o reidrwydd yn dod o fewn cwmpas rheoliadau SEA³ na'r Rheoliadau Cynefinoedd⁴. Fodd bynnag, argymhellir cwblhau asesiadau o'r fath ac fe'i hystyrir yn arfer gorau. Gan adlewyrchu hyn, a'r gofynion perfformiad penodol i gwblhau cynllun, rydym wedi cynnal SEA a HRA i lywio datblygiad y DWMP. Cyhoeddwyd canfyddiadau Adroddiad Amgylcheddol SEA a'r HRA ar gyfer ymgynghoriad a sylwadau ochr yn ochr â'r DWMP drafft.

Cyflawnwyd yr Adroddiad Amgylcheddol a gynhyrchwyd fel rhan o SEA y DWMP drafft i asesu effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol tebygol y DWMP drafft. Nododd hefyd ffyrdd y gellir osgoi, lleihau, neu liniaru effeithiau andwyol a sut y gellir gwella unrhyw effeithiau cadarnhaol.

Cynhaliwyd HRA gan fod posibilrwydd y gallai cynigion yn y DWMP drafft effeithio ar safleoedd Ewropeaidd a ddynodwyd ar gyfer bioamrywiaeth (trwy leoliad cynllun, cymryd tir ac adeiladu), sydd wedi galluogi effeithiau posibl i gael eu nodi, eu hosgoi, neu eu lleihau mewn modd cyson gyda disgwyliadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae hyn wedi helpu Dŵr Cymru i ddangos bod y Cynllun yn darparu'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy gorau i gwsmeriaid, rhanddeiliaid, a'r amgylchedd.

Mae'r dulliau asesu wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â'r cyrff statudol, i gydymffurfio â'r ystod o effeithiau a nodwyd, a ddisgrifiwyd ac a werthuswyd, ac i fod yn gymesur, ac yn briodol iddynt.

Diweddarwyd yr SEA a'r HRA i gynnwys sylwadau o'r ymgynghoriad a pharatowyd datganiad ar ôl mabwysiadu.

Mae un sylw i fynd i'r afael ag ef o hyd, sef dod â'r atebion a eithriwyd yn ôl yn y cynllun hwn. Rydym yn mynd i ailystyried ein dull o ymdrin â chynlluniau a allai gael effaith negyddol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cynnwys unwaith eto yn y broses ar gyfer DWMP29 a'r gwersi a ddysgwyd o'u gwahardd. Rydym wedi gwneud hyn oherwydd ein bod eisoes yn gwybod y bydd y rhaglen o AMP9 i AMP12 yn cael ei hailystyried a'i rhannu'n gerrig milltir llai, a gobeithiwn y bydd yr ailwerthusiad hwn yn mynd i'r afael â mwy o'r asesiadau negyddol a adlewyrchir.

7.2 Crynodeb o'r ymgynghoriad SEA a HRA

I grynhoi, mae adolygiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn nodi bod croeso i ddefnyddio SEA a HRA i nodi effeithiau posibl cynigion y DWMP a bod cefnogaeth i'r dull a ddefnyddiwyd. Mae ymgynghoreion wedi cydnabod canfyddiadau'r SEA a'r HRA, ac wedi amlygu'r angen am ystyriaeth bellach o ganlyniadau'r asesiad pan wneir penderfyniadau ynghylch dewis

² Fodd bynnag, mae gofyniad perfformiad gan Dŵr Cymru hefyd i gynnal DWMP gan Lywodraeth Cymru a CNC.

³ Offeryn Statudol 2004 Rhif 1633 - Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (os yw'n effeithio ar fwy nag un wlad yn y DU) neu Offeryn Statudol 2004 Rhif 1656 - Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (os yw'r effaith yng Nghymru yn unig)

⁴ Offeryn Statudol 2017 Rhif 1012 - Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017)

opsiynau datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol a chyfleoedd i wella effeithiau neu asedau buddiol.

Roedd pryder penodol a fynegwyd gan randdeiliad yn ymwneud â nodi canlyniadau negyddol ar gyfer cynlluniau yn y DWMP drafft, a sut y gallai hyn achosi i gynlluniau a fyddai â budd sylweddol gael eu heithrio. Mynegwyd pryderon hefyd nad oedd digon o fanylion i ddeall yn glir beth sydd wedi arwain y gwaith o nodi effeithiau negyddol. Mewn ymateb, nodir mai rôl SEA (a HRA) yw darparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi ac asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol o gynlluniau a strategaethau cyn gweithredu.

Mae'n bwysig cydnabod bod SEA a HRA yn ymagwedd newydd at y DWMP. Rydym wedi gweithio drwy gymhwyso'r methodolegau mewn dull rhesymegol ac ystyriol, gan sicrhau bod unrhyw effaith negyddol yn cael ei rheoli.

Er gwaethaf y ffaith bod yr atebion a ystyriwyd yn negyddol wedi'u heithrio o gyflawni'r Cynllun, byddwn yn parhau i gymhwyso'r fethodoleg a gweithio drwy'r penderfyniadau a wneir i ddatblygu'r ateb. At hynny, byddwn yn ymchwilio i dybiaethau a ddefnyddiwyd mewn penderfyniadau i sefydlu a allwn fynd i'r afael â'r negyddol yn y fethodoleg neu gymryd yn ganiataol y bydd negyddol yn cael ei ystyried eto yn ystod y cam nesaf o ddatblygu datrysiad pan fydd mwy o wybodaeth am y safle ar gael.

7.3 Dadansoddi'r Ymatebion

7.3.1 Thema: Dull a Methodoleg

Gwnaeth un ymatebwr un sylw ar ddull a methodoleg yr SEA a'r HRA.

Rôl SEA (a HRA) yw darparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o nodi'r effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol o gynlluniau a strategaethau cyn eu gweithredu. Mae Rheoliad SEA (atodlen 2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r asesiad gynnwys gwybodaeth am yr "effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys materion megis: bioamrywiaeth; poblogaeth; iechyd dynol; ffawna; fflora; pridd; dŵr; aer; ffactorau hinsoddol; asedau materol; treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol; tirwedd; a'r rhyngberthynas rhwng y materion y cyfeirir atynt". Mae rheoliad HRA yn ei gwneud hi'n ofynnol i nodi effeithiau sylweddol tebygol cynigion ar safleoedd Ewropeaidd (yn unigol neu ar y cyd).

Mae AAS a HRA yn asesiadau ar lefel Cynllun sy'n gymesur â'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer pob opsiwn ar hyn o bryd. Adlewyrchir hyn yn y sylwebaeth ar gyfer yr asesiad o effeithiau amgylcheddol posibl ar gyfer pob opsiwn, gan gynnwys, lle bo'n briodol, unrhyw ansicrwydd ynghylch lefel y manylion sydd ar gael.

Mae cyfiawnhad ynghylch sail yr asesiad wedi'i gynnwys yn y ddau adroddiad. Er enghraifft, fel y crynhoir yn y crynodeb annhechnegol yn Adroddiad Amgylcheddol yr SEA, a Phennod 8.1.3 o'r Cynllun "Mae gweithgarwch adeiladu, oni bai ei fod ar raddfa sylweddol ac wedi'i ganoli mewn lleoliadau penodol, ac yn digwydd ar yr un pryd, yn annhebygol o arwain at effeithiau sylweddol cronol ar dderbynyddion, gan y rhagwelir y gellir rheoli effeithiau'r opsiynau trwy gymhwyso'r hierarchaeth liniaru ac ystod o arferion lliniaru adeiladu. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r cynlluniau, gan eu bod yn cynrychioli gwaith peirianeg sylweddol a buddsoddi cyfalaf, bydd effeithiau cadarnhaol a negyddol unigol a chronol sylweddol o ran Amcanion SEA 6 'Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr', 8 'Llesiant Economaidd a Chymdeithasol' ac 11 'Gwastraff ac adnoddau."

Nid yw nodi effeithiau amgylcheddol andwyol ar gyfer opsiynau yn yr SEA (a HRA) o reidrwydd yn golygu y bydd opsiynau yn y DWMP yn cael eu heithrio. Fodd bynnag, mae'n caniatáu ar gyfer barn wybodus a chytbwys, ac yn y cam cynllunio ystyried mesurau y gellid eu rhoi ar waith i leihau neu atal effeithiau andwyol posibl a gwella buddion y cynllun.

Camau gweithredu: Mae'r opsiynau a aseswyd eu bod yn negyddol wedi'u hadolygu i ddeall beth a sbardunodd rai canlyniadau negyddol yn yr asesiad, ac mae'r casgliad wedi'i gynnwys yn y fethodoleg. Yn ystod cyfnod anstatudol datblygiad y Cynllun, dewisom beidio â chyflwyno atebion a fyddai'n cael effaith negyddol ar yr Adolygiad Prisiau nes inni ddeall yn fwy eglur a oedd ein methodoleg wedi cynhyrchu canlyniad negyddol neu a oedd yr ateb ei hun wedi achosi'r canlyniad negyddol. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn fel agwedd ochelgar. Felly, gwnaethom atal eu dilyniant i'r rhestr derfynol a ffefrir tra bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu ac asesiadau'n cael eu cynnal eto. Mae hwn yn ddull ailadroddus, rydym yn cydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniad yn y cylch hwn ac y gallai rhai atebion gael effeithiau negyddol o hyd, ond roeddem o'r farn y byddai'n ddoethach ymchwilio ymhellach a chyflwyno'r ateb yn y cylch nesaf DWMP29. Mae'r broses ar gyfer budd cyhoeddus tra phwysig o blaid budd amgylcheddol yn dal yn ddilys o fewn y cais dŵr gwastraff a bydd angen ei chymhwyso wrth i ni gyflwyno'r asesiad i'r DWMP. Byddwn yn sicrhau bod ymchwiliad yn cael ei gynnal cyn symud ymlaen at fudd cyhoeddus tra phwysig. Mae ein dull o gynnal asesiadau amgylcheddol yn sicrhau bod y penderfyniadau y tu ôl i'r atebion yn dryloyw er mwyn galluogi cwsmeriaid a rhanddeiliaid i ddeall y rhesymeg a rhoi sylwadau.

7.3.2 Thema: Safleoedd Treftadaeth y Byd

Gwnaeth un ymatebwr sylw ar Safleoedd Treftadaeth y Byd (STB).

Mae pedwar STB yng Nghymru, dim ond tri gafodd eu cynnwys yn yr asesiad amgylcheddol.

Cam gweithredu: Byddwn yn sicrhau ein bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar bob un o'r pedair STB. Mae hyn wedi'i nodi ym mhennod argymhellion yr SoR.

7.3.3 Thema: Lliniaru

Gwnaeth un ymatebwr sylwadau ar bwysigrwydd cynnwys mesurau lliniaru fel rhan o'r SEA a'r HRA.

Mae'r sylw hwn wedi'i nodi. Mae'r SEA wedi nodi ystod o fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol. Bydd cyfleoedd pellach ar gyfer gwelliannau posibl i asedau treftadaeth a'u lleoliadau yn cael eu hystyried fel y bo'n briodol wrth ddatblygu'r DWMP ymhellach.

Cam gweithredu: Bydd cyfleoedd pellach drwy'r broses gynllunio i weithio drwy effeithiau andwyol posibl ar dreftadaeth ddiwylliannol neu dirwedd os dewisir cynllun i fynd rhagddo i'w gyflawni.

Thema: Canmol – SEA a HRA

Gwnaeth dau ymatebydd ddau sylw yn canmol darpariaeth a chanlyniadau'r SEA a'r HRA.

Rydym yn nodi'r gefnogaeth i'r dull SEA ac yn cydnabod bod hyn wedi llywio'r atebion a ffefrir a gyflwynir yn y DWMP. Rydym hefyd yn nodi'r angen i ystyried yr allbynnau mewn perthynas â gweithredu'r DWMP.

Camau gweithredu: Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a datblygu'r fethodoleg wrth symud ymlaen.

7.4 Casgliad SEA HRA

Mae'r broses SEA a HRA yn rhan bwysig o gynllunio hirdymor. Pan gaiff ei gymhwyso, mae'r broses yn darparu tystiolaeth ar gyfer atebion arfaethedig ac yn sefydlu a allai atebion gael effaith negyddol. Mae ein dull iterus ychwanegol yn sicrhau, lle ceir canlyniadau negyddol, y caiff y rhain eu hailystyried a, lle y bo'n bosibl, y gwneir newidiadau i'r datrysiad i wella'r sgorau negyddol cyffredinol.

Ar ôl dilyn y broses, rydym yn cydnabod bod cefnogaeth gan ein rheolyddion a rhanddeiliaid i barhau i gynnal yr asesiadau hyn, a'u gwneud yn rhan annatod o'r broses.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen rhai atebion o hyd ac efallai y bydd yn rhaid eu datblygu gyda'r canlyniadau negyddol hysbys. Mae'r broses SEA a HRA yn rhoi cyfrif am y sefyllfa hon ac yn caniatáu asesiad amgylcheddol ychwanegol yn ystod y cam dylunio. Gelwir hyn yn asesu drwy ddilyn y llinell gynllunio.

Mae sefyllfa hefyd yn cael sylw yn y rheoliad sy'n caniatáu i'r broses gynllunio fwrw ymlaen ag atebion sy'n cael effaith negyddol lle mae budd cyhoeddus tra phwysig i wneud hynny. Fodd bynnag dyma'r dewis olaf, ac mae angen ystyried pob dewis arall sy'n dechnegol bosibl cyn caniatáu i'r sefyllfa hon ddigwydd.

Gan fod y DWMP yn newydd, rydym wedi ceisio ystyried sut i gynnwys doler ar gam y Cynllun drafft (neu hyd yn oed yn gynharach) fel bod unrhyw ganlyniadau o'r AAS a'r HRA yn cael eu hadolygu a, lle y bo'n bosibl, gellir gwneud diwygiadau i'r ateb a ffeirir fel y gellir lleihau oedi yn y broses gynllunio. Byddwn yn parhau i weithio ar y dull hwn wrth i ni ddatblygu ein cynllun nesaf.

8 DADANSODDIAD O ARGYMHELLION Y RHEOLEIDDWYR

Rydym wedi dadansoddi'r holl ymatebion ysgrifenedig gan ein rheolyddion, a lle y gellid categorioedd a chrynhoi ymatebion ynghyd â'r rheini gan ein rhanddeiliaid, rydym wedi mynd i'r afael â sylwadau'r rheoleiddwyr hynny yn adran 5.

Lle mae rheoleiddwyr wedi darparu sylwadau sy'n asesu'r Cynllun yn erbyn meini prawf sy'n cyfateb i'w cyfeiriad, rydym wedi mynd i'r afael â'r sylwadau hynny o fewn themâu yn yr adran hon.

Mae sylwadau ein rheoleiddwyr wedi'u dyfynnu yn yr adran hon heb eu newid.

8.1 Rhanddeiliaid ac Ymgysylltu

Darparodd OFWAT dri sylw a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau sylw yn ymwneud â rhanddeiliaid ac ymgysylltu.

8.1.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn croesawu canolbwyntio ar ymgysylltu â sectorau eraill yn y gwaith o ddatblygu seilwaith draenio a charthffosiaeth, mae enghreifftiau fel Grangetown Gwyrddach a GlawLif Llanelli wedi dangos sut y gall dull cydweithredol sicrhau manteision ehangach sylweddol i'r amgylchedd a chymunedau. Bydd gweithio'n agosach gyda sefydliadau eraill yn dod ag agwedd fwy cyson a thryloyw at waith ym maes draenio a dŵr gwastraff, ac yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a'r cyfleoedd yn ein dalgylchoedd. Hoffem eich gweld yn gosod nodau ymestynnol ar gyfer arwain datblygiad prosiectau cydweithredol, gan gynnwys gweithio ymgysylltu lleol ag awdurdodau lleol, rheolwyr tir a sefydliadau cymunedol, ynghyd â chydweithio cenedlaethol a DU ar ymchwil ac arloesi gyda'r diwydiant dŵr, y byd academiaidd ac awdurdodau cyhoeddus. Rydym yn annog ymgysylltu ag arweinwyr CNC ar Ddatganiadau Ardal a Dalgylchoedd Cyfle i ddatblygu cynigion lleol. Disgwylw i chi gyflwyno cynigion uchelgeisiol ar gyfer prosiectau partneriaeth yn PR24, gan gynnwys cyflawni'r canlyniadau a nodir ar y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP).

Ein hymateb:

Wrth weithio gyda'n rhanddeiliaid, byddwn yn datblygu rhagor o enghreifftiau, megis Grangetown Gwyrddach a Llanelli. Rydym yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a'r cyfleoedd yn ein dalgylchoedd, fel y nodir yn ein Cerrig Milltir Ymgysylltu ym Mhennod 3 o'r Cynllun.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu arferion gorau ac ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid ar gyflymder sy'n addas ar eu cyfer. Mae cynllun PR24 yn nodi ein hymagwedd at y 13 Bwrdd Rhaglen sy'n cysylltu cynghorau a Datganiadau Ardal CNC â'i gilydd.

Yn ogystal, rydym yn sefydlu Fforymau Rheoli Strategol i adolygu cynigion a gynigir ar y cyd gan Fyrddau'r Rhaglen. Gall y dull hwn ymddangos yn araf i gynhyrchu canlyniadau ond, yn y tymor hir, bydd y trefniant ffurfiol hwn yn fwy cynhyrchiol. Mae hyn yn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn gallu deall eu rôl, eu cyfrifoldeb a'u hymrwymiad o fewn Byrddau'r Rhaglen gan eu galluogi i gyfrannu at atebion sydd o fudd i'w cymunedau.

Mae gennym lawer o enghreifftiau lle rydym yn gweithio ar y cyd ac yn darparu datrysiadau aml-fudd gan gynnwys y datrysiad seiliedig ar natur credyd cyntaf h.y. gwlyptir, lle mae ein carthffrwd yn cael ei ddarparu i wlyptir sy'n eiddo i'r cyngor. Mae llawer o enghreifftiau eraill o arferion gorau o fewn ein cwmni ein hunain. Fodd bynnag, mae'r DWMP yn dangos bod angen i'r dull newydd esblygu i fod yn ddull cyson ar gyfer Tîm Cymru.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gefnogi cyfleoedd ad-hoc a dysgu o'u cyflwyno tra hefyd yn cyflwyno'r ddwy raglen waith SUDs ar gyfer Ysgolion a thynnu dŵr wyneb oddi ar dir cyhoeddus.

8.1.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyfrdwy

Felly, gyda'r wybodaeth gyfyngedig am yr hyn y mae'r cynllun ei hun yn ei olygu ar lawr gwlad, mae'n anodd gwneud sylw gwirioneddol ynghylch pa mor 'dda' yw'r cynllun. Heb weld y manylion hyn, bydd yn anodd eich mesur yn erbyn hyn yn y dyfodol.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod y bydd ymgysylltu ar y cyd yn hanfodol i gefnogi ein hamcanion ar gyfer y DWMP hwn, ac iteriadau'r Cynllun yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymgysylltu lleol â CNC, gallwn esbonio diben y DWMP a'n mentrau lleol er mwyn helpu i wella ansawdd dŵr afonydd. Mae'r trafodaethau hyn eisoes yn digwydd drwy ein timau Gweithredol a Rheoli Asedau.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â CNC ar lefel leol er mwyn sicrhau dull cydweithredol o fuddsoddi'n lleol ac amddiffyn y cwrs dŵr.

8.1.3 Ofwat

Rydym yn gwerthfawrogi deialog barhaus gyda chi i drafod yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad a datblygiad eich DWMP terfynol. Byddem yn hapus i gwrdd â chi yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod ein hadborth. I drefnu hyn, ac unrhyw sgysiau pellach rhwng nawr a phan fydd y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle terfynol yn cael eu cyflwyno, cysylltwch â ni drwy dwmp@ofwat.gov.uk.

Ein hymateb:

Rydym yn croesawu'r cyfle i gwrdd ag OFWAT i drafod eu hymateb i'n hymgyngoriad a datblygiad y DWMP.

8.1.4 Ofwat

Mae canllawiau technegol DWMP14 ac Egwyddorion Arweiniol DWMP15 yn nodi na all cwmnïau ddatblygu cynlluniau sy'n cyflawni eu llawn botensial heb fewnbwn rhanddeiliaid eraill. Mae rhai risgiau ac atebion a nodir ym mhroses gynllunio'r DWMP, megis tynnu neu wahanu dŵr wyneb, yn dibynnu'n helaeth ar gydweithio ag awdurdodau lleol ac awdurdodau rheoli risg eraill (RMAs). Rydych yn cydnabod pwysigrwydd mwy o weithio mewn partneriaeth er mwyn gwireddu potensial llawn eich DWMP. Fodd bynnag, rydych yn nodi eich bod ond wedi symud un o'r 13 maes ymlaen o'r "cam hysbysu" cychwynnol ac i'r "cam cydweithio", a bod angen i chi feithrin cydberthnasau i ennill ymddiriedaeth cyn gallu cydweithredu Yn eich dalgylch prawf (Ynys Môn) nodir hefyd na ddaethpwyd i gytundeb ar ba gynllun y dylid ei hyrwyddo. Rydym o'r farn eich bod ar gam cynnar iawn yn eich ymgais i ddatblygu cyfleoedd i gydweithio. Er y gallai cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a datblygu cynlluniau a grëwyd ar y cyd fod wedi bod yn gyfyngedig yn 2020, roeddem yn disgwyl y byddai'r diwydiant yn mabwysiadu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â phartneriaid fel y gallai rhywfaint o gyd-greu ddigwydd. Rydym o'r farn nad oes digon o dystiolaeth yn eich cynllun ar y mathau o gynlluniau partneriaeth yr ydych wedi'u harchwilio, pa mor aeddfed yw datblygiad y cyfleoedd hynny, a beth fyddant yn ei gyflawni erbyn pryd. Yn eich DWMP terfynol dylech roi rhagor o fanylion am y tebygolrwydd y bydd eich cynlluniau partneriaeth yn mynd rhagddynt, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni a'r rhaniad mewn cyfraniadau cyllid, a bod yn glir ynghylch y rhesymeg dros beidio â bwrw ymlaen â chynlluniau o'r fath, lle y bo'n berthnasol.

Ein hymateb:

Mae ein hasesiad o gydweithio mewn dull cyson ar draws ein maes gweithredu yn awgrymu bod lle i wella. Fodd bynnag, i roi hyn yn ei gyd-destun, mae ein hasesiad yn canolbwyntio ar strategaeth y cwmni ac nid ar y gwaith cyffrous sy'n cael ei wneud yn ddigymell drwy weithrediad neu o natur ad hoc yn dibynnu ar y cyfleoedd a oedd wedi codi. Gallwn ond wneud cynnydd mor gyflym â'r rhanddeiliaid rydym yn ymgysylltu â nhw, a dim ond gyda'r rhanddeiliaid hynny sy'n ymateb i'n ceisiadau i ymgysylltu. Lle mae rhanddeiliaid wedi ymateb, rydym wedi ymgorffori eu hadborth yn y datganiad Cyfeiriad Strategol. Mae ein hasesiad yn amlygu, er mwyn gwneud gwaith cynllunio yn wirioneddol gydweithredol, fod cryn dipyn o ymddygiadau a newid diwylliannol i ddigwydd o hyd ynghyd â chymorth ariannol gan y llywodraeth a chwsmeriaid i ysgogi timau o gynllunio integredig.

Nid oes gan Gymru ddull gweithredu seiliedig ar ddalgylch sefydledig, felly mae gan y sefyllfa y dechreuasom ohoni berthynas uniongyrchol â pha mor bell y gallwn symud ymlaen.

Nid oedd ein dull 'o'r brig i lawr' gwreiddiol yn bodloni gofynion rhai rhanddeiliaid. Yn ogystal, nid oedd ein hasesiad cychwynnol yn gorgyffwrdd â blaenoriaethau rhai rhanddeiliaid. Fel y cyfryw, rydym wedi addasu ein dull yn unol â hyn.

Mae'r busnes wedi dod â gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) i mewn ac mae nifer o gydberthnasau gwaith yn cael eu meithrin. Mae'r treialon hyn wedi'u cynnwys yn ein dull carreg filltir o ymgysylltu. Fodd bynnag, nid yw SMNR bob amser yn cael ei reoli gennym ni, rydym yn aml yn mynychu gweithgorau eraill a reolir ac a arweinir gan eraill.

Byddwn yn parhau i adolygu ac adnewyddu ein strategaeth ymgysylltu er mwyn annog yr holl rhanddeiliaid i barhau i gymryd rhan yn y broses DWMP a llunio ein strategaethau buddsoddi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chynnal cydweithio.

8.1.5 Ofwat

Dylech roi rhagor o fanylion yn eich cynllun terfynol sy'n nodi'r ffyrdd y mae eich ymgysylltiad wedi dylanwadu ar eich cynllun a pha fesurau y byddwch yn eu cymryd i wella eich ymgysylltiad wrth symud ymlaen i'w wneud yn fwy ystyrlon.

Ein hymateb:

Roedd trafodaethau cynnar yn dangos gwerth cydweithio, gan nodi hefyd yr angen i adolygu cyfleoedd partneriaeth tymor hwy ar draws ardal yr awdurdod lleol. Darparodd DWMP y galluogwr ar gyfer y trafodaethau hynny a ffurfiwyd strwythur ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol. Roedd y cyfarfodydd hyn yn trafod pwysau yn y dyfodol ar ein systemau dŵr gwastraff a blaenoriaethau a dyheadau awdurdodau lleol.

Gosododd y gwaith feincnod o sut, yn absenoldeb Dull Seiliedig ar Ddalgylchoedd Lloegr (CaBA), y gellid datblygu llywodraethu yng Nghymru i ategu a hwyluso datblygu rhaglen waith integredig tymor hwy gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bu hefyd yn ystyried sut y gellid integreiddio'r dull hwnnw orau â'r trefniadau llywodraethu presennol sydd ar waith ar gyfer llifogydd a'r amgylchedd.

Byddwn yn parhau i adolygu ac adnewyddu ein strategaeth ymgysylltu er mwyn annog yr holl rhanddeiliaid i barhau i gymryd rhan yn y broses DWMP a llunio ein strategaethau buddsoddi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chynnal cydweithio.

8.2 Atebion seiliedig ar natur

Darparodd OFWAT un sylw a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dri sylw yn ymwneud â datrysiadau seiliedig ar natur.

8.2.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

‘C 11. Pe baech yn fodlon ein helpu i leihau faint o law sy’n mynd i mewn i’n carthffosydd, a fyddech yn ystyried cyflwyno unrhyw un o’r tri mesur canlynol? (ticiwch bob un sy’n berthnasol)’ – dylai hyn hefyd gyfeirio at seilwaith gwyrdd ac atebion eraill sy’n seiliedig ar natur.

Ein hymateb:

Gofynnodd cwestiwn 11 i gwsmeriaid pa ymyriadau yr hoffent eu gweld o amgylch eu cartref neu fusnes. Byddwn yn ystyried y sylw hwn yn yr ymgynghoriad nesaf ac yn sicrhau ein bod yn diffinio'n glir gwestiynau sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn erbyn rhanddeiliaid.

Byddwn yn ail-ddylunio'r cwestiwn hwn mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i gynnwys amcanion cwsmeriaid a rhanddeiliaid.

8.2.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

‘C 17. Ydych chi’n cytuno y dylem flaenoriaethu cwsmeriaid sy’n dioddef y llifogydd carthffosydd amlaf dros lifogydd o garthffosydd priffyrdd?’, ynghyd â ‘C 18. Ydych chi’n cytuno y dylem flaenoriaethu’r ardaloedd mwyaf sensitif yn amgylcheddol dros ddŵr ymdrochi?’ Mae rhinwedd i’r cwestiynau hyn, ond dylai hefyd gynnwys cwestiwn ychwanegol sy’n cydnabod bod cydnerthedd yn golygu mynd i’r afael â’r achos sylfaenol a chyflwyno mesurau ataliol, gan gynnwys atebion seiliedig ar natur yn y ffynhonnell.

Ein hymateb:

Diolch i chi am eich cefnogaeth tuag at ein dull o ystyried blaenoriaeth cwsmeriaid a blaenoriaeth amgylcheddol ar y cyd. Byddwn yn parhau â'r dull hwn. Rydym wedi dehongli eich sylw ar fesurau ataliol fel rhai sy’n gysylltiedig â risgiau nad ydynt wedi digwydd eto, h.y. risgiau a ragwelwyd neu risgiau yn y dyfodol.

Ymgymerir â'n hymagwedd at fesurau ataliol yn ystod y cam opsiynau, lle rydym yn costio risgiau presennol ac yn y dyfodol. Yna, caiff y rhain eu blaenoriaethu yn ystod y cam arfarnu’r rhaglen. Byddwn yn cyflwyno cynllun ataliol ar y cam hwn, yn hytrach nag un adweithiol, os yw’n fuddiol o ran cost.

Rydym wedi diwygio'r geiriad yn ein Cynllun i fynd i'r afael â sut rydym wedi cyflwyno risg gyfredol yn erbyn risg disgwylidig, a sut rydym yn ymgorffori'r risgiau hyn mewn un rhaglen. Gweler y Cynllun Pennod 11.3..1, y Crynodeb Technegol, Pennod 12.2.7, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 3.5.

8.2.3 Cyfoeth Naturiol Cymru

Yng nghrynodeb ardal Wysg, Ffigur 8 ‘Cynllun Taith’ (Tud. 8) – y cynllun gorwel hyd at 2050 o’r mesurau mwyaf buddiol i’w cymryd mewn ymateb i ymgripiad trefol, llygredd a newid hinsawdd. Fodd bynnag, nid yw’r un ohonynt yn cynnwys unrhyw atebion seiliedig ar natur (blaenoriaeth Polisi Adnoddau Naturiol) gan gynnwys seilwaith gwyrdd a SUDs a fydd yn fesurau sylweddol a fydd o fudd i natur a chymunedau, gan wella llesiant cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol sy’n gallu gwrthsefyll newid yn y dyfodol gan gynnwys risg hinsawdd.

Ein hymateb:

Rydym wedi rhagdybio bod cael gwared ar ddŵr wyneb yn cynnwys yr holl ymyriadau a fyddai'n sicrhau'r canlyniad hwnnw. Mae'r ymyriadau manwl y gellir eu hystyried yn cynnwys seilwaith gwyrdd SUDS ac atebion seiliedig ar natur. Mae'r crynhoad uchel yn y crynodebau ardal yn ymwneud â chyfeiriad strategol a sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cydnabod polisïau a strategaethau ar gyfer cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cais i fod yn fwy penodol ac ehangu ar y dulliau cynaliadwyedd.

Rydym wedi ymgorffori'r cysylltiad ag ansawdd dŵr afonydd yn y cynllun taith cyffredinol a fydd wedyn yn ysgogi ymyriadau hefyd ym maes atebion seiliedig ar natur. Gweler y Cynllun, Pennod 11.5, y Crynodeb Technegol, Pennod 12.5, a'r Crynodeb Annhechnegol, Pennod 5.5.

Rydym wedi diweddarau'r Cynllun, y Crynodeb Technegol, a'r Crynodeb Annhechnegol drwyddynt draw diffinio termau gan gynnwys cyfeiriadau at yr holl seilwaith gwyrdd a thechnegau tynnu dŵr wyneb, ac ychwanegu sylwadau ychwanegol ynghylch atebion seiliedig ar natur yn y Cynllun Pennod 11.3.2.

8.2.4 Ofwat

Rydym hefyd yn nodi nad oes digon o dystiolaeth cost a budd yn cymharu atebion llwyd a gwyrdd. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y byddwch yn blaenoriaethu atebion seiliedig ar natur neu a fydd opsiynau llwyd yn dominyddu eich cynllun. Yn eich cynllun terfynol, dylech egluro sut y bydd eich uchelgais sy'n seiliedig ar natur yn cael ei wireddu a, lle y bo'n berthnasol, pam nad yw opsiynau gwyrdd yn cael eu dilyn.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu mwy o wybodaeth am gymharu costau gwahanol fathau o atebion, a heriau cyflawni.

Byddwn yn ceisio darparu rhagor o wybodaeth am gostau a heriau technegol fel rhan o'r DWMP terfynol. Gweler Pennod 7.3.1 y Cynllun, Crynodeb Technegol, Pennod 9.3.1, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6.

8.3 Capasiti'r rhwydwaith

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau sylw yn ymwneud â chapasiti'r rhwydwaith.

8.3.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

'C 16. A ddylem fod yn buddsoddi mewn capasiti ychwanegol yn ein carthffosydd er mwyn rhoi amser i ymateb pan aiff rhywbeth o'i le?' – y capasiti ychwanegol hwn YW'r atal a'r gwytnwch (un o'ch amcanion craidd a'ch thema) i newid yn y dyfodol. Ni ddylai hwn fod yn fater o a ddylech chi, ond yn fater o sut y dylech chi, ynghyd â beth, ble a phryd.

Ein hymateb:

Rydym yn cytuno y byddai'r cwestiwn ynglŷn â chapasiti ychwanegol yn ein carthffosydd yn rhoi ymateb amlwg o 'ie' i rai rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid oeddem wedi gofyn barn ein cwsmeriaid a'r rhanddeiliaid hynny â llai o wybodaeth am y system dŵr gwastraff o'r blaen. Diben y cwestiwn hwn oedd sicrhau bod yr holl randdeiliaid a chwsmeriaid yn cytuno ar sefyllfa a chyfeiriad y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn deall na fyddai OFWAT am i ni ddefnyddio hyn fel egwyddor generig.

Byddwn yn ceisio gweithio'n agos gydag OFWAT i ddeall ei bryderon yn well cyn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf o 'sut' y dylem, ynghyd â 'beth, ble a phryd'.

8.3.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Tawe i Langatwg / Cymoedd y de-ddwyrain

Mewn asesiadau ar gyfer twf yn draddodiadol rydych wedi asesu capasiti trin mewn gwaith trin dŵr gwastraff, nid yw'n glir a yw capasiti'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd bellach yn cael ei ystyried dan y DWMPs – sonnir am hyn yn y trosolwg ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y crynodebau dalgylch.

Ein hymateb:

Mae'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn asesiad o gapasiti cyffredinol y rhwydwaith o'i gymharu â chapasiti presennol y gwaith trin y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer. Mae paramedrau ansawdd presennol yn hanfodol i'r caniatâd arllwys.

Mae cyflwyno'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn dangos, mewn tywydd sych, bod cydrannau rhwydwaith sydd wedi'u hychwanegu at ei gilydd o fewn y caniatâd arllwys presennol heddiw ac yn y dyfodol. Mewn senario o dywydd sych, nid oes lwfans gan orlifoedd carthffosiaeth gyfun ac mae'r balans yn dangos bod yr holl garthffrwd wedi'i gynnwys ac o fewn y caniatâd arllwys presennol. Mewn ardaloedd lle mae'r asesiad hwn yn dangos risg bod capasiti'r rhwydwaith yn fwy na chapasiti'r drwydded arllwys bresennol, mae angen asesiad o achos y llwybr. Gallai'r datrysiad canlyniadol gynnwys newid y drwydded arllwys, ac uwchraddio'r gwaith trin a phwythau'r rhwydwaith.

8.4 Atebion

Rhoddodd OFWAT dri sylw a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru un sylw yn ymwneud ag atebion.

8.4.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Td. 13 'Mae angen i ni ddewis a ddylem wneud mwy o ymyriadau bach mewn ardal ehangach, neu lai o ymyriadau â mwy o fudd mewn nifer lai o feysydd.' – fel yr uchod, dylech fod yn nodi y bydd penderfyniadau'n canolbwyntio ar gymryd camau ataliol, darparu atebion cynaliadwy a mynd i'r afael â phwysau a gwir achos yn y ffynhonnell.

Ein hymateb:

Rydym wedi datblygu atebion sy'n mynd i'r afael â risgiau presennol ac ataliol. Nid yw'r cwestiwn yn gofyn sut i ddatblygu atebion, ond yn hytrach yn gofyn am gyfeiriad a chefnogaeth yn ein hymagwedd at ddarpariaeth (mae ein map risgiau yn dangos bod risgiau ar draws ein hardal weithredu). Yn ogystal ag asesu'r risgiau uchaf, rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno gwaith cynllunio ataliol ar gyfer ein hardal weithredu. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi ein hargymhelliad.

8.4.2 Ofwat

Wrth i DWMPs edrych yn gyfannol ar ystod o risgiau a mesurau lliniaru ar lefelau dalgylch, disgwyliwn i chi ddarparu mwy o dystiolaeth mewn perthynas â chostau a buddion datrysiadau, yn enwedig cynlluniau sy'n darparu buddion lluosog. Rydym o'r farn nad oes digon o dystiolaeth argyhoeddiadol yn eich DWMP ar gostau a manteision opsiynau i benderfynu pam y diystyrwyd opsiynau eraill. Rydym yn croesawu eglurder yn eich DWMP terfynol ar sut rydych wedi mesur manteision amgylcheddol lluosog atebion. Disgwyliwn hefyd i'ch cynllun terfynol gyflwyno tystiolaeth ddigonol ac argyhoeddiadol i gefnogi eich dull gwerth gorau.

Ein hymateb:

Gallwn gadarnhau bod ein proses yn cynnwys ymagwedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny at ddatblygu opsiynau, sy'n cymharu'r cynlluniau llwyd traddodiadol â chynlluniau gwyrdd mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, y dybiaeth graidd yw yr eir i'r afael â chyfyngiadau fforddiadwyedd a chyflawnadwyedd ar adeg creu opsiynau.

O ran arddangos opsiynau amgen gweler Pennod 6.2 y Cynllun, Crynodeb Technegol, Pennod 8.5, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6. O ran gwerth gorau, gweler Pennod 6.3, Crynodeb Technegol, Pennod 9.1, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6 y Cynllun.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chefnogi ystod o atebion seiliedig ar natur/gwyrdd yn y Cynllun, a thrwy ddatblygu opsiynau ar gyfer datrysiadau yn ystod y rhaglen ar gyfer DWMP29.

8.4.3 Ofwat

Rydych wedi ystyried y prif bwysau yn y dyfodol a allai effeithio ar eich gwasanaethau dŵr gwastraff ac wedi canolbwyntio ar dair thema gynllunio allweddol (ansawdd dŵr, maint dŵr, a gwydnwch a chynnal a chadw). Fodd bynnag, mae eich DWMP yn cyflwyno dull gweithredu a ffefrir nad yw'n cysylltu atebion yn glir â sut y bydd y rhain yn cyflawni yn erbyn eich amcanion cynllunio. Rydym yn aneglur ac yn bryderus ynghylch y dull a ffefrir gennych ar gyfer parthau bach ('dull fesul parth') sy'n 'cyfrifo'r risg ym mhob parth ac yna'n cynhyrchu atebion i gyflawni'r parth cyfan amgylcheddol a chyrchfan cwsmeriaid o fewn 1 cylch cynllun,' ond wedyn rydych yn caniatáu i'r parth hwnnw ddirywio'n araf (gyda gorlifiadau storm yn cynyddu), cyn buddsoddi ymhellach. Nid ydym yn deall y rhesymeg hon. Disgwylw'n i DWMPs nodi'r atebion cywir nawr sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol a chynnal neu wella perfformiad ac i beidio â chynllunio i ganiatáu i berfformiad ddirywio. Dylech roi mwy o eglurder ar y cynnig hwn i egluro sut mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau technegol DWMP, Egwyddorion Arweiniol neu arferion gorau cynllunio dŵr gwastraff arall, a sut y bydd hyn yn rhoi gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Ein hymateb:

Rydym wedi ystyried eich sylw ac wedi newid ein hymagwedd at barthau bach. O ran cynllunio, bydd y parthau hyn yn awr yn datblygu atebion i lefel ddiffiniedig o wasanaeth a fydd yn cael ei chynnal, ac na fydd yn cael dirywio.

Rydym wedi diweddarau'r Cynllun i newid y dull o ymdrin â pharthau bach. Gweler yr adran 'Ein Cynllun' o'r Cynllun, Pennod 11, Crynodeb Technegol, Pennod 9, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6.

8.4.4 Ofwat

Rydych yn nodi bod eich DWMP wedi nodi atebion a fydd yn cyflawni'r gyfres orau o opsiynau i fodloni 'cyrchfan y cwsmer a'r cyrchfan amgylcheddol' a argymhellir ar gyfer ardal benodol, ond nad yw'n nodi'r atebion penodol sydd eu hangen i fodloni pob ymrwymiad perfformiad.

Ein hymateb:

Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cyfrifo'r effaith ar berfformiad lefel cwmni ar gyfer dalgylchoedd a nodwyd. Gallwn gadarnhau y bydd yr atebion, ar ôl eu cyflawni, yn lleihau perfformiad ar lefel cwmni, ond teimlir y budd ar lefel y dalgylch.

Rydym wedi cyfrifo'r budd cyfeintiol i reoli capasiti ein systemau yn unol â chais Deddf yr Amgylchedd 2021.

8.5 Dull cynllunio

Rhoddodd OFWAT ddau sylw a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dri sylw yn ymwneud â dull y Cynllun.

8.5.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

C. 19. Yn eich barn chi, pa rai y dylem ni eu blaenoriaethu? Amddiffyn ardal eang rhag effaith stormydd mewn blwyddyn arferol, neu amddiffyn nifer llai o ardaloedd rhag effaith stormydd llai aml, ond mwy difrifol? Ateb: Fel yr uchod, mae angen i ni fuddsoddi mewn camau gweithredu tymor hwy gan ddefnyddio tystiolaeth a modelu sefydledig cyson (Allryiadau Uchel CCRA ac UKCP18) a chydweithio i wella gwytnwch i newid yn y dyfodol, yn hytrach na seilio penderfyniadau a chamau gweithredu ar gostau tymor byr.

Ein hymateb:

Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn ein galluogi i ystyried atebion i wahanol gyfnodau dychwelyd. Mae'r dystiolaeth yn DWMP24 wedi dangos bod atebion i liniaru'r sefyllfa 'nawr' ynghyd â'r sefyllfa yn y dyfodol, ac ymgorffori newid yn yr hinsawdd, yn anghymesur â'r atebion hynny sy'n ystyried dim ond y 'nawr', a ddarperir yn gyffredinol mewn cynllun busnes.

Mae'r cwestiwn hwn wedi'i gynnwys i amlygu'r angen am benderfyniadau buddsoddi tryloyw a chyson a fydd yn ysgogi newid ar lawr gwlad. Mae'r DWMP yn cynnwys atebion a amlygwyd yn eich sylw, ond ystyriwyd bod y rhain yn rhy gostus i'w cyflawni mewn un cam yn yr argyfwng costau byw presennol.

Mae ein hargymhelliad yn nodi'r broses o ddatblygu atebion cynyddrannol mewn dalgylchoedd a fydd yn llywio cynlluniau addasol ar gyflymder y gall cwsmeriaid ei fforddio. Bydd y broses yn caniatáu i benderfyniadau gael eu cyfleu mewn ffordd dryloyw a bydd yn ein galluogi i gyflawni mwy o welliannau ar draws ein maes gweithredu, fel y mae ein cwsmeriaid a'n hymgyngoriad wedi nodi.

Byddwn yn parhau i gynhyrchu atebion fel yr ydych wedi nodi, ond byddwn hefyd yn cynhyrchu camau cynyddrannol i'r cyrchfan terfynol.

8.5.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

C. 20 'Ydych chi'n cytuno â'n dull o flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy oni bai bod y costau'n ormodol?' Ateb: Na. Dylid hefyd ystyried yr arbedion hirdymor a'r manteision ehangach sy'n deillio o opsiynau, a pha mor effeithiol y gellir addasu mesurau i fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol.

Ein hymateb:

Trafodwyd y rhan fwyaf o'r cwestiwn yn Adran 4.6 'Blaenoriaethu'.

Yn ein hymagwedd at optimeiddio rydym yn cyfuno cost atebion heddiw i fynd i'r afael ag atebion heddiw ag atebion i fynd i'r afael â risgiau yfory. Yna byddwn yn cyfrifo'r budd a gafwyd yn erbyn gwahanol ddyddiadau dosbarthu. Gall yr optimeiddiwr ddod i'r casgliad bod mwy o fudd i'w gael trwy ddatrys risgiau heddiw ac yfory gyda chyflwyniad cynharach. Gall yr Optimeiddiwr hefyd ddarparu rhaglen sy'n nodi'r dewis amgen rhataf neu'r rhaglen â'r radd amgylcheddol leiaf. Rydym yn cyfuno'r wybodaeth hon i gael y rhaglen a ffefrir ar gyfer ardal. Dywedodd ein rhanddeiliaid y byddai'n well ganddynt safle sydd o fudd i'r amgylchedd yn hytrach na safle'r gost leiaf yn gyffredinol.

Mae ein dull o gynllunio addasol yn cael ei ystyried ynghyd â chanllawiau newydd gan 'Strategaeth Gyflawni Tymor Hir' OFWAT. Bydd dylanwad y canllawiau newydd hyn yn Dylanwadu ar ein dull. Gweler Pennod 10 y Cynllun, ac a nodir ym Mhennod 11 o'r Crynodeb Technegol, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 8.2.3.

8.5.3 Cyfoeth Naturiol Cymru

Td. 14 'Drwy ddewis cydnherthedd is gallwn wella mewn mwy o feysydd.' – dyma'r achos ariannol yn seiliedig ar y raddfa sydd ei hangen, ond mae angen i'r penderfyniad fod yn wydnwch llwyr a dadlau mai dim ond drwy weithio mewn cydweithio gyda'n gilydd. Nid yw gwytnwch yn ôl diffiniad yn rhywbeth y gellir ei raddio, ni all yr amgylchedd a phobl ond fod yn wydn neu beidio i wrthsefyll newid yn y dyfodol – ni ddylem fod yn seilio penderfyniadau ar ba mor wydn ydym oherwydd costau tymor byr, ond yn hytrach ystyried y buddion hirdymor gan gynnwys arbedion economaidd drwy beidio â gorfod mynd i'r afael â risgiau a phwysau yn y dyfodol yn adweithiol.

Ein hymateb:

Yn y cwestiwn hwn, rydym yn canolbwyntio ar sut i greu gwelliannau cynyddol ac eang i lifogydd. Rydym yn cydnabod bod goblygiadau cost i gyflawni gwytnwch wrth ystyried stormydd o wahanol gyfnodau dychwelyd. Mae amcangyfrifon i gyrraedd y cyrchfannau terfynol tua biliynau o bunnoedd a byddent yn cynyddu biliau cwsmeriaid. Er mwyn sicrhau ein bod yn creu cynlluniau sy'n dal i gyflawni gwelliannau ac yn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch fforddiadwyedd, crëwyd y cwestiwn hwn i ennill cefnogaeth i gyflwyno tystiolaeth wedi'i graddio i lunwyr polisi. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi ein hargymhelliad.

8.5.4 Ofwat

Nodwn eich bod wedi mabwysiadu dull cyflenwad-galw tebyg â phroses y cynllun rheoli adnoddau dŵr, gan gydnabod nad yw'n gydnaws yn uniongyrchol â system dŵr gwastraff llawer mwy cymhleth. Mae'n ymddangos eich bod wedi canolbwyntio ar ddarparu lefel gyson, uchel o wasanaeth ar draws pob ardal, ac nad ydych wedi teilwra eich cynllun i fynd i'r afael â'r risgiau penodol a nodwyd i lefel dderbyniol. Er enghraifft, nid yw'n glir pam y byddech yn argymhell cynllun hirdymor (y tu hwnt i'r gorwel cynllunio 25 mlynedd) i gynyddu capasiti carthffosydd ym mhobman i lif tywydd sych chwe gwaith (6 x DWF) os nad oes angen y lefel hon o fuddsoddiad mewn rhai ardaloedd ac mewn ardaloedd eraill efallai nad dyma'r ateb cywir.

Ein hymateb:

Ym maes cyflenwad a galw, rydym wedi bod yn archwilio dyheadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid i'n galluogi i osod safon uchaf sydd i'w chynnal yn ystod blwyddyn arferol. Mae'r terfyn o 6xDWF wedi'i gyflwyno er mwyn i ni allu sicrhau nad ydym yn gorddatblygu datrysiadau gan ddefnyddio dull llwyd traddodiadol lle byddai'r angen am gyfyngiant a yrrir gan raglen y gorlif carthffosiaeth gyfun yn gofyn am gyfyngiant o werth llawer mwy fel 12xDWF, a allai arwain at asedau diangen yn y dyfodol unwaith y bydd tynnu dŵr wyneb o garthffosydd cyfun yn cyflwyno mwy o fuddion.

Rydym yn dal i ystyried, yn y cyfamser, y dylid pennu gwerth cyfyngu ar draws dalgyllch cyfan y gwaith trin dŵr fel safon. Fodd bynnag, ni fyddwn yn darparu atebion i sicrhau bod rhwydweithiau'n cyrraedd y safon honno oni bai bod y budd o ran cost yn ei chefnogi.

8.5.5 Ofwat

Hoffem ailadrodd na fyddwn yn cymeradwyo unrhyw rannau o'ch DWMP cyn y broses PR24. Lle rydym wedi nodi disgwyliadau o'r blaen, er enghraifft yn ein hadborth cyn-ymgyngori / ymgysylltu cynnar i

gwmniau ('adborth cyn-ymgyngoriad'), ond nad yw'r rhain wedi cael sylw eto, dylech roi sylw i'n sylwadau ar gyfer eich DWMP terfynol. Nid yw ein holl sylwadau yn y llythyr hwn a'n llythyr trosolwg diwydiant (i ddilyn) ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle 2022 yn rhagfarnu unrhyw benderfyniadau dilynol a wnawn yn ystod PR24 mewn cysylltiad â'ch cynllun busnes ac achosion gorfodi parhaus Ofwat ac ymchwiliadau ehangach i weithrediad cwmniau o'u gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod na fyddwch yn cymeradwyo ein DWMP cyn y broses PR24. At hynny, rydym yn cydnabod bod sylwadau heb ragfarn i unrhyw benderfyniad dilynol yn ystod PR24 mewn cysylltiad â'r cynllun busnes, achosion gorfodi parhaus Ofwat ac ymchwiliadau ehangach i weithrediad cwmniau o waith trin dŵr gwastraff.

O ran ein cynllun datblygu a gwella parhaus DWMP, rydym wedi cyflymu'r broses i gyflawni mwy o newidiadau rhwng y cynllun drafft a'r cynllun terfynol. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y bydd rhai meysydd lle mae angen eu datblygu ymhellach yn DWMP29.

8.6 Fforddiadwyedd a gwerth gorau

Rhoddodd OFWAT saith sylw yn ymwneud â fforddiadwyedd a gwerth gorau.

8.6.1 Ofwat

Er mwyn dangos sail resymegol gadarn wrth gynllunio ac ystyried fforddiadwyedd i gwsmeriaid, dylech roi eglurder yn eich DWMP terfynol ynghylch sut y bydd y dulliau hyn yn helpu i gyflawni cynllun gwerth gorau.

Ein hymateb:

Ein rhesymeg ar hyn o bryd fu darparu gwybodaeth ar lefel polisi er mwyn galluogi cwsmeriaid a'r Llywodraeth i ddeall maint y newid sydd ei angen i fodloni disgwyliadau cynyddol. O safbwynt lleol, rydym wedi ceisio llunio atebion aml-ddewis sy'n cynnwys amser, cost, cwmpas a manteision lleihau llifogydd a llygredd, a manteision ehangach i bobl, byd natur a'r amgylchedd.

Rydym yn ystyried yr opsiynau rhataf a'r rhai sy'n sicrhau'r manteision mwyaf i gymdeithas. Os oes atebion sy'n cyflawni'r ddau, yr ateb gyda'r gost leiaf a'r budd mwyaf yw'r gwerth gorau. Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cost a budd, yna bydd y dewis amgen rhataf yn cael ei ddatblygu.

8.6.2 Ofwat

Fel rhan o'n hasesiad, rydym wedi ystyried lefel yr uchelgais ynghylch blaenoriaethu gwelliannau o lwfansau gwariant sylfaenol a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur neu bartneriaeth. Gnaethom hefyd asesu a yw cwmniau wedi darparu tystiolaeth ddigonol ac argyhoeddiadol bod yr opsiynau gwerth gorau cywir ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yn cael eu cynnig.

Wrth benderfynu ar opsiynau i reoli ansicrwydd presennol neu yn y dyfodol, argymhellodd ein hadborth cyn-ymgyngoriad i gwmniau y dylid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer eu datrysiadau gwerth gorau dewisol ochr yn ochr ag opsiynau amgen, megis y gost leiaf. Roedd hyn i ddangos y buddion cynyddrannol a'r costau cysylltiedig y gallai ystod o atebion eu darparu ac i ddeall y sail ar gyfer dilynol atebion penodol wrth wrthod eraill.

Ein hymateb:

Mae'r DWMP wedi cynhyrchu data newydd ar effeithiau tebygol rhwystrau a methiant asedau ar draws ein rhwydwaith dŵr gwastraff cyfan. Rydym wedi asesu effeithiau tebygol codiad yn lefel y môr ar bob ased dŵr gwastraff, canlyniadau ein holl orsafoedd pwmpio yn methu, yr amser i ymateb os bydd asedau'n methu, a'r gofod ar gyfer gwaddodion a malurion yn cronni. Rydym wedi gweithio gyda'n tîm Cynllunio Asedau ar y prosiectau hyn, gan roi gwybodaeth iddynt ar gyfer prosiectau modelu dirywiad parhaus a'u cynnwys wedyn yn PR24. Mae ein tîm Cydnerthedd yn asesu'r perygl o lifogydd o ffynonellau eraill. Bydd allbynnau terfynol y prosiectau hyn yn cael eu hintegreiddio yn DWMP29.

Gweler Pennod 5.2.7 y Cynllun, Crynodeb Technegol, Pennod 8.5.2, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 3.5.

8.6.3 Ofwat

Rydych hefyd yn nodi mai cynllun gwerth gorau yw'r cynllun a ffefrir gennych, ond nodwyd gennym fod angen gwella llawer o'ch dull cylch 1 mewn cylchoedd cynllunio dilynol ac felly nid yw'n glir sut y gall eich cynllun fod yn werth gorau mewn gwirionedd. Nid yw'n glir ychwaith sut mae eich opsiynau cynllun a ffefrir yn cymharu ag opsiynau amgen eraill, megis cynllun â'r gost leiaf, er mwyn dangos mai dyma'r gwerth gorau. Dylech fod yn glir yn eich cynllun terfynol sut y penderfynwyd ar eich cynllun gwerth gorau dewisol, sut mae'n cymharu â dewisiadau eraill, a sut mae hyn wedi newid ers dDWMP.

Ein hymateb:

Rydych wedi dweud ein bod yn cydnabod y bydd y methodolegau yng nghymhwysiad cylch 1 yn cael eu gwella yn y cylch nesaf. Yr hyn a olygwn wrth y sylw hwnnw yw y byddwn fel diwydiant yn adolygu'r arfer gorau a ddefnyddir gan bob cwmni ac yn dysgu o'r cais hwnnw ac yn gwella ein dull. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na allwn gynhyrchu cynllun gwerth gorau ar hyn o bryd. Mae pob cwmni yn yr un sefyllfa.

Enghraifft o newid i gylch 2 fyddai trosglwyddo opsiynau dichonadwy i'r adolygiad prisiau na chawsant eu dwyn ymlaen wedyn oherwydd bod y buddsoddiad gofynnol yn fwy na'r arian sydd ar gael gan amlygu fforddiadwyedd yn effeithio ar gyflymder y newid, heb unrhyw gynllun yn cael ei gyflwyno. Fel y cyfryw, mae angen i ni ailystyried sut rydym yn datblygu atebion i amserlenni cynyddrannol llai er mwyn sicrhau gwelliannau ym mhobman, ar y cyflymder y gall ein cwsmeriaid ei fforddio er mwyn sicrhau bod cynllun llai yn mynd rhagddo. Yr ateb cyffredinol a grëwyd yw'r gwerth gorau yn y lleoliad hwnnw o hyd ond mae'n rhy ddrud i'w gyflwyno mewn un AMP.

Y cynllun a ffefrir yw buddsoddi i gynnal y lefel gwasanaeth a ddarparwn ac i barhau i gyflawni ein hymrwymadau perfformiad, gan hefyd ddarparu NEP aml-AMP. O ran trosi'r cynllun strategol yn gynllun tactegol manwl rydym wedi creu atebion gan ddefnyddio methodoleg DWMP i fynd i'r afael â risg a gafwyd o asesiad BRAVA yn yr ardaloedd dangosol uchaf. Yna, aseswyd atebion pob lleoliad o ran eu cost a'u budd, eu heffaith amgylcheddol, a'r gorwel amser. Roedd ein dull yn sicrhau bod ateb traddodiadol peirianeg galed bob amser ar gyfer cymharu. Cafwyd yr ateb mwyaf buddiol o'r asesiad hwn. Yn ogystal, ailaseswyd yr un atebion drwy ddatblygu ateb 2030 a oedd yn cynnwys risg hyd at 2050, a gwnaethom ailasesu eu budd a chyfrifo'r gost a'r budd unwaith eto. Darparodd ein proses optimeiddio'r dewis rhwng y dewisiadau amgen hyn. Mae fforddiadwyedd yn dal i gyfyngu ar y dewis terfynol o ran y rhaglen gyflawni yn ein cynllun busnes.

Yn ein Prif Gynllun terfynol rydym wedi cynnwys tabl cymharu o'r rhaglen gost leiaf yn erbyn y cynllun gwerth gorau i ddangos y camau a gymerwyd gennym wrth ddatblygu'r rhaglen hon.

8.6.4 Ofwat

Fel rhan o'n hasesiad, rydym wedi ystyried aeddfedrwydd costau a buddion cwmnïau a pha mor dda y cafwyd tystiolaeth ohonynt. Fe wnaethom hefyd ystyried a yw effeithiau fforddiadwyedd ac effeithiau biliau wedi'u cynnwys ar gyfer ymgynghoriad, beth yw'r rhaniad tebygol rhwng gwariant sylfaenol a gwariant ar wella, ac a yw cyfleoedd ar gyfer cyllid partneriaeth wedi'u harchwilio'n llawn. Yn unol ag Egwyddorion Arweiniol DWMP, a datganiad blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat, 18 rydym yn disgwyl i'ch cynllun fod yn fforddiadwy ac yn ystyried blaenoriaethau cwsmeriaid. Dylai costau ddangos yr effaith ar fforddiadwyedd biliau. Nodwn eich bod wedi cyflwyno'ch dull gweithredu dewisol yn eich dogfen Crynodeb i Gwsmeriaid.

Ein hymateb:

Gwnaethom ofyn i'n rhanddeiliaid ddweud wrthym pa ddull oedd yn well ganddynt a chyflwyno'r dewis prawf i gwsmeriaid. Yna, gwnaethom ystyried adborth ac rydym wedi cadarnhau pa ddull sy'n cael ei gefnogi gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Roedd cwsmeriaid yn cefnogi cynnydd bach nawr, cyn belled nad oes cynnydd mawr a sydyn. Roedd y cynigion yn y Cynllun yn cefnogi ein hymagwedd gynyddrannol tuag at gynllunio (hy. Gwelliannau fesul Lefel Gwasanaeth ar gyfer 1:10, 1:20, 1:30). Roedd cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gyffredinol yn ein cefnogi ar hyn bron i 2 i 1.

8.6.5 Ofwat

Rydym hefyd yn aneglur ynghylch sut mae eich dulliau cwsmeriaid sy'n wynebu'r risgiau gwaethaf a'r rhai sy'n cael y gwasanaethau gwaethaf wedi arwain at nodi'r opsiynau gwerth gorau cywir o'u cymharu â'r opsiynau y byddech wedi'u nodi pe baech yn dilyn y dull a nodir yng nghanllawiau technegol DWMP. Dylech roi eglurhad a chymhariaeth fanylach ar hyn yn eich cynllun terfynol.

Ein hymateb:

Rydym wedi archwilio cyflwyno Cynllun Gwella Lefel Gwasanaeth, sy'n adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd gan y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae'r matrices blaenoriaethu yn adlewyrchu sut i fynd i'r afael â lefel y gwasanaeth, o fewn dalgylch ac ar draws y cwmni cyfan. Mae dull nodweddu problem y DWMP yn nodi'r un lleoliadau ar sail galw a risg. Fodd bynnag, nid yw ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid wedi bod yn barod i dderbyn y matrices blaenoriaethu.

Rydym wedi ychwanegu eglurhad yn y Cynllun ar y matrices blaenoriaethu a byddwn yn parhau i adolygu'r categorïau o fewn y matrices yn ein fforymau datblygu. Gweler y Cynllun, Penodau 1.16 a 2.5, y Crynodeb Technegol, Pennod 2.8, a'r Crynodeb Annhechnegol Pennod 5.2.

8.6.6 Ofwat

Fodd bynnag, nid yw'n glir o'ch DWMP beth allai'r effeithiau posibl fod ar filiau eich rhanbarth yn y dyfodol. Ni welsom dystiolaeth ddigonol ac argyhoeddiadol sy'n nodi'n dryloyw y costau sydd eu hangen i fynd i'r afael â blaenoriaethau cwsmeriaid ac elfennau angenrheidiol eraill o'ch cynllun. Disgwylw'n i chi nodi ystod o senarios a'r effaith debygol ar fforddiadwyedd a biliau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid fel eu bod yn deall sut rydych yn ystyried eu buddiannau gorau wrth gynnig eich opsiynau DWMP. Ar gyfer eich cynllun terfynol, dylech ystyried esbonio'r ystod o gostau ac effeithiau biliau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â blaenoriaethau cwsmeriaid ar gyfer eich cynllun gwerth gorau cyffredinol.

Ein hymateb:

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi rhoi cyfeiriad i ni o ran pa ddull y byddai'n well gan ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid wrth ystyried effeithiau biliau. Bydd ein DWMP terfynol yn cyflwyno sut yr effeithir ar gyflymder oherwydd fforddiadwyedd, a sut mae buddion wedyn yn cael eu newid oherwydd y cyfyngiad hwnnw. Gweler Pennod 7.3 y Cynllun, Crynodeb Technegol, Pennod 9.3.5, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6.4.1.

8.6.7 Ofwat

Roeddem yn disgwyl erbyn y cam hwn yn y broses gynllunio y byddai cwmnïau wedi nodi gwybodaeth am fforddiadwyedd ac effeithiau biliau fel bod gennym ddealltwriaeth gliriach o sut y byddai lwfansau gwariant sylfaenol yn mynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol ac am beth fyddai angen arian ychwanegol. Nid oedd yn glir yn eich cynllun pa rôl yr ydych yn ystyried y bydd gweithgareddau cynnal a chadw sylfaenol yn ei chwarae o ran lleihau risgiau neu ddarparu capasiti ychwanegol yn y rhwydwaith dros y gorwel cynllunio 25 mlynedd. Dylech ddarparu tystiolaeth bellach yn eich cynllun terfynol sy'n rhoi'r rhesymeg dros ofynion gwariant ychwanegol ar gyfer PR24.

Ein hymateb:

Rydym yn defnyddio ein lwfans sylfaenol (cyfran y bil/buddsoddiad a ddyrennir o asesiad ein rheolyddion i gynnal ein system) i gynnal lefelau gwasanaeth i'n cwsmeriaid a chynnal mesurau rheoli risg presennol. Wrth i ni ddod yn fwy effeithlon wrth gwblhau'r gweithgareddau hyn dros amser, gwelir y gwelliant fel arfer yn y gostyngiad yn ein costau i gyflawni gweithgareddau sylfaenol ("gwneud yr un peth am lai o arian") yn hytrach na'n bod yn mynd ati'n fwriadol i dyfu cwmipas yr hyn y dylai gweithgareddau sylfaenol ei gynnwys ("gwneud mwy gyda'r un arian").

Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd gweithgareddau cynnal a chadw sylfaenol yn chwarae unrhyw ran mewn darparu capasiti ychwanegol yn y rhwydwaith dros y gorwel cynllunio 25 mlynedd. Byddai capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy arian ychwanegol, nid lwfans sylfaenol. Disgrifir isod sut y bydd pob elfen yn bresennol mewn dogfennau cynllunio yn y dyfodol.

Rydym wedi trafod gyda'n rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid y defnydd o senarios, e.e. Cynllun carthffosiaeth, cynllun draenio a chynllun llifogydd. Rydym hefyd bellach wedi cynnwys senario ychwanegol o'r enw cynllun Adolygu Caniatâd. Mae'r 4 senario hyn yn amlwg yn gwahanu gwaith i gynnal ein gweithrediad gyda'r trwyddedau presennol a chyda lwfans ychwanegol i reoli twf a llifeiriant, h.y. y Cynllun Carthffosiaeth, yn erbyn y 3 senario arall sy'n ymwneud â gwaith i reoli trwyddedu yn y dyfodol, y rhaglen amgylchedd cenedlaethol ynghyd â'r rhaglen ddraenio genedlaethol a argymhellir a rhaglen seilwaith cenedlaethol i reoli amddiffynfeydd llifogydd cenedlaethol. Mae'r senarios ar wahân hyn yn amlwg yn gwahanu gwaith i gynnal y safonau presennol yn erbyn gwella ein safonau i fodloni ein gofyniad newydd. Mae'r cynllun wedi rhoi cipolwg ar faint o fuddsoddi sydd ei angen ar gyfer llifogydd cwsmeriaid ac ar gyfer lleihau gollyngiadau i'r amgylchedd. O ran fforddiadwyedd a pholisi i'w gynnwys mewn cynllun rheoli y gellir ei gymhwyso'n gyfartal i bob cwsmer ac yn gyfartal i bob cymuned, gan ysgogi gwelliant cyffredinol i isafswm lefel gwasanaeth, mae cyflwyno'r 4 senario wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau bod y cwmni yn gallu darparu cymaint o atebion â phosibl i fodloni'r cyflymder y gall cwsmeriaid ei fforddio.

Mae hyn yn golygu bod angen rhannu'r atebion sydd wedi'u creu i'r 4 senario yn hytrach na chynnwys yr holl atebion mewn un gyfres o atebion. Drwy rannu'r gyfres o atebion yn ymyriadau ar wahân yn nhrefn canlyniadau, bydd y cwmni bob amser wedyn yn llywio'r cynllun carthion yn gyntaf h.y., cynnal y gwasanaeth atebion ac yna mynd i'r afael â'r ysgogwr gwella ynghyd ag ef neu yn y cyfnod nesaf.

8.7 Dŵr ymdrochi

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau sylw yn ymwneud â dyfroedd ymdrochi.

8.7.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn Niweddariad Cymru i'r Llywodraeth, nodwyd dynodiad pellach o ddyfroedd hamdden mewndirol fel blaenoriaeth. Felly, byddai'n ddefnyddiol i'r prosiect dŵr ymdrochi mewndirol gael golwg ar unrhyw ddilyniant neu gynllun o ardaloedd/safleoedd sy'n cael eu harchwilio – yn enwedig gyda'r galw ar ansawdd dŵr ar gyfer nofio mewn afonydd a hamdden. Yr afonydd o ddiddordeb ar hyn o bryd yw'r Ddyfrdwy, Wysg a Gwy.

Ein hymateb:

Rydym yn croesawu'r cyfle i edrych ar leoliadau penodol unrhyw ddarnau o afonydd sy'n cael eu hystyried i'w dynodi yn y dyfodol. Unwaith y byddwn wedi cytuno ar leoliad ymgeisydd, byddwn yn cynnwys y cam ychwanegol yn ein cynlluniau i gyflawni dynodiad dŵr ymdrochi tra byddwn yn teithio i'r cyrchfan terfynol.

8.7.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn parhau i roi'r Rheoliadau Dŵr Ymdrochi ar waith yng Nghymru. Y gofyniad sylfaenol yw bod dyfroedd ymdrochi yn cyrraedd statws digonol. Dylai'r DWMP ystyried senarios yn y dyfodol lle mae'r uchelgais yn 'fwy' na hyn, o ystyried maint yr effaith y mae eich arllwysladau yn ei chael ar rai dyfroedd ymdrochi.

Ein hymateb:

Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda CNC i wella hierarchaeth dyfroedd ymdrochi o ran cynllunio. Ein uchelgais yw bodloni'r gofyniad sylfaenol yn gyson ac yn ddibynadwy ac yna i wneud cynlluniau, ynghyd ag ysgogwyr eraill, i gyflawni gwydnwch uwch mewn ardaloedd dynodedig. Pan fyddwn wedi sefydlu'r safon ofynnol, byddwn yn cynllunio'n raddol i symud yr ardaloedd dynodedig o ddigonol i dda ac wedyn rhagorol. Bydd cost a budd yn cyd-fynd â datrysiadau eraill yn yr un ardal i gyrraedd pen y daith ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd.

8.8 Cyflenwadau dŵr preifat

Rhoddodd Afonydd Cymru un sylw yn ymwneud â chyflenwadau dŵr preifat.

8.8.1 Afonydd Cymru

Nid ydym yn credu bod Dŵr Cymru wedi ystyried cyfran yr eiddo ar gyflenwadau dŵr preifat fel rhan o'r gwaith modelu a wnaed. Byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar yr allbynnau arfaethedig ar lefel Ardal.

Ein hymateb:

Mae modelu'r Rhwydwaith Casglu a wnaed ar gyfer y DWMP yn cynnwys asedau carthffosydd dŵr budr a chyfunol Dŵr Cymru i lefel Math II o fanylder a rhywfaint, ond nid y cyfan, o garthffosydd dŵr wyneb. Mae'r modelu'n cynnwys yr holl lwythi dychwelyd i garthffos a gynrychiolir naill ai fel cyfradd defnyddio y pen yn erbyn proffil dyddiol, proffiliau llif masnach yn seiliedig ar y math o ddiwydiant, neu ganiatadau dychwelyd i'r garthffos pan fyddant ar gael.

Nid yw'r gyfradd dychwelyd i garthffos a fodelwyd yn dibynnu ar ffynhonnell y cyflenwad dŵr.

Lle ceir draeniad suddfannau dŵr preifat o lif stormydd, rhoddir cyfrif am hyn yn y modelu drwy ddilysu llif stormydd, wedi'i ategu gan ymchwiliadau safle lle y bo'n briodol. Nid yw'r dŵr ffo o'r ardal sy'n draenio i'r suddfan dŵr wedi'i gynnwys yn y model rhwydwaith.

8.9 Risg

Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru bedwar sylw yn ymwneud â risg.

8.9.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwy

Mae'r cynllun yn cynnwys ystyriaeth o'r amcanion cynllunio gofynnol. Mae'n asesu risgiau yn erbyn metrigau addas megis cydymffurfiaeth â DWF a'r gallu i dderbyn llif tywydd gwlyb.

Ein hymateb:

Diolch am eich cydnabyddiaeth. Rydym wedi dehongli hyn i olygu bod y deunydd wedi'i ysgrifennu mewn ffordd glir i'r darllenwydd ei ddeall.

8.9.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Tawe i Langatwg / Cymoedd y De-ddwyrain

Mewn perthynas â'r casgliadau yn yr adroddiadau cryno ar ddalgylchoedd, byddai'n fuddiol darganfod ar beth y seiliwyd y Sgrinio Dalgylch ar Sail Risg, pa ddata neu wybodaeth sy'n mynd i mewn iddo ac o ba gyfnod.

Ein hymateb:

Yn unol â Chanllawiau DWMP Water UK, mae'r dull seiliedig ar risg o sgrinio dalgylchoedd wedi'i "gynllunio i ganolbwyntio ymdrech lle mae tystiolaeth o wendidau yn y system". Mae'r sgôr yn manylu ar nifer y dalgylchoedd y bernir eu bod yn methu.

8.9.3 Cyfoeth Naturiol Cymru

Wysg

Tabl 3 'Tabl Lliniaru Risg' – mae pob opsiwn yn nodi gostyngiad ac felly dylent gynnwys ataliad hefyd.

Ein hymateb:

Mae Tabl 3 ym mhob Crynodeb Maes yn dangos y gost sydd ei hangen i ddarparu dewis o bolisi. Mae'r wybodaeth yn dangos nid yn unig y risg bresennol, ond hefyd y swm sydd ei angen i gyflawni polisi ataliol, h.y. y nifer rhwng 2030 a 2050.

Rydym wedi diweddarau'r derminoleg ym Mhenodau 8 o'r Cynllun, Pennod 10 o'r Crynodeb Technegol a Phennod 7 o'r Crynodeb Annhechnegol i gyfeirio at 'fesurau ataliol'.

8.9.4 Cyfoeth Naturiol Cymru

WYSG

Td. 8 'Rydym wedi cynnal dadansoddiad i bennu'r costau tebygol i liniaru llygredd a llifogydd a ragwelir yn y dyfodol'. Cyfeirir at 'liniaru' drwy gydol y ddogfen sydd, er bod ei angen, ond yn mynd i'r afael â mesurau sy'n lleihau risgiau ac effeithiau. Byddai'n dda gweld cyfeiriad at y mesurau ataliol i fynd i'r

afael â risg yn y dyfodol, ynghyd â'r pedair ffordd arall o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ein hymateb:

Rydym wedi asesu atebion i fynd i'r afael â risgiau hyd at 2030 ac wedi penderfynu ar atebion a fydd yn mynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol hyd at 2050. Rydym hefyd wedi asesu a fyddai budd ychwanegol pe baem yn cyflawni'r mesur ataliol ar yr un pryd â chyflawni'r ateb i fynd i'r afael â'r risg presennol.

Mae ein dull yn dangos pryd y byddai ateb ataliol o fudd o ran cost, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol, yn hytrach na dim ond darparu ateb i fynd i'r afael â'r risg bresennol. Mae'r Cynllun yn ei gyfarwydd yn gymhleth a, lle y bo'n berthnasol, rydym wedi cymhwysu egwyddorion a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, fel y nodir yn y Cynllun Pennod 2.7, y Crynodeb Pennod 2.5, a'r Crynodeb Annhechnegol Pennod 1.

8.10 Sgrinio Dalgylch yn Seiliedig ar Risg

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru bum sylw yn ymwneud â Sgrinio Dalgylch ar Sail Risg a gaiff eu coladu isod.

WYSG

3.1 Sgrinio Dalgylch yn Seiliedig ar Risg – sy'n rhagweld llifogydd yn y dyfodol, pa fodel a ddefnyddiwyd? Byddai'n dda gweld hyn yn cyd-fynd ag Asesiad Risg Newid Hinsawdd 2022 a hefyd yn defnyddio Senario 'Allyriadau Uchel' UKCP18 fel bod atal a gwydnwch yn rhan annatod o wneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni.

Ffigur 3 'Canlyniadau RBCS' – y sgrinio ar sail risg – nid yw hyn yn glir ynghylch gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a fyddai'n adlewyrchu'n well y risg wirioneddol (cynnydd) os caiff ei gynnwys. Mae gwneud hynny'n sicrhau bod dull mwy cyfannol yn cael ei ddefnyddio o ran y penderfyniadau ataliol ar y cyd a'r cyflawni sydd eu hangen i wreiddio cydnerthedd yn y dyfodol

TAWE I LANGATWG / CYMOEDD Y DE-DDWYRAIN

Nid yw'n ymddangos bod y Sgrinio Dalgylch ar Sail Risg (RBCS) ar gyfer Cymoedd y De-ddwyrain a'r dalgylchoedd perthnasol yng Nghrynodeb Dalgylch Basn Afon Tawe i Langatwg yn cyfrif am y Dyfroedd Ymdrochi dynodedig ym Mro Morgannwg, yn enwedig arllwysyadau arfordirol o orlif stormydd na fydd yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Asesu Gorfif Stormydd sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu allwysyadau mewndirol neu ddŵr ffres yn unig.

Yn eich asesiadau risg nid yw'n glir a ydych yn rhoi cyfrif am risgiau ac effaith o orlifoedd carthffosiaeth gyfun rhwydwaith yn ogystal â stormydd mewn gwaith dŵr.

Mae'r un peth yn wir am ollyngiadau i ACA Aber Afon Hafren – nid yw'r rhain wedi'u cyfrif o'r Crynodebau Dalgylchoedd Basn Afon.

Ein hymateb:

Dechreuodd y DWMP yn 2019 ac, fel y cyfryw, mae wedi bod yn seiliedig ar ganllawiau a oedd yn berthnasol ar yr adeg y cynhaliwyd y dadansoddiad. Mae'r paramedrau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn yr Adroddiad Technegol a'i atodiadau, ac yng Nghanllawiau DWMP Water UK.

Rydym wedi dehongli'r ymatebion hyn fel argymhelliad i newid y fethodoleg i gynnwys asesiad a luniwyd yn benodol i asesu gorlif stormydd sy'n arllwys i ddyfroedd ymdrochi dynodedig ac i aberoedd.

Fel y dywedwch, nid yw Ffigur 3 yn nodi'n glir pa bennawd sy'n ymwneud â gorlifoedd carthffosiaeth gyfun. Mae'r Sgrinio Dalgylch ar Sail Risg (RBCS) yn rhan o fethodoleg ddiffiniedig o fewn y Fframwaith DWMP ac mae'r colofnau'n ymwneud â'r asesiadau penodol y mae'n eu cynnwys. Nid yw'r RBCS yn cynnal yr asesiad a awgrymir.

Byddwn yn mynd â hyn gerbron y grŵp gweithredu DWMP i'w drafod. Fodd bynnag, mae trafodaeth eisoes y bydd yr RBCS yn dod i ben yn y cylch nesaf.

8.11 Opsiynau

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru un sylw yn ymwneud ag opsiynau.

8.11.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyfrdwy

Mae'r opsiynau a amlygwyd yn ymddangos yn gyfyngedig, o'u cymharu ag United Utilities – gwahanu dŵr yn bennaf. Mae'n ymddangos eu bod i gyd yn ymwneud â maint yn hytrach nag ansawdd.

Ein hymateb:

Yn ein cynllun ar gyfer cylch 1, rydym wedi defnyddio asesiad risg lefel uchel yn adran galw cyflenwad y crynodebau ardal. Defnyddiwyd hwn i nodi lle mae risgiau caniatâd arllwys mewn gwaith trin dŵr gwastraff. Rydym wedi cynnal yr asesiad hwn gan gymryd y bydd risgiau ansawdd i'r amgylchedd yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP).

Byddwn yn ymgorffori'r NEP yn y cynllun ar ôl iddo gael ei gwblhau.

8.12 Effaith Amgylcheddol

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau sylw yn ymwneud ag effaith amgylcheddol.

8.12.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

WYSG

Yn yr un modd, mae asesiad 'BRAVA' yn cyfeirio at 'lygredd oherwydd stormydd' – a yw hyn yn cynnwys gorlifoedd carthffosiaeth gyfun?

Ein hymateb:

Mae asesiad BRAVA 'Llygredd oherwydd stormydd' yn cynnwys gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, fel y nodir yn y Cynllun, Pennod 4.7.8, Crynodeb Technegol, Pennod 6.2.2, a Chrynodeb Annhechnegol, Pennod 6.5.

8.12.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

WYSG

Gallai diffyg cofnodion yn erbyn Arllwysiadau i ddyfroedd sensitif fod oherwydd diffyg gwybodaeth am effaith oherwydd diffyg gwybodaeth am ansawdd y garthffrwd sy'n dod o'r arllwysiadau hyn a'r effaith amgylcheddol ddilynol.

Ein hymateb:

Yn unol â Chanllawiau DWMP Water UK, mae'r dull seiliedig ar risg o sgrinio dalgylchoedd wedi'i "gynllunio i ganolbwyntio ymdrech lle mae tystiolaeth o wendidau yn y system". Mae'r sgôr yn manylu ar nifer y dalgylchoedd y bernir eu bod yn methu.

8.13 Trwydded a rhwymedigaethau cyfreithiol ac Egwyddorion Arweiniol

Rhoddodd OFWAT bum sylw a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau sylw yn ymwneud â'n trwydded a rhwymedigaethau cyfreithiol ac Egwyddorion Arweiniol.

8.13.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Dŵr daear

Pwyslais y cynlluniau, ynghylch dŵr daear, yw canolbwyntio ar leihau ymdreiddiad dŵr daear i'r rhwydwaith carthffosydd er mwyn lleihau llif. Mae blaenoriaeth CNC, fel rheolydd amgylcheddol, yn ymwneud â sut rydych yn rheoli eich arllwysiadau carthffrwd wedi'i drin i'r ddaear.

Cyfeirir at ddefnyddio dŵr daear i ail-lenwi, ac i dynnu draeniad dŵr wyneb allan o'r rhwydwaith carthffosydd, wrth ddatblygu atebion. Mae hyn yn rhesymol ar yr amod bod eich arllwysiadau yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol presennol. Ni ddylai fod unrhyw arllwysiadau gorlif stormydd i ddŵr daear.

Ein hymateb:

Ein dull yw cefnogi dŵr daear drwy ganiatáu llwybrau mwy naturiol er mwyn galluogi dŵr glaw i gynnal y lefel trwythiad. Ein cyrchfan amgylcheddol, a gefnogir gan ein cwsmeriaid, yw cyflawni dim gollyngiadau, gan gynnwys yr holl arllwysiadau. Yn ein hymagwedd, byddwn yn gweithio i ddileu niwed amgylcheddol yn gyntaf. Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw ddŵr daear sydd newydd ei nodi ei fod mewn perygl yn cael ei gynnwys yn y NEP.

8.13.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

WYSG

Page 7 4.0 Galw am Gyflenwad - Mae cyflenwad-galw yn asesiad o gapasiti ein gwaith trin dŵr. Mae'n asesu'n fras a all yr holl weithfeydd trin dŵr mewn ardal ymdopi gyda'i gilydd â llifau presennol ac yn y dyfodol yn ystod tywydd sych. Ymddengys nad oes unman sy'n ymdrin ag effeithiau ansawdd arllwysiadau parhaus a'r camau y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Ein hymateb:

Mae'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn asesiad o gapasiti cyffredinol y rhwydwaith o'i gymharu â chapasiti presennol y gwaith trin dŵr y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer. Mae paramedrau ansawdd presennol yn hanfodol i'r caniatâd arllwys.

Mae cyflwyno'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn dangos, yn ystod tywydd sych, fod cydrannau rhwydwaith sydd wedi'u hychwanegu at ei gilydd o fewn y caniatâd arllwys presennol heddiw ac yn y dyfodol. Yn ystod tywydd sych, nid oes gan orlifoedd carthffosiaeth gyfun lwfans ac mae'r balans yn dangos bod yr holl garthffrwd wedi'i chynnwys ac o fewn y caniatâd arllwys presennol. Mewn ardaloedd lle mae'r asesiad hwn yn dangos risg bod capasiti'r rhwydwaith yn fwy na chapasiti'r drwydded arllwys bresennol, mae angen asesiad o achos y llwybr. Gallai'r ateb canlyniadol gynnwys newid y drwydded arllwys, ac uwchraddio'r gwaith trin dŵr a darnau o'r rhwydwaith.

8.13.3 Ofwat

Fel rhan o'n hasesiad, rydym wedi ystyried pa mor dda y mae cwmnïau'n deall yr achosion sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gorlifiadau stormydd, a pha mor glir y maent wedi nodi cynlluniau i fynd i'r afael â'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu 'Capasiti'r Rhwydwaith (DWMP).¹⁶ Mae hyn hefyd yn ystyried Tasglu Gwell Ansawdd Afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru.¹⁷

Rydym yn disgwyl i bob cwmni wneud cynnydd cyflym wrth fynd i'r afael â gorlif stormydd.

Mae'n rhaid i gwmnïau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan adran 94 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel yr ategwyd gan Reoliadau Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994. Mae eich cynllun wedi rhoi rhyw syniad o'r uchelgais a'r gost i leihau gorlif stormydd erbyn 2050, megis y cynllun anghyfyngedig yn cynnwys 53 o atebion a'ch cynllun cyfyngedig yn darparu 14 o atebion gorlif stormydd.

Fodd bynnag, er bod costau lefel uchel ar gyfer mynd i'r afael â gorlif stormydd (a llifogydd) wedi'u darparu, nid yw'n ymddangos bod eich DWMP yn eu defnyddio gan eich bod yn ystyried bod y costau'n ansicr. Yn lle hynny, rydych yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer mawr o brosiectau ac ymddengys bod ychydig o gysylltedd sydd rhyngddynt â'ch amcanion cynllunio cyffredinol. Yn unol â'n disgwyliadau ar gyfer cwmnïau yn Lloegr, rydym yn disgwyl gweld amserlen fanwl a chadarn (yn dangos cerrig milltir a blaenoriaethu) a thystiolaeth ar gostau'r cynlluniau gorlif stormydd yn eich DWMP terfynol.

Ein hymateb:

Y dull presennol ar gyfer arllwysiad stormydd yw blaenoriaethu ar sail "Niwed" yn unol â chyfarwyddyd y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, ac mae'n rhoi cyfrif am sensitifrwydd corff dŵr. Ar gyfer buddsoddi yn AMP8, bydd canlyniad ein rhaglen SOAF cam 2 yn cael ei ddefnyddio a'i gysoni â niwed ecolegol.

Rydym wedi datblygu ein cynllun buddsoddi PR24 ar gyfer arllwysiad storm o set sampl o 200 o ymchwiliadau cam 2 SOAF cyflawn. Ar ôl cwblhau'r rhaglen (600+ o asesiadau) a chanfyddiadau rhwymedigaeth 'INV' AMP8, bydd y broses rheoli newid NEP yn AMP yn cael ei defnyddio i ddiwygio ymrwymadau a osodwyd ar gyfer PR24 mewn cytundeb â CNC. Bydd canlyniadau ein rhwymedigaeth "INV" AMP8 yn cael eu defnyddio i lenwi'r NEP PR29 gyda'r rhaglen o welliannau hyd at 2050.

Mae ein DWMP terfynol wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys manylion ein dull at reoli gorlif stormydd a buddsoddi yn y cyfnod AMP nesaf. Bydd yn nodi ein cydymffurfiaeth a'n haliniad â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gweler y Cynllun Pennod 9.2.2, y Crynodeb Technegol, Pennod 12.3.1 a'r Crynodeb Annhechnegol, Pennod 6.

8.13.4 Ofwat

Er bod DWMPs eu hunain yn dal yn gymharol newydd, nid yw deall risgiau rhwydwaith dŵr gwastraff a chynllunio buddsoddiad. Mae hyn yn greiddiol i chi gyflawni eich dyletswydd gyffredinol i ddarparu a chynnal system garthffosiaeth a rhwymedigaethau trwydded perthnasol. Felly, dylech allu adeiladu ar y data, y modelau a'r gyfres o opsiynau sydd ar gael i chi o ganlyniad i'r gweithgaredd cynllunio blaenorol hwn.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod bod angen i ni, fel cwmni, ddarparu a chynnal system garthffosiaeth a chadw at rwymedigaethau trwydded perthnasol. Gwyddom hefyd fod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ein system yn unol â phwysau allanol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cynllunio er

